RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 72/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 04/11/2020

# Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

## Adroddiad 4: Adroddiad Gwerthuso Interim

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-80082-373-0

Gwerthusiad o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau
Adroddiad 4: Adroddiad Gwerthuso Interim

Endaf Griffiths, Wavehill
Dyfan Powel, Wavehill

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymmru na Chyngor Celfyddydau Cymru o reidrwydd.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parch Cathays

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 5
2. Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol .... 39
3. Cronfa Profi'r Celfyddydau .... 80
4. Y Parth Dysgu Creadigol .... 108
5. Casgliadau ac argymhellion .... 117

Atodiad 1: Rhagor o fanylion am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Llinyn 1) .... 137

Atodiad 2: Detholiad o adborth yn dilyn gweithgareddau / gwasanaethau Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol .... 140

Atodiad 3: Holiadur hunan effeithiolrwydd .... 141


## Tablau


Tabl 1.1: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rownd 2 i Gyd .... 25

Tabl 1.2: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: rhanbarth CCD .... 25

Tabl 1.3: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: rhanbarth ERW .... 25

Tabl 1.4: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: rhanbarth EAS .... 26

Tabl 2.1: Y mathau o gyfranogwyr (DPP) .... 46

Tabl 2.2: Nifer y cyfranogwyr fesul blwyddyn academaidd (DPP) .... 46

Tabl 2.3: Nifer y cyfranogwyr fesul Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (DPP) .... 47

Tabl 2.4: Hyrwyddwyr Celfyddydau, cyfanswm y sesiynau ac athrawon .... 75

Tabl 2.5: Hyrwyddwyr Celfyddydau, nifer y sesiynau fesul blwyddyn academaidd .... 75

Tabl 3.1: Nifer yr ysgolion yn y Cydweithio Creadigol .... 83

Tabl 4.1: Y termau chwilio mwyaf poblogaidd yn y PDC .... 112

Tabl 4.2: Yr adnoddau mwyaf poblogaidd a gyrchir yn y PDC .... 112

Tabl 4.3: Ydych chi wedi ymweld â'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb? .... 113

Tabl A1: Hunan effeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 3–4 .... 138

Tabl A2: Hunan effeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 5–6 .... 141

**Ffigurau**

Ffigur 1.1: Nifer yr ysgolion o statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd ..... 12
Ffigur 1.2: Cynrychiolwyr o Rownd 1, 2 a 3 yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, fesul rhanbarth13
Ffigur 1.3: Cynrychiolwyr o Rownd 1, 2 a 3 yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, fesul ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ..... 14
Ffigur 1.4: Y canran o ysgolion fesul chwartel MALIC (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a’r holl ysgolion yng Nghymru ..... 15
Ffigur 1.5: Adborth am reolaeth a darpariaeth yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (athrawon) . 20
Ffigur 1.6: Barn athrawon am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ..... 23
Ffigur 1.7: Sylwadau ansoddol am 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 2 Blwyddyn 1) ..... 28
Ffigur 1.8: Sylwadau ansoddol am 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 2 Blwyddyn 2) ..... 28
Ffigur 1.9: Sylwadau ansoddol am 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 3 Blwyddyn 1) ..... 29
Ffigur 1.10: Sylwadau am effaith ehangach (ffurflenni gwerthuso) ..... 30
Ffigur 1.11: Categoreiddio ansawdd y data ..... 33
Ffigur 1.12: Effaith ar gyrhaeddiad ..... 34
Ffigur 1.13: Effaith ar gyrhaeddiad (ac eithrio’r categorïau ‘Yn Aros am Ganlyniadau’ a ‘Dim Sylw’) ..... 35
Ffigur 2.1: Y digwyddiadau rhwydweithio a gynhelir, fesul Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ..... 45
Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ..... 50
Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o weithgareddau a gwasanaethau penodol y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ..... 51
Ffigur 3.1: Ydych chi’n ymwybodol o Gronfa Profi’r Celfyddydau? (Ewch i Weld neu Cydweithio Creadigol) ..... 82
Ffigur 3.2: Barn athrawon ac artistiaid am Gronfa Profi’r Celfyddydau ..... 82
Ffigur 3.3: %PYADd yr ysgolion sy’n cyfranogi ..... 83
Ffigur 4.1: Nifer yr ymweliadau â thudalennau / nifer yr ymwelwyr unigryw / adnoddau a welwyd ar PDC ..... 111
Ffigur 4.2: Beth fyddai’n eich helpu i wneud y defnydd gorau o’r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb? ..... 114

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i’r ystod eang o unigolion a sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn. Ni fyddai’r gwerthusiad wedi bod yn bosibl heb y cyfraniadau hyn. Diolchwn yn benodol i bob un sydd wedi ymateb i’r arolygon a drafodir yn yr adroddiad hwn, ac i’r ysgolion, athrawon, disgyblion ac artistiaid a gyfrannodd at yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| CCE | Creativity, Culture and Education (sefydliad rhyngwladol sy'n hybu creadigedd mewn plant) |
| PDC | Parth Dysgu Creadigol |
| CP | Creative Partnerships (Lloegr) |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| CPL | Dysgu Proffesiynol Parhaus |
| CCD | Consortiwm Addysg Canolbarth y De |
| EAS | Consortiwm Addysg De Ddwyrain Cymru |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith (Consortiwm Addysg De Orllewin a Chanolbarth Cymru) |
| PYADd | Prydau Ysgol am Ddim |
| GwE | Consortiwm Addysg Gogledd Cymru |
| HMS | Hyfforddiant mewn Swydd |
| CA 2/3/4 | Cyfnod Allweddol 2/3/4 |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LCS | Ysgolion Creadigol Arweiniol |
| RSA | Y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach |
| CDY | Cynllun Datblygu Ysgol |
| CGY | Cynllun Gwella Ysgol |

# 1. Cyflwyniad

## Y Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i adroddiad yr Athro Dai Smith ar yr adolygiad o Gelfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (2013), gan gytuno â'r holl argymhellion a wnaed. At hynny, roedd yr ymateb yn addo datblygu cynllun a fyddai'n cyflwyno'n ffurfiol y rôl ganolog yr oedd yr adroddiad yn ei rhagweld i addysg yn y celfyddydau mewn ysgolion yng Nghymru, gan hefyd gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen i'r Llywodraeth ar y pryd i sicrhau'r gyfranogaeth orau posibl yn y celfyddydau a gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y celfyddydau a phobl ifanc. Mewn adroddiad dilynol, h.y. Dyfodol Llwyddiannus (2015), oedd yn dilyn adolygiad annibynnol o drefniadau cwricwlaidd ac asesu yng Nghymru, ail gadarnhaodd yr Athro Graham Donaldson hefyd bwysigrwydd creadigedd yn natblygiad ein plant a phobl ifanc.[1]

1.2 Yr ymateb oedd cyhoeddi Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020. Mae'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a lansiwyd ym mis Mawrth 2015 yn bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru dan reolaeth tîm yng Nghyngor Celfyddydau Cymru dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltiad a Chyfranogaeth. Cefnogir y rhaglen gan fuddsoddiadau cyfartal o arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ac arian gan Lywodraeth Cymru (y Gyfarwyddiaeth Addysg) sydd wedi rhoi cyfanswm o £20m dros gyfnod o bum mlynedd. Cliciwch ar y llun ar yr ochr dde i wylio fideo byr sy'n cyflwyno'r rhaglen.[2]



1.3 Mae'r rhaglen yn cynnwys dau linyn arloesol o weithgareddau addysgol. Mae ffocws Llinyn 1, h.y. y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, ar wella cyrhaeddiad drwy greadigedd. Mae'n ymyriad dwys lle mae disgyblion, athrawon, asiantau creadigol ac ymarferwr creadigol yn cydweithio i ddarparu dull creadigol o ddysgu. Mae'r cynllun hwn wedi ymgysylltu'n barod â mwy na thraean o'r ysgolion yng Nghymru.

---

[1] Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu

[2] Os nad yw'r ddolen ar y dde yn gweithio, cliciwch ar y ddolen ddilynol os gwelwch yn dda, neu torrwch yr URL a'i ludo i'ch porwr: Fideo Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

1.4 Yn 2018 cyflwynwyd llinyn newydd i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r llinyn datblygu hwn yn cynnig rhagor o gyllid i nifer llai o ysgolion, sydd wedi elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, i weithio gydag ysgolion newydd a'u cefnogi i ddatblygu a darparu prosiect. Nod y llinyn datblygu yw cefnogi dull lle mae ysgolion yn rhannu arferion, addysgeg a phrofiadau gydag athrawon ac ysgolion sydd heb elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol gwreiddiol. Mae'n rhoi cyfle i brofi dulliau newydd o ddarparu'r cynllun yn unol ag agweddau o ddatblygiad proffesiynol sy'n cael eu datblygu ledled Cymru. Mae'r ysgolion newydd yn defnyddio datblygiad proffesiynol sydd wedi ei wreiddio yn yr un egwyddorion ac arferion â'r ysgolion hynny sydd wedi elwa'n barod o'r cynllun. Ymhellach, mae gan yr ysgolion llinyn datblygu hyn brosiectau dysgu creadigol yn eu hysgolion eu hunain. Er nad yw'r llinyn datblygu'n para mor hir â'r llinyn Ysgolion Creadigol Arweiniol, ystyrir bod cyfranogwyr y llinyn datblygu'n elwa o'r cynllun hefyd oherwydd y prosesau strwythuredig o rannu gwybodaeth a datblygu sgiliau gan ddefnyddio model lle mae cymheiriaid yn helpu ei gilydd.

1.5 Mae Llinyn 2, h.y. Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru, yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau sydd wedi eu llunio i gynyddu a gwella'r cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydau / diwylliant / treftadaeth i gydweithio:

a) Sefydlu pedwar *Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol*, sydd â'r cylch gwaith o (ymysg pethau eraill) roi cyfleoedd i athrawon ac artistiaid i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau
b) *Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol,* wedi eu rheoli gan y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, sydd â'r rôl o hybu'r arferion gorau a chefnogi eraill i fabwysiadu dulliau tebyg
c) *Cronfa Profi'r Celfyddydau,* sy'n cynnig grantiau i ysgolion a sefydliadau celfyddydau i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol newydd
ch) Y *Parth Dysgu Creadigol*, sydd wedi ei lunio i fod yn ffynhonnell o wybodaeth ar-lein ac yn ganolfan gydweithio i athrawon, dysgwyr, ymarferwyr creadigol, sefydliadau ac ymarferwyr.

*Pwrpas y gwerthusiad, y dull a'r agwedd*

1.6 Gweithredir y gwerthusiad gan y cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill a'r RSA (Y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach). Yn fras, ei bwrpas yw archwilio cynllun a darpariaeth y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Bydd yn archwilio'r broses o ddarparu'r rhaglen ac effaith yr ymyriad ar ysgolion, athrawon, dysgwyr a'r gymuned polisi addysg ehangach.

1.7 Dros gyfnod ei weithrediad bydd y gwerthusiad nid yn unig yn asesu effeithiolrwydd y rhaglen mewn perthynas â'i nodau ac amcanion gwreiddiol, bydd hefyd yn cysylltu'r canfyddiadau â defnydd gwybodaeth sy'n disgrifio effeithiau'r celfyddydau a chreadigedd mewn ysgolion. Trwy'r dulliau hyn, bydd yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dysgu a datblygiad mewn perthynas ag addysg greadigol ac yn helpu i hysbysu dadleuon y dyfodol – yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – mewn perthynas ag arferion a pholisïau.

1.8 Nid yw'r pedwerydd adroddiad interim hwn yn ymwneud â'r holl elfennau hynny. Mae ei ffocws ar asesu ac adrodd am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a dechrau archwilio'r dystiolaeth am ganlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n dilyn yr adroddiad gwerthuso interim cyntaf (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017), yr ail adroddiad interim (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018), a'r trydydd adroddiad interim (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019). Roedd yr adroddiad cyntaf yn archwilio'r rhesymeg ar gyfer y rhaglen ac yn defnyddio theori newid[3] i archwilio'r newidiadau (neu'r canlyniadau) a ragwelwyd ar gyfer y rhaglen DCC a sut y gallent gael eu mesur.[4] Dechreuodd yr ail a'r trydydd adroddiad bennu ac asesu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion ynghyd â'r canlyniadau oedd yn dod i'r amlwg.[5]

1.9 Ni fydd yr adroddiad yn ceisio gwerthuso gweithgareddau yn erbyn y canlyniadau terfynol; yn hytrach, yn debyg i'r adroddiadau blaenorol, bydd yn rhoi manylion am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn Llinyn 1 a Llinyn 2. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar fylchau yn y data a meysydd o weithgaredd lle nad oes modd gweld tystiolaeth hyd yma. Canfuwyd rhai o'r bylchau hyn mewn adroddiadau

---

[3]Gellir disgrifio Theori Newid fel trywydd sy'n amlinellu'r pethau hynny (y canlyniadau cyfamserol) sydd angen digwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol.

[4] Mae copi o adroddiad cyntaf y gwerthusiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

[5] Mae copi o'r ail adroddiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

blaenorol, megis y diffyg tystiolaeth am yr effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr, ac mewn sefyllfaoedd eraill dyma fydd y cais cyntaf i ganfod data yn y meysydd hynny (er enghraifft, ar gyfer y llinyn datblygu).

1.10 Bydd ffocws yr adroddiad ar y data sy'n dod i'r amlwg a gasglwyd o weithgareddau gwaith maes a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd 2018-2019. Bydd yr adroddiad yn defnyddio'r data newydd hwn, yn ogystal â data o'n gwaith cynharach am y gwerthusiad hwn, i archwilio'r cynnydd sy'n cael ei wneud o fewn y ddau linyn. Ymhellach, bydd yr adroddiad yn ystyried natur y data ei hun ac i ba raddau y bydd data o'r fath yn caniatáu i dystiolaeth gadarn gael ei chasglu o ganlyniadau yn y dyfodol.

1.11 Mae gan yr adroddiad cyfredol hwn ffocws arbennig ar ystyried effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad dysgwyr; effaith y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar athrawon ac ysgolion; archwiliad ansoddol a meintiol manylach o'r rhaglen Cydweithio Creadigol; archwiliad manylach o ddata meintiol sy'n ymwneud â'r grant Ewch i Weld; ac archwiliad manylach o effaith y ddau linyn o weithgareddau ar artistiaid a sefydliadau celfyddydau yng Nghymru.

*Data*

1.12 Roedd y gwaith ymchwil a wnaed yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad yn cynnwys:

- Arolygon o athrawon (n=124) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, yn bennaf drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Dylid felly ystyried y canfyddiadau a drafodir isod yn y cyd-destun hwn: mae'r mwyafrif o ymatebwyr sydd wedi eu seilio mewn ysgol yn Gydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol neu'n athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac a ddylai felly fod yn fwy ymwybodol o'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'i nodau a'i amcanion.
- Arolwg o artistiaid a sefydliadau celfyddydau (n=119) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, a'r rhain hefyd yn bennaf drwy gyfrwng y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Dylid disgwyl, felly, iddyn nhw fod yn ymwybodol o nodau ac amcanion ehangach y rhaglen.
- Ffurflenni gwerthuso i bob ysgol neu brosiect sy'n cymryd rhan yn llinyn datblygu'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac sydd wedi cwblhau'r grantiau Cydweithio Creadigol.

- Mae tair astudiaeth achos yn cael eu datblygu hefyd i ddarparu data ansoddol manylach am y grant Cydweithio Creadigol. Gweithredwyd un gyda ffocws ar yr ysgol/uned cyfeirio disgyblion yn unig, un gyda ffocws ar y sefydliad celfyddydau, ac un yn archwilio'r berthynas rhwng y ddau. Dyma oedd y prosiectau, sefydliadau ac ysgolion a gymerodd ran:
    - Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan y Gors, Sir Gaerfyrddin
    - Ysgol Pendalar a Chwmni'r Frân Wen, Gwynedd
    - Venue Cymru, Conwy
- Cyfweliadau lled-strwythuredig a wnaed â swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â goruchwyliaeth strategol neu gyfrifoldeb mewn perthynas â darpariaeth y rhaglen ond nad ydynt yn ymwneud yn agos â'r rheolaeth o ddydd i ddydd. Cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad fel 'staff rheoli strategol', tra bo staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud yn agosach â rheolaeth a darpariaeth y llinynnau o ddydd i ddydd yn cael eu galw'n 'staff rheoli'.
- Cafwyd cyfanswm o wyth cyfweliad lled-stwythuredig gydag amrywiol elfennau o dîm rheoli'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, staff Cyngor Celfyddydau Cymru, ac unigolion sy'n cymryd rhan yn narpariaeth gwahanol elfennau o'r rhaglen.
- Cafwyd pedwar cyfweliad lled-strwythuredig gyda phersonél yn y Consortia Addysg Rhanbarthol.
- Cafwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff a chydlynwyr Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol (n=4).
- Cafwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda'r hyrwyddwyr celfyddydau (n=7).
- Darparwyd data monitro ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol, y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a Chronfa Profi'r Celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, a chafodd y data hwnnw ei ddadansoddi wedyn.
- Roedd data o'r rhaglen 5 Arfer Creadigol y Meddwl ar gael o Rownd 1 (Blwyddyn 2), Rownd 2 (Blynyddoedd 1 a 2), a Rownd 3 (Blwyddyn 1). Roedd y rhaglen hon wedi ei llunio'n benodol i werthuso effaith addysgu creadigol ar sgiliau creadigol disgyblion oedd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol.

- Roedd data ar gael i'r tîm gwerthuso hefyd o'r rhaglen (hunan) effeithiolrwydd (n=664). Lluniwyd y rhaglen hon i werthuso effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar effeithiolrwydd disgyblion a'u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu.

*Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Llinyn 1)*

**Y Cynnydd Hyd yn Hyn**

**Cyflwyniad**

1.13 Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad drwy greadigedd. At hynny, mae'n ceisio datblygu sgiliau creadigol mewn pobl ifanc a datblygu addysgeg ymysg athrawon. Mae'n ymyriad dwys sy'n cynnwys disgyblion, athrawon, asiantau creadigol ac ymarferwyr creadigol sy'n cydweithio i ddarparu dull creadigol o ddysgu. Mae'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir a'r rhai a gynhelir gan Awdurdodau Lleol, yn cynnwys ysgolion arbennig, yng Nghymru'n gymwys i wneud cais i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys cyfleusterau addysgu arbenigol mewn ysgolion.

1.14 Mae trosolwg o'r broses ymgeisio a'r broses weithredu ar gyfer y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i'w gael yn Atodiad 1. Ond, i grynhoi yn y fan hon, mae ysgolion yn gwneud cais drwy broses gystadleuol i ddod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Wedi hynny, mae ysgolion a gynhelir yn gweithio gydag asiant creadigol i ddatblygu prosiect a fydd yn ymdrin â'r blaenoriaethau sydd wedi eu pennu gan yr ysgolion. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r prosiect ar gyfer tymor y gwanwyn. Mae gweithgareddau dysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r ymarferydd creadigol yn digwydd yn nhymor y gwanwn, a gwneir gwerthusiad myfyriol mewnol o'r gweithgareddau yn nhymor yr haf. Cefnogir ysgolion am ddwy flynedd, gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un fath â strwythur y flwyddyn gyntaf ac mae dysgu'r flwyddyn gyntaf yn hysbysu'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau. Cafwyd rhywfaint o oedi wrth weithredu hyn, gyda nifer o ysgolion yn symud i amserlenni'r rowndiau diweddarach, ond (i bwrpasau gwerthuso) maen nhw'n aros yn eu rownd wreiddiol heblaw ei fod yn nodi fel arall.

1.15 Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei ddarparu dros dri rownd, gydag ysgolion a gynhelir yn cymryd rhan am ddwy flynedd:

- Rownd 1: blynyddoedd academaidd 2015–2016 a 2016–2017
- Rownd 2: blynyddoedd academaidd 2016–2017 a 2017–2018
- Rownd 3: blynyddoedd academaidd 2017–2018 a 2018–2019

1.16 Mae'r rowndiau hyn yn gorgyffwrdd; felly, o Fedi 2016, rhedodd Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 1 Blwyddyn 2 yn gyfochrog ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 2 Blwyddyn 1. Mae hyn wedi parhau yn y fath fodd nes y bydd Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 2, Blwyddyn 2, o fis Medi 2017, yn rhedeg yn gyfochrog ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 3 Blwyddyn 1.

*Nifer yr ysgolion a gymerodd ran*


1.17 Pan gychwynnodd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn 2015, rhagwelwyd y byddai'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cefnogi traean o ysgolion yng Nghymru (darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn ystod ei oes o bum mlynedd. Yn 2015, roedd 1,582 o ysgolion cymwys yng Nghymru; felly, y nod oedd ymgysylltu 522 o ysgolion.

1.18 Yn gyffredinol, mae 533[6] o ysgolion unigryw wedi cymryd rhan ac wedi cwblhau dwy flynedd lawn yr ymyriad Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynrychioli 102% o'r targed.

1.19 Mae Ffigur 1.1 yn dangos y nifer o ysgolion statws Ysgol Greadigol Arweiniol fesul blwyddyn academaidd. Mae'n debyg bod y baich gweinyddol (y nifer o ysgolion i'w cefnogi, monitro ac ati) ar dîm y rhaglen wedi bod ar ei uchaf yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018. Ond, cymerodd 72 o ysgolion ran hefyd mewn gweithgareddau llinyn datblygu yn 2018-2019, oedd yn cynnwys 33 o ysgolion Rownd 3 Blwyddyn 2 (buddiolwyr yr Ysgolion Creadigol Arweiniol presennol) a 39 o ysgolion eraill.

[6] Mae'r ffigur hwn yn cyfeirio at ysgolion unigryw sydd wedi cwblhau'r ymyriad dwy flynedd lawn. Roedd rhai ysgolion oedd yn cyfri fel rhai oedd wedi ymgysylltu â Rownd 1, 2 neu 3 wedi gadael y cynllun cyn cwblhau'r ymyriad, neu heb gwblhau'r holl ddogfennaeth werthuso ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. O ganlyniad, nid yw'r rhain wedi eu cyfri yn y cyfanswm hwn o 533 o ysgolion a gymerodd ran ac a gwblhaodd eu hymyriad.


Ffigur 1.1: Nifer yr ysgolion statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd




*Dosbarthiad a chynrychioldeb yr ysgolion a gymerodd ran*


1.20 Mae Ffigur 1.2 yn dangos cynrychioldeb ysgolion Rownd 1, 2 a 3 (yn gyfan) yn ôl y rhanbarth (Consortia Addysg Rhanbarthol). Mae'r bar lliw llwyd yn dangos y gyfran o'r holl ysgolion yng Nghymru ymhob rhanbarth, tra bo'r bar lliw coch yn dangos yr un peth ar gyfer Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er bod y dosbarthiad yn weddol debyg i'r gyfran o ysgolion yng Nghymru, nid yw ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) a De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) wedi eu cynrychioli'n ddigonol, tra bo'r rheiny yng Nghanolbarth De Cymru (DDC) a De Ddwyrain Cymru (EAS) wedi eu gor-gynrychioli. Mae'r canfyddiadau hyn yn adleisio data o adroddiadau blaenorol gyda dim ond amrywiadau bychan iawn. Mae'r gor-gynrychiolaeth mwyaf sylweddol yn codi yn EAS, sef y rhanbarth gyda'r gyfran isaf o ysgolion. Nid oedd data ar gael ar gyfer asesu'r rhesymau am hynny.

Ffigur 1.2: Cynrychioldeb Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 1, 2 a 3, yn ôl y rhanbarth




1.21 Mae Ffigur 1.3 dros y dudalen yn cymharu'r gyfran o Ysgolion Creadigol Arweiniol sy'n ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r gyfran o'r holl ysgolion yng Nghymru. Nid yw ysgolion cynradd wedi eu cynrychioli'n ddigonol o fewn y grŵp o Ysgolion Creadigol Arweiniol, tra bo ysgolion uwchradd wedi eu gor-gynrychioli. Mae'r newid o'r adroddiad interim blaenorol yn fychan iawn, ac mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn hon yn adlewyrchu darlun hanesyddol a chyson. Mae cyfranogaeth ysgolion cynradd wedi gostwng ar gyfartaledd ers yr adroddiad interim diwethaf, ac mae'r cyfartaledd o ysgolion uwchradd wedi cynyddu (o 78% i 79% ac o 21% i 22% yn y drefn honno). Mae'r data'n awgrymu bod ysgolion uwchradd wedi eu gor-gynrychioli o fewn y rhaglen ar draul ysgolion cynradd, ond roedd hyn yn fwriadol (i ryw raddau) er mwyn sicrhau sampl cynrychiadol o ysgolion uwchradd o fewn y gyfran o ysgolion sy'n elwa o'r rhaglen.

Ffigur 1.3: Cynrychioldeb Ysgolion Creadigol Arweiniol Rownd 1, 2 a 3 yn ôl yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd





1.22 Y Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALIC) yw mesuriad swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd perthynol yn yr ardaloedd bach yng Nghymru. Mae wedi ei lunio i adnabod yr ardaloedd bychan hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. Felly, mae'r MALIC yn defnyddio dangosyddion amddifadedd niferus i fesur ar sail ardal ac i fesur amddifadedd perthynol. Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf yn 2014.[7]

1.23 Mae Ffigur 1.4 yn dangos canran yr ysgolion a fu'n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r gyfran o ysgolion yng Nghymru gyfan yn ôl y chwartel MALIC. Mae'n dangos cyfatebiaeth agos iawn rhwng dosbarthiad Ysgolion Creadigol Arweiniol a dosbarthiad yr holl ysgolion yng Nghymru, gan awgrymu felly naill ai nad yw amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar gyfranogaeth yn y cynllun neu fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi canfod ffordd lwyddiannus o orchfygu unrhyw rwystrau i gyfranogaeth y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu.

[7] Mae rhagor o fanylion am y MALIC i'w cael yma: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Ffigur 1.4: Canran yr holl ysgolion yn ôl y chwartel MALIC (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a’r holl ysgolion yng Nghymru




**Canfyddiadau gwaith maes y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**

*Cymhellion ar gyfer cyfranogi yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol*

1.24 Gall deall y ffactorau sy’n cymell athrawon ac artistiaid i gymryd rhan yn y cynllun hysbysu datblygiad y dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu athrawon naill ai o fewn y cynllun hwn neu o fewn cynlluniau tebyg yn y dyfodol. Mae’r Arolwg Athrawon ac Artistiaid yn darparu data am gymhellion athrawon ac yn cefnogi’r canfyddiadau ansoddol a gafwyd o gyfweliadau ac astudiaethau achos.

1.25 Derbyniwyd 124 o ymatebion gan athrawon i’r arolwg yn 2018-2019, gyda 121 o ymatebwyr (98%) yn eu hadnabod eu hunain fel Cydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae’r sampl hwn yn cynrychioli cyfran sylweddol o Gydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Dylid felly ystyried y canfyddiadau a drafodir isod yn y cyd-destun hwn: mae’r mwyafrif o ymatebwyr sydd wedi eu seilio mewn ysgol yn Gydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol neu’n athrawon sy’n gweithio mewn ysgol sy’n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac, felly, dylent fod â gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau a’i nodau a’i amcanion.

1.26 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos mai'r prif gymhellion a benwyd gan athrawon oedd 'diddordeb' yn y prosiect neu mewn dysgu creadigol (82%), wedi'i ddilyn gan 'ddatblygiad proffesiynol' (71%). Dyma oedd yr ymatebion eraill: 'gofynnwyd i mi gyfranogi' o ganlyniad i benderfyniad strategol ehangach ar lefel ysgol i ymgysylltu (49%) ac 'roedd athrawon eraill yn ei wneud e' (9%). Mae'r canlyniadau'n adleisio canfyddiadau blaenorol ac (eto) mae'n awgrymu bod datblygu sgiliau mewn addysgu'n greadigol yn ystyriaeth bwysig i athrawon.

1.27 Mae data sy'n deillio o gyfweliadau gyda phersonél rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n awgrymu'n gryf bod y Cwricwlwm i Gymru sydd ar y gweill, yn ogystal â pharatoadau mewn ysgolion ar gyfer ei weithredu, yn ffactor cymell positif, er ei fod yn anfwriadol, ar gyfer annog cyfranogaeth. Er bod diwygiad y cwricwlwm a'r addasiad i'r dull a amlinellwyd yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus wedi eu nodi mewn adroddiadau blaenorol fel ffactorau cymell pwysig, credir yn eang gan staff rheoli bod diwygiad y cwricwlwm a datblygiad y Cwricwlwm i Gymru a'r syniad mwy cadarn o'r hyn sydd i gael ei weithredu, yn gyd-destun ac yn gymhelliad cynyddol bwysig ar gyfer yr ymyriad. Yn wir, gan adleisio geiriau swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Adran Addysg a Sgiliau, mae staff rheoli'n ystyried yr ymyriad yn fodel ar gyfer y cwricwlwm newydd.

> '…wrth i ni agosáu at y cwricwlwm newydd, byddai'n wirion dweud nad oedd hwn yn rhagflaenydd i'r cwricwlwm newydd. Ni chafodd ei gynllunio i wneud hynny, ond mae'n dod yn fwyfwy amlwg ei fod.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

> 'Mae'n cael ei ystyried i raddau mawr iawn yn ffordd o weithio gyda'r cwricwlwm newydd. Mae ysgolion yn ei weld fel cyfle i roi cynnig ar ddysgu ar sail ymholi yn nhermau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ac yn gyfle i roi llais y disgybl yn y canol a defnyddio dulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Yn nhermau DPP gan y Rhwydweithiau, mae'n ymwneud â datblygu gwybodaeth am y celfyddydau. Rydym wedi gweld newid yn nhermau'r rhesymau pam mae ysgolion ac athrawon yn dewis cyfranogi.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.28 Atseinir y farn hon bod y rhaglen yn ffordd o baratoi ysgolion ac athrawon ar gyfer y cwricwlwm newydd ar y lefel rheoli strategol.

> 'Cael ysgolion yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd, a fydd â chreadigedd wrth ei galon. Mae'n bendant yn rhaglen i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd.' (Cyfweliad â Rheolwyr Strategol, 2019)

1.29 Mae ymarfer mapio gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi archwilio'r diffyg ymgysylltiad â'r rhaglen ac wedi canfod ysgolion sydd heb gael cysylltiad gydag unrhyw agwedd o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Er bod hyn wedi bwydo i mewn i reolaeth a darpariaeth y rhaglen (fel y mae wedi'i ddisgrifio isod), mae'n parhau'n aneglur ar y cam hwn pam nad yw'r ysgolion hyn wedi ymgysylltu. Mae dymuniad eglur, fodd bynnag, i ymestyn cyrhaeddiad gweithgareddau'r rhaglen i'r ysgolion hynny sydd heb ymgysylltu hyd yn hyn.

> 'Mae gennym nifer o ysgolion ar draws y wlad sydd heb ymgysylltu am ba reswm bynnag. Rydym yn ceisio eu cyrraedd nhw yn rhan o'r llinyn datblygu. Yr hyn yr hoffwn ei weld rhwng nawr a diwedd y rhaglen – o safbwynt Ysgolion Creadigol Arweiniol – yw rhywbeth sy'n gadael i ni dargedu'r ysgolion hynny. Mae'n debyg y byddem yn cynnig hyfforddiant i ddechrau, gan ddefnyddio'r cwricwlwm newydd fel bachyn ar gyfer hynny.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.30 Gan adleisio barn Cydlynwyr Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a chanfyddiadau adroddiadau gwerthuso blaenorol, mae'r staff rheoli'n awgrymu bod y rhwystr allweddol mae'n debyg ar lefel arweinwyr yr ysgolion. Os nad yw arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi neu'n rhoi gwerth ar y celfyddydau mynegiannol, neu greadigedd mewn addysgu'n fwy cyffredinol, maen nhw'n annhebygol o ymgysylltu â'r rhaglen neu annog eu staff i ymgysylltu. Yn fwy na hynny, mae adroddiadau blaenorol a chyfweliadau gyda rheolwyr a staff darparu'n awgrymu hyn: pan mae ysgolion wedi canfod blaenoriaethau mwy argyfyngus sy'n debygol o effeithio ar ddangosyddion perfformiad, yna mae'r arweinwyr hefyd yn llai tebygol o ymgysylltu â'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

1.31 Roedd adroddiadau blaenorol yn nodi hefyd bod rhai Consortia Addysg Rhanbarthol wedi ceisio annog ysgolion 'categori coch' i beidio ymgysylltu â'r rhaglen. Er bod rhai o'r ysgolion hyn wedi ymgysylltu ers hynny, fel y nodwyd yn yr adroddiad blaenorol (Adroddiad 3), mae nifer fechan o ysgolion o'r fath yn parhau. Credwyd

bod rhai Consortia wedi cynghori ysgolion 'categori coch' i ganolbwyntio ar gwrdd â'u heriau eu hunain, yn hytrach na darparu'r rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae hyn, y tu hwnt i reolaeth rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, wedi bygwth agor bwlch rhwng yr ysgolion sydd wedi cael lle ar y rhaglen a'r ysgolion hynny sy'n teimlo nad ydynt wedi gallu mynd arni. Mae angen rhagor o dystiolaeth a data i ganfod a yw hyn wedi bod yn benderfyniad polisi cadarn gan y Consortia, p'un a ydyw wedi bod yn benderfyniad a yrrwyd gan gamgyfathrebu posibl am amcanion y rhaglen, neu a oes rhesymau eraill. Ar wahân i'r penderfyniadau gweithrediadol a'r cyngor a roddir yn lleol a'r ffactorau sy'n cymell y rheiny, mae tystiolaeth ymchwil o raglenni addysgol eraill yn awgrymu bod ymdrechion i ddatblygu ysgolion fel amgylcheddau dysgu creadigol lle nad yw'r diwylliant ysgol gyfan mewn sefyllfa i brynu i mewn i, a modelu, ymddygiadau ac agweddau creadigol yn hynod o broblematig. Mae Hatton a Mooney (2018)[8] wedi dangos sut mae ysgolion yn Awstralia yn gallu ffynnu'n greadigol dim ond pan fydd yr holl ecoleg dysgu'n gallu cyrchu ac archwilio addysgeg greadigol. Yn anaml iawn y mae cynnig pocedi bach o weithgaredd mewn ysgolion y mae eu ffocws ar agendâu eraill yn arwain at newid graddfa fawr yn nhermau dysgu creadigol neu ddysgu drwy'r celfyddydau.

1.32 Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos bod perthnasedd ehangach y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi ei bwysleisio gan yr agenda diwygio'r cwricwlwm a'r cysylltiadau eglur y mae nid yn unig rheolwyr y rhaglen ond hefyd bersonél Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud rhwng y cwricwlwm newydd a'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn arbennig, mae dealltwriaeth eang o'r ffaith bod dulliau, arferion ac addysgeg gysylltiedig y cynllun yn gydrannau integrol o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ac, yn arbennig, y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi eu mwyhau felly gan y cwricwlwm newydd.

*Darpariaeth a rheolaeth*

1.33 Cynhaliwyd gwaith maes yn ystod tymor y gwanwyn yn y flwyddyn derfynol o weithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol (Rownd 3 Blwyddyn 2). Roedd y staff rheoli'n fodlon gyda darpariaeth a rheolaeth y rhaglen, ac adleisiwyd y teimlad hwnnw gan randdeiliaid allweddol.

[8] Hatton C a Mooney M (2018) Creative Ecologies in Education: Teaching Relationships Within Sustained School-Based Artists-in-Residence Projects, yn Creative Policy, Partnerships and Practice in Education, Ed. Snepvangers, K, Thomson, P a Harris A, Palgrave Macmillan.

> ‘Yn gyffredinol, mae wedi cael ei rheoli’n dda iawn a’i monitro’n agos gan y tîm ymgysylltu yn y Cyngor Celfyddydau. Maen nhw’n galw ac yn cadeirio’r cyfarfodydd. Mae Llywodraeth Cymru’n cael dylanwad ond mae hynny’n cael ei reoli’n agos iawn. Mae’r tîm sydd gennym yn ein rhanbarth yn gweithio’n rhagorol o dda ac maen nhw’n fodlon rhoi gwybod i ni am y datblygiadau diweddaraf.’ (Cyfweliad â’r Consortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

1.34 Adlewyrchwyd y barnau hyn gan fuddiolwyr a staff a rhanddeiliaid ehangach, ac maent oll wedi rhoi sylwadau am reolaeth a darpariaeth effeithiol ac eglur y rhaglen. Ymhellach, nododd yr ymatebwyr a’r rhai a gyfwelwyd bod yr arferion a’r prosesau wedi’u sefydlu’n dda a bod gan bobl ddealltwriaeth dda ohonynt am fod y rhaglen yn ei bedwaredd flwyddyn.

1.35 Mae’r staff yn hyderus bod yr heriau gyda’r darparu a welwyd yng nghamau cynnar darparu’r rhaglen wedi eu goresgyn a bod y model darparu a’r dull wedi eu sefydlu. Ymhellach, mae’r staff rheoli’n ddigon hyderus yn eu gallu i ddarparu, i deilwra’r camau cynllunio a darparu, ac i sicrhau proses lai ffurfiol a mwy sgyrsiol yn eu cais i helpu i ddatblygu’r ymyriad mwyaf perthnasol ar gyfer yr ysgolion sy’n cymryd rhan.


> ‘Does dim rhaid glynu’n dynn at bopeth. Mae’n ymwneud â thrafod a helpu ysgolion ar daith, efallai eu mentora nhw mewn ffordd. Mae’n ymateb i anghenion ysgolion fesul achos unigol.’ (Cyfweliad â Chyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.36 Mae lleoli timau Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn Consortia Addysg Rhanbarthol wedi dod i’r amlwg fel elfen arbennig o bwysig yn y strwythur ddarparu ac mae gan hyn nifer o fanteision. Yn gyntaf, mae rheolwyr y rhaglen a phersonél y Consortiwm yn credu bod gwneud hynny wedi dod â budd i’r broses recriwtio ysgolion oherwydd mae’n rhoi awdurdod y Consortia i’r rhaglen ac mae’n hysbysu’r broses ddethol a chymeradwyo. Yn ail, mae lleoli staff Ysgolion Creadigol Arweiniol o fewn y Consortia wedi cynyddu amlygrwydd y rhaglen a’i heffaith ac mae wedi ei gwneud hi’n haws adeiladu perthnasoedd sydd wedi helpu i ddatblygu ethos tîm mewn perthynas â’r ddarpariaeth. Yn olaf, mae’n lleihau cymaint ag y bo modd effaith unrhyw newidiadau mewn staffio ar y ddealltwriaeth a’r wybodaeth sefydliadol am y rhaglen. Yn dilyn cyfnod o secondiadau a newidiadau staffio yn y Consortia, yn ymwneud i raddau mawr â datblygiad y cwricwlwm newydd, mae staff yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi gallu derbyn staff newydd ar unwaith ac wedi gallu eu briffio a’u hysbysu am y rhaglen.

1.37 Yr hyn sy'n parhau'n ansicr heb ragor o ddata yw'r effaith y mae lleoli'r timau ochr yn ochr â'r Consortia wedi ei chael ar ddealltwriaeth y Consortia o athroniaeth y rhaglen a'r ffordd y mae hi'n gweithio. A yw dealltwriaeth y Consortia wedi gwella drwy iddynt ymwneud yn agosach â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan arwain at ddatblygu sêl bendith ei hun y Consortia mewn ystyr fwy cyffredinol, h.y. rhoi caniatâd awdurdodol a chredadwy i ysgolion "fod yn greadigol"?

1.38 Roedd yr adborth gan athrawon ar wahanol agweddau o reolaeth a darpariaeth y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gyffredinol bositif (gwelwch Ffigur 1.5). Roedd ymatebwyr yn arbennig o bositif ynglŷn â'r hyfforddiant a gawsant, gyda 76% o ymatebwyr yn rhoi ymateb o 'dda' neu 'ragorol'. Roedd yr adborth am y cymorth a'r arweiniad a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn bositif iawn hefyd (gyda 75% yn rhoi ymateb o 'ragorol' neu 'dda'). Roedd pum deg wyth y cant yn credu bod y broses ymgeisio yn 'dda' neu'n 'rhagorol', sy'n gynnydd o wyth pwynt canran ar ganfyddiadau'r adroddiad blaenorol, gyda dim ond 10% yn nodi bod y broses yn 'is na'r cyfartaledd' neu'n 'wael'. Gallai'r cynnydd yn y sgorau boddhad ar gyfer y broses ymgeisio awgrymu bod newidiadau a gyflwynwyd i'r broses dros y flwyddyn academaidd flaenorol wedi dechrau ymdrin â phryderon ac anfoddhad. Roedd barn lai positif am y broses ymgeisio wedi'i hadlewyrchu yn y data ansoddol a ddarparwyd gan athrawon a chydlynwyr yn arbennig, gan awgrymu bod y broses yn rhy fiwrocrataidd a beichus.

Ffigur 1.5: Adborth am reolaeth a darpariaeth Ysgolion Creadigol Arweiniol (athrawon)




Ffynhonnell: Arolwg Athrawon 2019

*Llwyddiannau ac effaith*

1.39 Mae'r adran hon yn archwilio'r data sy'n ymwneud ag effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'i weithgareddau cysylltiedig ar ddysgwyr. Mae'r adran yn defnyddio data a gynhyrchwyd gan y rhaglen 5 Arfer Creadigol y Meddwl, yr holiaduron hunan effeithiolrwydd, ac amrywiaeth o ffynonellau sy'n ymwneud â chyrhaeddiad, a chwestiynau'r Arolwg Athrawon ac Artistiaid am effaith cyrhaeddiad addysgol y dysgwyr.

*Cyffredinol*

1.40 Mae'r holl staff rheoli, staff rheoli strategol, rhanddeiliaid, a buddiolwr a gyfwelwyd yn ystyried bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi bod yn llwyddiant. Roedd llawer ohonynt yn cyfeirio at agweddau llwyddiannus o'r rhaglen y soniodd yr adroddiadau gwerthuso blaenorol amdanynt, er enghraifft yr effaith ar athrawon a'u haddysgu, yr effaith ar ysgolion a'u diwylliant a'u hagweddau mewn perthynas â'r celfyddydau a dysgu creadigol, a'u heffaith ar ddysgwyr.

1.41 Mae staff rheoli rhaglenni a rhanddeiliaid (i ryw raddau) yn honni y gellir diolch i'r cynllun am sbarduno diddordeb yn fwy cyffredinol ymysg pobl addysgol ac athrawon proffesiynol ym maes addysgu a dysgu creadigol.

> 'Ond mae'n sicr bod symudiad wedi bod tuag at ddysgu creadigol. Byddwn yn dweud mai'r rheswm am hynny'n rhannol yw'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau am fod mwy na thraean o'n hysgolion wedi cymryd rhan yn y rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol. Byddwn yn dweud bod Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (fel rhaglen), wedi codi ymwybyddiaeth o hynny.' (Cyfweliad Consortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

1.42 Hefyd, soniodd y personél rheoli eu bod wedi sylwi ar eirfa gyffredin yn datblygu ymysg aelodau'r proffesiwn addysgu mewn perthynas â dysgu ac addysgu creadigol. Roedd staff yn cysylltu datblygiad yr eirfa gyffredin hon gyda'r ymyriad Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae pwysigrwydd trafodaethau proffesiynol yn nodwedd a welwyd mewn ymchwil diweddar a wnaed gan yr Athro Pat Thompson, sy'n awgrymu bod trafod proffesiynol artistiaid yn amlwg yn wahanol i drafodaethau athrawon mewn ffyrdd a allai wahodd ymgysylltiad dyfnach â dysgu a gall hyn

arwain at well canlyniadau dysgu.[9] Gallai adroddiadau gwerthuso yn y dyfodol archwilio'r mater hwn yn fwy manwl.

> 'Un peth a ddaeth allan o hyn i mi ac a ddaeth yn amlwg yn y diwrnodau ailgysylltu oedd ein bod wedi ceisio datblygu iaith gyffredin am greadigedd, ac mae'n dda clywed ysgolion yn defnyddio'r iaith honno. Roedd hi'n braf clywed hynny.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.43 Roedd staff rheoli'r rhaglen yn tynnu sylw hefyd at y diddordeb rhyngwladol a ddangoswyd yn y rhaglen fel dangosydd o'i llwyddiant. Roedd dirprwyo rhyngwladol o Chile a LEGO, cais oedd ar y gweill o Bacistan, ac ymweliad ag India gan staff rheoli'r rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf wedi pwysleisio'r diddordeb cynyddol yn y model a'r arferion a ddefnyddiwyd. Roedd personél rheoli wedi nodi, fodd bynnag, bod diddordeb o'r fath wedi codi cwestiynau strategol allweddol mewn perthynas ag ymdrin â'r diddordeb a'i werth i'r rhaglen, i Gyngor Celfyddydau Cymru, ac i addysg yng Nghymru.


> 'Ni chafodd hynny ei gynllunio o gwbl ac mae perygl y gallai ddechrau tynnu ein sylw. Ond rydym yn ymateb, ac rydym wrthi'n ystyried ar hyn o bryd – os ydyn ni'n mynd i barhau i dderbyn y galwadau yma, bydd raid i ni benderfynu sut yr ydym yn mynd i ymateb i hynny.  Allwn ni wneud arian allan ohono i'w ailfuddsoddi yn y rhaglen yma? Mae'n arwydd o'r llwyddiant, ac yn arwydd o'r ffaith eu bod nhw, pan maent yn clywed amdano, eisiau i ni ddod yn ôl i wneud yr hyfforddiant. Doedd hynny ddim wedi ei gynllunio ac mae'n amlwg bod hynny'n llwyddiant. Mae'n golygu bod rhaid i ni roi rhywfaint o ystyriaeth i'r ffordd yr ydym yn ymateb i hynny gyda thîm bychan.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.44 Yn y cyfamser, mae athrawon yn adrodd yn gyson am lwyddiannau ac effeithiau tebyg. Gofynnwyd i athrawon yn yr Arolwg Athrawon ystyried agweddau ehangach y rhaglen. Mae Ffigur 1.6 isod yn cyflwyno'r data o ymatebion athrawon am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r data'n awgrymu bod athrawon yn teimlo bod nifer o agweddau'r rhaglen wedi cael effaith gyffredinol bositif ar yr ysgol a'r staff. Un agwedd o'r rhaglen oedd yn arbennig o boblogaidd oedd Gweithio gydag Ymarferwyr Creadigol, yn ogystal â'r canlyniadau i ysgolion, athrawon a dysgwyr. Nid oedd athrawon yn ystyried y broses fyfyrio a gwerthuso mewn ffordd

[9] Gwelwch Whole School Change: A Literature Review a The Signature Pedagogies Project: Final Report

mor bositif ag y gwelsant bob agwedd arall, er bod dros eu hanner (53%) yn dal i siarad am y broses mewn ffordd bositif.

Ffigur 1.6: Barn athrawon am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol




Ffynhonnell: Arolwg Athrawon 2019

*Yr effaith ar greadigedd a 5 Arfer Creadigol y Meddwl*

1.45 Cafodd y rhaglen 5 Arfer Creadigol y Meddwl[10] ei llunio i werthuso effaith gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ar sgiliau creadigol y disgyblion oedd yn cyfranogi. Nid oedd y rhaglen yn orfodol, ond gwahoddwyd yr holl athrawon a gyfranogodd yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddarparu data drwy'r rhaglen. Y diben oedd darparu data gwerthuso cyffredin i fod yn dystiolaeth o effeithiau'r rhaglen. Ar ben hynny, lluniwyd y rhaglen i roi dadansoddiad llinell uchaf uniongyrchol i ysgolion o'u hymatebion. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

1.46 Nododd y rhaglen bod y '5 Arfer Creadigol y Meddwl' a ganlyn yn ddangosyddion o greadigedd:

1. chwilfrydig – yn tybied a chwestiynnu, yn archwilio ac ymchwilio, ac yn herio tybiaethau
2. dyfalbarhaus – yn goddef ansicrwydd, yn dyfalbarhau gydag anawsterau, ac yn meiddio bod yn wahanol

[10] Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen yma: Rhaglen 5 o Arferion Creadigol y Meddwl.

3. llawn dychymyg – yn chwarae gyda phosibiliadau, yn gwneud cysylltiadau ac yn defnyddio greddf
4. disgybledig – yn saernïo a gwella, yn datblygu technegau, ac yn myfyrio'n feirniadol
5. cydweithredol – yn cydweithredu'n briodol, yn rhoi a derbyn adborth, ac yn rhannu'r 'cynnyrch' creadigol.

Cafodd y gwelliant a wnaed gan ddisgyblion unigol ymhob categori ei sgorio gan eu hathrawon ar raddfa o 1–10 ar ôl y gweithgaredd (1 = dim gwelliant a 10 = y gwelliant mwyaf sylweddol). Roedd hyn felly yn feirniadaeth a wnaed gan athrawon unigol ar sail canllawiau cyffredin. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr holl ddisgyblion yn ôl y flwyddyn ac yn ôl y rhanbarth at ddibenion dadansoddi, yn ogystal ag fel cyfanswm, i'w gweld yn y ffigurau isod.

1.47 Mae Ffigur 1.7 yn defnyddio'r holl ddata a dderbyniwyd o ysgolion R2Bl1, R2Bl2 a R3Bl1 a gyfranogodd. Roedd un rownd (R3Bl2) heb gyflwyno ei ymatebion eto ar amser yr ysgrifennu. Mae mil ac un deg saith o ymatebion wedi cael eu derbyn i gyd gyda 289, 93 a 635 o ymatebion i bob R/Bl, yn y drefn honno. Mae hyn yn gyfradd ymateb iach ar gyfer proses wirfoddol, gan awgrymu bod gan athrawon ddiddordeb mewn dangos tystiolaeth o'r effaith ar ddysgwyr. Nid yw'r disgyblon yng ngweithgareddau Blwyddyn 1 o anghenraid yr un disgyblion â'r rheiny yng ngweithgareddau Blwyddyn 2. Gallent fod yn ddwy garfan hollol wahanol o ddisgyblion, yr un disgyblion, neu'n gyfuniad o ddisgyblion sydd â phrofiad blaenorol a rhai sydd heb unrhyw brofiad blaenorol o'r cynllun.

1.48 Mae'r data'n awgrymu bod athrawon yn ystyried bod gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith bositif ar bob un o 5 Arfer Creadigol y Meddwl, gan sgorio pob dangosydd rhwng 6.1 a 6.4 ar gyfartaledd. Mae'n ymddangos bod y gweithgareddau wedi cael yr effaith fwyaf positif ar ddychymyg disgyblion – yn chwarae gyda phosibiliadau, yn gwneud cysylltiadau ac yn defnyddio greddf.

1.49 Mae'r sampl ar gyfer R2Bl2 yn llai na'r sampl ar gyfer y rowndiau eraill a gallai hynny esbonio'r gwyriad cynyddol oddi wrth y cyfartaledd mewn rhai categorïau megis chwilfrydedd. Mae'r sgorio i ddangosyddion yn awgrymu bod y cyfartaledd cyffredinol ('pob rownd') yn cynrychioli'r effaith y mae'r ymyriad wedi ei chael hyd yn hyn.

**Tabl 1.1: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rownd 2 i gyd**

| | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Llawn dychymyg | Cydweithredol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob rownd (1,017 ymateb) | 6.1 | 6.3 | 6.4 | 6.3 | 6.1 |
| Rownd 3 Bl. 1 (635 ymateb) | 6.1 | 6.3 | 6.4 | 6.3 | 6.1 |
| Rownd 2 Bl. 2 (93 ymateb) | 5.7 | 6.2 | 6.2 | 6.6 | 6.5 |
| Rownd 2 Bl. 1 (289 ymateb) | 6.3 | 6.3 | 6.5 | 6.7 | 6.4 |

1.50 Mae Tablau 1.2 - 1.5 yn cynrychioli data o bob rhanbarth Consortiwm unigol. Bydd niferoedd is o ymatebion ar gyfer Blwyddyn 2 yn cyfrif am wyriad mwy amlwg o'r cyfartaledd cyffredinol, a dylid ei anwybyddu oherwydd maint bychan y sampl at ddibenion gwerthuso'r flwyddyn benodol ymhob rhanbarth, Fodd bynnag, cofnodwyd effaith arbennig o uchel yn y rhanbarth ERW yn ystod yr ail flwyddyn, tra bo'r data ar gyfer EAS a GwE yn ystod yr un cyfnod yn awgrymu bod y gweithgareddau wedi cael llai o effaith. Cofnododd ERW sgorau uwch na'r cyfartaledd yn gyson ymhob blwyddyn ac efallai y byddai werth eu hymchwilio ymhellach.

**Tabl 1.2: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rhanbarth CCD**

| CCD | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Llawn dychymyg | Cydweithredol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob rownd (257 ymateb) | 5.8 | 6.2 | 6.0 | 6.4 | 6.0 |
| Rownd 3 Bl. 1 (137 ymateb) | 5.5 | 5.9 | 5.5 | 6.1 | 5.4 |
| Rownd 2 Bl. 2 (20 ymateb) | 6.9 | 8.0 | 7.5 | 7.7 | 8.5 |
| Rownd 2 Bl. 1 (100 ymateb) | 6.1 | 6.2 | 6.3 | 6.6 | 6.4 |

**Tabl 1.3: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rhanbarth ERW**

| ERW | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Llawn dychymyg | Cydweithredol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob rownd (268 ymateb) | 6.6 | 6.7 | 6.8 | 6.9 | 6.6 |
| Rownd 3 Bl. 1 (180 ymateb) | 6.4 | 6.5 | 6.7 | 6.6 | 6.4 |
| Rownd 2 Bl. 2 (18 ymateb) | 6.0 | 6.7 | 7.3 | 7.1 | 7.0 |
| Rownd 2 Bl. 1 (70 ymateb) | 7.2 | 7.1 | 7.1 | 7.6 | 7.1 |

**Tabl 1.4: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rhanbarth EAS**

| EAS | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Llawn dychymyg | Cydweithredol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob rownd (206 ymateb) | 6.2 | 6.2 | 6.4 | 6.4 | 6.2 |
| Rownd 3 Bl. 1 (145 ymateb) | 5.7 | 6.1 | 6.3 | 6.0 | 6.0 |
| Rownd 2 Bl. 2 (24 ymateb) | 6.1 | 6.4 | 6.1 | 6.6 | 6.2 |
| Rownd 2 Bl. 1 (37 ymateb) | 5.7 | 5.7 | 6.2 | 5.9 | 5.7 |

**Tabl 1.5: 5 Arfer Creadigol y Meddwl: Rhanbarth GwE**

| GwE | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Llawn dychymyg | Cydweithredol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob rownd (286 ymateb) | 5.8 | 6.0 | 6.3 | 6.0 | 5.9 |
| Rownd 3 Bl. 1 (173 ymateb) | 5.7 | 6.1 | 6.3 | 6.0 | 6.0 |
| Rownd 2 Bl. 2 (31 ymateb) | 6.1 | 6.4 | 6.1 | 6.6 | 6.2 |
| Rownd 2 Bl. 1 (82 ymateb) | 5.7 | 5.7 | 6.2 | 5.9 | 5.7 |

1.51 Mae'r data o raglen 5 Arfer Creadigol y Meddwl yn awgrymu bod athrawon yn ystyried bod gweithgareddau'n cael effaith bositif ar arferion creadigol allweddol disgyblion. Mae hyn yn awgrymu bod gweithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cyfrannu at gyflawni nod craidd o wella sgiliau ac arferion creadigol disgyblion. Gan ddilyn hypothesis yr ymyriad fel y mae wedi ei amlinellu yn Adroddiad 1, bydd disgyblion mwy creadigol yn dangos gwelliannau mewn perfformiad academaidd, gan ddatblygu eu diddordeb yn y celfyddydau a datblygu eu dyheadau bywyd/gyrfaol.

*Effaith ar lesiant y dysgwyr a'u hagweddau tuag at addysg ac ysgol*

1.52 Fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Gwerthuso 1: Theori Newid[11], un o ganlyniadau allweddol yr ymyriad Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddysgwyr yw bod eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu yn newid.

1.53 Datblygwyd yr holiadur hunan effeithiolrwydd er mwyn casglu data mewn perthynas â chanlyniadau effeithiolrwydd yr ymyriadau i'r disgyblion. Gofynnwyd i ddisgyblion ymateb i gyfres o ddatganiadau mewn holiadur cyn ymyriad, wedi ei ddilyn gan yr un datganiadau mewn holiadur ôl-ymyriad. O'u cyfuno, mae'r canlyniadau'n dangos a yw gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddisgyblion mewn perthynas â'r datganiadau.

[11] Adroddiad Interim Cyntaf Gwerthusiad o'r Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

1.54 Doedd yr holiadur ddim yn orfodol a chwblhaodd nifer o ddisgyblion naill ai holiadur cyn ymyriad neu holiadur ôl-ymyriad yn unig. I bob pwrpas, nid oedd modd defnyddio'r ymatebion hyn. Ar adeg ysgrifennu, fodd bynnag, roedd 664 o ddisgyblion wedi cwblhau'r ddau - yr holiadur cyn ymyriad a'r holiadur ôl-ymyriad. Roedd hyn yn cynnig samplau cynrychiadol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 3-4 (317 o ymatebion), dysgwyr Blwyddyn 5-6 (218 o ymatebion), a dysgwyr Blwyddyn 7-9 (129 o ymatebion). Mae Ffigurau 1.8 a 1.9 yn rhoi manylion yr ymatebion i'r holiadur ac maent wedi eu cyflwyno yn Atodiad 4. Nid yw'r data cyfredol o'r holiadur hunan effeithiolrwydd wedi darparu cyfatebiaethau clir nac arwyddocaol rhwng yr ymyriad a hunan effeithiolrwydd y dysgwr. Fodd bynnag, mae data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweliadau ac ymatebion heb hwb i arolygon wedi awgrymu'n gyson, drwy gydol gwerthusiad y cynllun, bod effeithiau clir ar effeithiolrwydd a lles dysgwyr, yn ogystal â'u hagweddau tuag at fywyd ystafell ddosbarth a bywyd ysgol. Trafodir y rhain yn yr adran '*Effaith ehangach'* isod ond maent yn awgrymu hefyd o bosib nad oedd y rhaglen a ddefnyddiwyd i gasglu'r data a archwiliwyd yn yr adran hon yn effeithiol.[12] Mewn blynyddoedd diweddar, mae gwaith ymchwil wedi pwyntio at y ffaith fod astudiaethau hunan effeithiolrwydd yn talu mwy o sylw i'r newidyn amgylcheddol, ac yn trafod hunan effeithiolrwydd unigol o'i gymharu â hunan effeithiolrwydd cronnol.[13] Mewn cyd-destun fel ysgolion, lle mae pobl ifanc yn rhyngweithio'n agos yn gyson gyda'u cymheiriaid a'u hathrawon, efallai y bydd angen i fesuriad hunan effeithiolrwydd fynd y tu hwnt i astudiaethau effeithiolrwydd unigol ac archwilio effeithiolrwydd cronnol y dosbarth cyfan, is-grwpiau o fewn y dosbarth, athrawon a myfyrwyr fel is-grwpiau o fewn ysgol, neu un ysgol o'i chymharu ag eraill mewn cystadlaethau agored gydag ysgolion eraill.

1.55 Am fod pobl ifanc yn eu harddegau yn dal i fod o dan ddylanwad teuluoedd ac ysgolion yn eu datblygiad gan fwyaf, efallai y bydd angen i unrhyw geisiadau i ddamcaniaethu a gwella datblygiad a pherfformiad pobl ifanc yn eu harddegau dalu mwy o sylw hefyd i gredoau rhieni ac athrawon am effeithiolrwydd. Efallai y bydd angen archwilio ansawdd perfformiad rôl rhieni ac athrawon ynghyd ag effaith y

[12] Ar y cam hwn nid yw'n eglur pam y gall y rhaglen fod yn aneffeithiol. Gallai defnyddio dau arolwg, cyn ac ôl-ymyriad, olygu bod yr ymatebion i'r holiadur yn cael eu dylanwadu gan nifer fawr o ffactorau ar y ddau ddiwrnod penodol. Efallai mai dull mwy cadarn ond mwy ymyrol fyddai rhedeg yr arolwg yn amlach, dros gyfnod hirach o amser.

[13] Klassen RM, Usher EL. Self-efficacy in educational settings: recent research and emerging directions. Yn: Karabenick S, Urdan TC, golygyddion. *Advances in Motivation and Achievement Vol. 16A: The Decade Ahead: Theoretical Perspectives on Motivation and Achievement*. Cyfrol. 16. Bingley, DU: Emerald Books; 2010. tt. 1–33.


rheiny ar ddatblygiad arferion astudio pobl ifanc, eu gwerthoedd a'u hagweddau, eu hiechyd a'u harferion iechyd, a sut y gallent osgoi ymddygiadau dysgu negyddol ac agweddau gwrth-ysgol. Efallai bod y dull amlochrog hwn o ganfod hunan effeithiolrwydd ymysg pobl ifanc, o'u gosod yng nghyd-destun elfennau gwaith maes eraill y gwerthusiad hwn, wedi datgelu data mwy arwyddocaol a oedd (yn anffodus) y tu allan i gwmpas yr astudiaeth.

*Yr effaith ehangach*


1.56 Roedd y ffurflen 5 Arfer Creadigol y Meddwl a ffurflenni gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gofyn i athrawon amlinellu'r effaith ehangach a gafodd y gweithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn eu barn hwy, ar ddisgyblion oedd yn cymryd rhan. Mae Ffigurau 1.13–1.16 yn cyflwyno'r data ansoddol hwn, sydd wedi ei gategoreiddio gyda chodau. Roedd astudiaethau achos Ysgolion Creadigol Arweiniol a gyflwynwyd mewn adroddiadau blaenorol hefyd wedi nodi'r effaith bositif ac ychwanegol yr oedd y cynllun wedi ei chael ym marn yr athrawon, sy'n adlewyrchu i raddau mawr yr hyn sydd wedi ei gyflwyno yn y ffigurau isod.

1.57 Mae Ffigurau 1.13–1.15 yn cyflwyno data o'r ffurflenni 5 Arfer Creadigol y Meddwl. Yn dilyn sgorio dysgwyr yn erbyn y categorïau perthnasol o greadigedd, rhoddwyd cyfle i athrawon fanylu ar effaith ehangach yr ymyriad. Ymhob un o'r tair carfan, roedd ymgysylltiad â'r prosiect, hyder/hunan-barch, a chydweithrediad yn dod i'r brig yn gyson fel yr ymatebion mwyaf cyffredin gan athrawon.


Ffigur 1.7: Sylwadau ansoddol 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 2 Blwyddyn 1)



Ffigur 1.8: Sylwadau ansoddol 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 2 Blwyddyn 2)





Ffigur 1.9: Sylwadau ansoddol 5 Arfer Creadigol y Meddwl (Rownd 3 Blwyddyn 1)



1.58 Mae Ffigur 1.16 yn cyflwyno'r data ansoddol wedi'i godio a gasglwyd drwy gyfrwng y ffurflen gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ymhellach, mae'r data'n dangos bod athrawon (55%) yn credu bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar hyder dysgwyr a'u gallu i weithio'n annibynnol. At hynny, yr ymyriad sy'n cael y clod am wella cydweithrediad ac ymgysylltiad â'r prosiect, gan adleisio'r sylwadau yn y ffurflenni 5 Arfer Creadigol y Meddwl.

Ffigur 1.10: Sylwadau am effaith ehangach (ffurflenni gwerthuso)




N=233

1.59 Mae'r data ansoddol a roddwyd heb ei hybu yn awgrymu bod nifer sylweddol o athrawon yn ystyried bod yr ymyriad wedi cael effaith ehangach, yn benodol ar hyder y dysgwyr, yn ogystal â'u gallu i weithio'n gydweithredol. Yn ogystal, mae athrawon yn ystyried yr ymyriad yn un sy'n annog mwy o ymgysylltiad gan ddysgwyr. Mae'n ymddangos bod hyn yn gyson â'r syniad o brosiectau creadigol yn helpu i ail siapio'r amgylchedd dysgu mewn camau. Byddai enillion cychwynnol mewn hyder, cydweithrediad â ffrindiau dosbarth a synnwyr cryfach o ymgysylltu gyda dysgwyr yn cefnogi datblygiad sgiliau penodol yn ddiweddarach o ganlyniad i gyfleoedd ailadroddus i weithio dan yr amodau gwell hyn. Mae data am gyrhaeddiad academaidd (fel y mae wedi'i gyflwyno isod) yn cefnogi'r syniad hwn hefyd.

*Cyrhaeddiad academaidd*

1.60 Lluniwyd y llinyn Ysgolion Creadigol Arweiniol i wella perfformiad academaidd dysgwyr. Yn benodol, mae wedi ei lunio i helpu i wella safonau mewn llythrennedd a rhifedd a gostwng effaith anfanteision ar gyrhaeddiad.

1.61 Roedd Adroddiad 3 yn argymell (Argymhelliad 4) bod Cyngor Celfyddydau Cymru'n parhau i geisio canfod data a allai gael ei ddefnyddio i dystio i'r effaith y mae'r ymyriad wedi'i chael ar gyrhaeddiad dysgwyr oedd yn cymryd rhan. Er bod ymdrechion parhaus i alluogi i'r gwerthuswr gael gafael ar ddata cyrhaeddiad a phresenoldeb a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at ryddhau rhywfaint o ddata ar gyfer gwerthuso (archwilir hyn isod), ni chafodd unrhyw ddata pellach ei gasglu.

1.62 Mae ffurflenni gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd yn gofyn i athrawon amlinellu'r effaith ar gyrhaeddiad y mae'r ymyriad wedi ei chael ar ddysgwyr yn eu barn hwy. Gofynnir i athrawon ddarparu gwybodaeth am y ffynonellau y maent wedi eu defnyddio i wneud beirniadaethau, yn ogystal â dweud a ydyn nhw'n meddwl bod yr ymyriad wedi cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad.

1.63 Roedd adroddiadau blaenorol yn nodi bod natur ac ansawdd y data'n amrywio o un cyflwyniad i'r llall, a gallai hynny o bosib gyfaddawdu ei gyffredinoledd a'i ddefnyddioldeb at ddibenion gwerthuso drwy'r rhaglen gyfan.

1.64 Yn benodol, mae amrywiaeth yn y math o ddata a ddefnyddiwyd i ffurfio barn, gyda rhai ffynonellau y cyfeirir atynt yn fwy cadarn nag eraill. O ganlyniad i'r amrywiaeth yn natur y data, nid yw'n bosibl darparu mesuriad cyffredin o effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad ar draws y rhaglen. At hynny, mae cyfyngiadau ar faint y gellir cymharu ymatebion lle mae ansawdd y data'n gwahaniaethu.

1.65 Mae modd defnyddio'r data, fodd bynnag, i nodi'r effaith y mae'r ymyriad wedi ei chael yn nhyb cyffredinol yr athrawon ar gyrhaeddiad dysgwyr, p'un a ydyw'n effaith bositif neu'n negyddol neu'n ddim effaith o gwbl. Gellir defnyddio'r data i benderfynu beth yw ansawdd y data sy'n tanategu'r beirniadaethau hynny. Os ydyw wedi ei godio a'i gategoreiddio, mae'n bosibl amlinellu a) pa effaith y mae'r ymyriad wedi ei gael yn nhyb athrawon ar gyrhaeddiad y dysgwr a, b) ansawdd y data sy'n tanategu'r beirniadaethau hynny.

1.66 Cafodd y data o’r ffurflenni gwerthuso eu categoreiddio’n gyntaf ar sail ansawdd y data neu’r math o ddata a ddefnyddiodd yr athrawon i gefnogi eu beirniadaeth. Defnyddiwyd pum categori:

Categori 1: Profi neu feincnodi cyn ymyriad a phrofi ar ôl ymyriad, a’u cymharu i ganfod effaith yr ymyriad.

Categori 2: Systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad wedi eu cymeradwyo gan y proffesiwn neu’r diwydiant neu systemau monitro e.e. Incerts.[14]

Categori 3: Systemau monitro neu fesur cyrhaeddiad eraill e.e. astudiaethau achos neu systemau mesur mewnol neu ad hoc megis is-lefelau a thargedau herio.

Categori 4: Data o arsylwi neu anecdotau neu farn athro heb unrhyw ddata wedi’i nodi’n benodol.


Amherthnasol: Ni fesurwyd yr effaith ar gyrhaeddiad ac ni chyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad.

1.67 Er bod yr ymatebion wedi eu categoreiddio yn y dull hwn, mae gwahaniaethau’n parhau rhwng y cyflwyniadau ymhob categori. Ni ellir cymharu pob ymateb Categori 1 gydag eraill o fewn yr un categori. O ganlyniad, hyd yn oed o fewn y categorïau, nid yw’n bosibl defnyddio mesuriad cyffredin, gan olygu bod rhaid cael datganiadau mwy cyffredinol wrth gyfeirio at effaith.

1.68 Mae Ffigur 1.11 isod yn nodi’r nifer a’r gyfran o ymatebion sy’n disgyn i bob categori o ansawdd y data. Mae mwy na hanner yr ymatebion wedi eu seilio ar ddata cadarn. Mae naw deg naw o ymatebion (25%) yn disgyn i Gategori 1, sef y categori o ddata mwyaf cadarn, tra bo 131 (33%) yn disgyn i Gategori 2, sy’n ymwneud â data cadarn a gymeradwywyd gan y diwydiant neu’r proffesiwn ond heb ei brofi cyn ac ar ôl ymyriad.

[14] Mae Incerts yn rhaglen a ddefnyddir gan athrawon i dracio sgorau asesiad disgybl yn rheolaidd. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yma: Rhaglen Incerts.

Ffigur 1.11: Categoreiddio ansawdd y data




N=393

1.69 Wedi hynny, cafodd yr ymatebion ymhob categori eu codio yn unol â'r effaith yr oedd yr ymyriad wedi ei chael, yn nhyb yr athrawon, ar gyrhaeddiad y dysgwyr. Dyma'r categorïau a ddefnyddiwyd:

Effaith bositif: Lle mae athrawon wedi dweud bod gwelliant amlwg mewn cyrhaeddiad oherwydd yr ymyriad, neu lle mae'r data a ddarparwyd wedi dangos o leiaf 5% o welliant.

Rhannol Bositif: Os nad yw'r athrawon yn teimlo'n hyderus yn dweud bod unrhyw welliannau wedi digwydd oherwydd yr ymyriad yn benodol, neu lle mae'r data wedi awgrymu gwelliannau bach, o lai na 5%, yn unig.

Dim Newid Arwyddocaol: Lle doedd athrawon ddim yn ystyried bod yr ymyriad wedi cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad, neu lle doedd y data ddim yn awgrymu bod unrhyw effaith.

Rhannol negyddol: Lle'r oedd cyrhaeddiad dysgwyr wedi dirywio dros gwrs yr ymyriad ond nid oedd athrawon wedi dweud bod y dirywiad wedi digwydd oherwydd yr ymyriad yn benodol.


Yn Aros am Ganlyniadau: Nid oedd y gwaith o brofi'r cyrhaeddiad wedi dod i gasgliad eto ar adeg y cyflwyniad.

Dim Sylwadau: Lle'r oedd athrawon heb roi sylwadau am effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad y dysgwyr, neu lle nad oedd yr adrodd yn berthnasol (e.e. yn ymwneud â sgiliau meddal).

1.70 Mae Ffigur 1.12 isod yn nodi'r effaith ar gyrhaeddiad fesul categori ansawdd y data, tra bo Ffigur 1.13 yn nodi'r effaith ar gyrhaeddiad heb gynnwys y categorïau 'Yn Aros am Ganlyniadau' a 'Dim Sylwadau'. Mae'r ddau ffigur yn awgrymu bod mwyafrif yr athrawon o fewn y categorïau (43%-72%) yn credu bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad.


1.71 Pan dynnir y categorïau 'Yn Aros am Ganlyniadau' a 'Dim Sylwadau' o'r dadansoddiad, mae mwy na thri chwarter (76-92%) o athrawon o fewn y categorïau'n credu bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr. Ymhellach, gellir gweld cyfatebiaeth rhwng ansawdd y data a ddefnyddir fel sail ar gyfer beirniadaethau a'r tebygolrwydd bod athrawon yn cysylltu'r ymyriad gydag effaith bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr. Po fwyaf cadarn yw'r data, y mwyaf tebygol yw athrawon o gydnabod bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Ffigur 1.12: Yr effaith ar gyrhaeddiad




N=393

Ffigur 1.13: Yr effaith ar gyrhaeddiad (ac eithrio'r categorïau 'Aros am Ganlyniadau' a 'Dim Sylwadau')




N=262

*Yr effaith ar athrawon a rhannu dysgu, arferion addawol a phrofiadau*

1.72 Ychwanegwyd cwestiwn arall at yr arolwg yn ystod y cyfnod gwerthuso hwn er mwyn ystyried i ba raddau y mae dysgu ac arferion addawol y mae athrawon yn eu datblygu drwy weithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu rhannu'n ehangach gydag aelodau eraill o staff.

1.73 Yn gyffredinol, roedd 98% o athrawon a ymatebodd i'r arolwg wedi rhannu eu gwybodaeth a'u harferion mewn rhyw ffordd, tra bo dim ond 2% heb eu rhannu nhw o gwbl.

1.74 Allan o 117 o ymatebion, roedd 39% o athrawon wedi rhannu eu harferion ar sail anffurfiol, megis drwy drafodaethau gyda chydweithwyr. Yn y cyfamser, roedd 35% pellach wedi rhannu eu dysgu drwy sesiynau strwythuredig, ymroddedig. Defnyddiwyd dyddiau HMS gan 19% o athrawon fel ffordd o rannu eu gwybodaeth, ac roedd 5% pellach wedi rhannu arferion a gwybodaeth drwy ddulliau eraill.

1.75 Gofynnodd yr Arolwg Athrawon i athrawon oedd yn cyfranogi a fyddent yn argymell y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i athrawon eraill. Gellir ystyried y cwestiwn hwn yn ffordd o fesur y gwerth y mae athrawon yn ei roi ar yr ymyriad. Awgrymodd wyth deg pump o'r ymatebwyr y byddent yn argymell y cynllun i athrawon eraill, a thrwy hynny'n cefnogi'r awgrym bod athrawon yn gwerthfawrogi'r dysgu a'r profiadau sy'n deillio o'r ymyriad a'u bod yn gweld gwerth mewn rhannu mynediad i'r profiadau a'r dysgu.

1.76 Mae'r data, yn arbennig am ei fod wedi'i gefnogi gan ganfyddiadau tebyg mewn adroddiadau blaenorol, yn awgrymu'n gryf bod athrawon yn parhau i ledaenu a rhannu dysgu, arferion addawol a phrofiadau positif i weddill y staff addysgu yn dilyn eu hymgysylltiad â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er bod y data ansoddol o adroddiadau blaenorol yn rhoi manylion am natur y rhannu, mae llai o ddata ar gael am yr effaith ddilynol ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

1.77 Mae'n nodedig bod y mwyafrif o'r rhannu'n parhau i fod yn anffurfiol, gan gynnwys athrawon yn siarad ag athrawon eraill. Ni ddylai'r dull hwn gael ei ddiystyru na'i danbrisio mewn unrhyw ffordd. Ond, gellid disgwyl i ysgolion, yn arbennig y rheiny sy'n prynu arweiniad uwch i mewn ar gyfer yr agweddau hyn, hyrwyddo'r dulliau'n eang. Mae hi werth nodi fodd bynnag bod llawer llai o rannu gwybodaeth yn drefnus ac yn ôl amserlen drwy HMS. Yn lle bod addysgu creadigol yn fenter ysgol gyfan, mae'n ymddangos ei fod yn fwy o ymgyrch addysgeg gan grwpiau bach o athrawon.

*Cynllunio, dysgu o'r gorffennol a chynaliadwyedd at y dyfodol*

1.78 Yn fwyaf diweddar, mae staff rheoli wedi adleisio sylwadau a wnaed yn gyhoeddus gan swyddogion o Lywodraeth Cymru, yn awgrymu y dylid edrych ar y cynllun a'i arferion, ei addysgeg a'i ddulliau perthnasol fel rhagflaenwyr i'r cwricwlwm newydd sy'n datblygu. Bydd adroddiadau gwerthuso yn y dyfodol yn archwilio'n fanwl beth yw effaith y Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ar ddogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau cefnogi, yn arbennig mewn perthynas â maes dysgu a phrofiad y celfyddydau mynegiannol. Mae'n glir ym meddyliau staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, fodd bynnag, bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi dylanwadu ar ffurf y cwricwlwm newydd ac y bydd felly'n dylanwadu ar addysgu creadigedd a'r celfyddydau mynegiannol mewn ysgolion yng Nghymru am gyfnod estynedig o amser.

‘Bydd Dyfodol Llwyddiannus, y Cwricwlwm i Gymru newydd, yn statudol o 2022, ac mae gwaith Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau wedi mewnbynnu i’r datblygiadau hynny cyn belled ag y mae’r cwricwlwm yn y cwestiwn. Rwy’n ddigon bodlon dweud bod yr hyn sydd wedi cael ei ddatblygu yn y Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau wedi helpu i siapio’r cwricwlwm newydd. Dim ond o wrando ar yr athrawon yr wythnos diwethaf yn y digwyddiad ‘Dewch i Ddathlu’ – mae cysylltiad mawr rhwng Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau a’r cwricwlwm newydd.’ (Cyfweliad â Rheolwyr Strategol, 2019)

1.79 Nododd personél y Consortiwm mewn cyfweliadau nad oedd y darlun yn derfynol o ran dangos effaith y cynllun ar gyrhaeddiad. Mewn gwirionedd, yn eu barn hwy, roedd y cynllun wedi effeithio ar ymgysylltiad a mwynhad dysgwyr yn fwy na’u cyrhaeddiad. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o agwedd fwy cyffredinol a thraddodiadol tuag at addysgeg ymysg personél y Consortiwm, a allai gyferbynu gyda’r addysgeg adeileddol, lle mae’r dysgwr yn ganolbwynt - agwedd y gwelir enghraifft ohoni yn y dull Ysgolion Creadigol Arweiniol.[15] Fodd bynnag, mae gwerthusiad ac ymchwil o raglenni eraill oedd yn canolbwyntio ar ddysgu creadigol, yn arbennig y Partneriaethau Creadigol yn Lloegr, yn awgrymu bod un o brif fanteision cychwynnol rhaglenni o’r fath yn gysylltiedig â dod â newidiadau ehangach i’r amgylchedd dysgu y gellid ystyried eu bod yn gosod yr amodau cywir ar gyfer elwa mewn cyrhaeddiad yn nes ymlaen. Ymysg y nodweddion o hyn mae agweddau newydd tuag at addysgu, ffurfiau mwy penagored ac archwiliol o ddysgu, a synnwyr cynyddol ymysg dysgwyr eu bod nhw eu hunain yn gyfryngau a’u bod wrth galon eu dysgu eu hunain.[16] Wedi dweud hynny, mae’r pwynt trosfwaol yn parhau i ddangos bod angen rhagor o dystiolaeth o effaith, sy’n broblem y gallai canfyddiadau’r adroddiad hwn ddechrau ymdrin â hi.

‘Yr hyn y mae’n rhaid i ni oll ei wneud yn well yw edrych ar yr effaith a gofyn rhagor o gwestiynau am hynny. Y drafferth yw y gallem weld mwy o blant yn mynychu ond dydyn ni ddim yn gwybod mewn gwirionedd [at beth mae hynny’n arwain]. Mae’r astudiaethau achos yn dangos tystiolaeth o ymgysylltiad. Dydw i ddim yn siŵr a ddylai fod yn fesuradwy, ond gallech edrych ar rai pethau. Aethom ati i edrych ar un ysgol ......, ac roedden nhw wedi gweld gwelliant yn eu graddau disgwyliedig. Ond mae’n debyg bod hynny’n ymwneud fwy ag ymgysylltiad y

[15] Gwelwch [Education system alignment for 21st century skills]
[16] [Creative learning environments in education—A systematic literature review]

plant. Rydym oll eisiau gweld cynnydd mewn graddau, ond dydw i ddim yn siŵr a gewch chi hynny, yn enwedig ar ôl tair blynedd. Ond yr effaith yr ydym wedi ei chael mewn astudiaethau achos yw ymgysylltiad a mwynhad disgyblion.' (Cyfweliad â Chonsortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

1.80 Roedd y cynllunio ar gyfer dyfodol y cynllun ar gyffordd gritigol ar adeg y gwaith maes. Roedd y staff rheoli'n obeithiol y byddai estyniad i'r rhaglen, gan alluogi i fwy o ysgolion elwa o'r model. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth fanwl na chadarnhad swyddogol o gyllido pellach wedi dod. O ganlyniad, roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n ansicr o ddyfodol y rhaglen ac yn ansicr sut i ddirwyn y rhaglen i ben mewn ffordd fyddai'n osgoi peryglu effaith barhaus yr wybodaeth a'r dysgu oedd wedi cael ei gynhyrchu a'i rannu yn ystod bywyd y cynllun. Hyd nes y byddai penderfyniadau strategol wedi eu gwneud a'u cadarnhau, roedd hi'n anodd ffurfio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

'Yn fy meddwl i — am nad ydym yn gwybod beth sy'n digwydd ar ôl 2020, ac am ein bod yn gwybod bod potensial i rywbeth ddigwydd — mae'r ffordd yr ydym yn dirwyn y rhaglen i ben yn dal i fod yn ansicr i raddau mawr. Hyd nes y byddwn yn cael ateb diffiniol, allwn ni ddim penderfynu. Os byddwn yn dod i wybod y bydd yn parhau ar ôl bywyd y cynllun, byddwn yn dechrau pontio ac edrych ar adeiladu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

1.81 Er na allent roi manylion am y sgyrsiau parhaus ar y lefelau rheoli a llywodraethol strategol, roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n optimistaidd y gallai'r cynllun gael ei ymestyn y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen cychwynnol mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Roedd y sgyrsiau wedi adlewyrchu barn bositif am y cynllun a'i effaith yn Llywodraeth Cymru.

1.82 Am na chafwyd eglurder strategol na phenderfyniadau hyd yma nid oes modd gwneud penderfyniad ynglŷn â beth fydd yn parhau. At hynny, os bydd y lefelau cyllido'n cael eu gostwng o'u cymharu â'r tair rownd gychwynnol, mae'n debyg y bydd angen i staff rheoli ddatblygu cynllun darparu sy'n sicrhau bod y gweithgarwch, er ei fod yn llai, yn dal i fod o werth ac yn effeithiol. Mae'r staff rheoli'n awgrymu bod y broses hon ar waith yn barod.

## 2. Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol

*Cyflwyniad, cefndir a chanfyddiadau Adroddiad 3*

2.1 Sefydlwyd Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol oedd â'r cylch gwaith a ganlyn:

a) casglu a lledaenu arferion gorau
b) sefydlu a chydlynu cyfleoedd i rwydweithio yn y celfyddydau a'r dysgu creadigol (wyneb yn wyneb ac yn ddigidol) i athrawon, artistiaid a sefydliadau celfyddydau/diwylliant
c) darparu gwasanaeth 'broceru' rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydau/diwylliant
ch) rhoi cyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr celfyddydau i wella a theilwra eu darpariaeth i gyfateb ag anghenion a blaenoriaethau ysgolion
d) rhoi cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau
dd) rheoli a chydlynu rhaglen 'Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol'.

2.2 Lansiwyd Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol hefyd fel model ar gyfer rheoli amcanion y rhaglen ehangach a sicrhau eu bod yn cael eu darparu. Mae pedwar Rhwydwaith wedi eu sefydlu, ac mae eu ffocws daearyddol yn adlewyrchu'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Mae pob Rhwydwaith a'i weithgareddau wedi eu rheoli gan Gydlynydd Rhwydwaith Rhanbarthol ac aelodau ychwanegol o staff. Mae'r Rhwydweithiau'n amrywio yn eu cyfansoddiad a'u natur. Dyma'r Rhwydweithiau:

- NAWR, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i Ganolbarth a Gorllewin Cymru dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Edau, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i Ogledd Cymru, dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint
- A2:Connect, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i Ganolbarth De Cymru, dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig ar ran Arts Connect
- Y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg: De Ddwyrain Cymru, y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i ranbarth y De Ddwyrain, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Caerffili.

2.3 Yn fwriadol, mae hyn yn ymyriad sy'n llawer ehangach na'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac sydd wedi ei dargedu llai nag o, ac mae wedi ei lunio i weithio'n ddwys gydag ysgolion unigol. Mae ffocws yr ymyriad ar greu 'cyfleoedd' a fydd yn cefnogi athrawon i ddatblygu eu dulliau o addysgu. Mae hyn (eto) yn wahanol i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol sydd â'r dasg o gyflawni canlyniad terfynol penodol iawn, sef gwella cyrhaeddiad disgyblion drwy greadigedd. Mae staff rheoli a darparu'n aml yn diffinio'r Rhwydweithiau fel rhai sy'n ymwneud ag addysgu 'yn' y celfyddydau.

2.4 Yn integrol i gynllun y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol mae'r elfen o ryddid mewn perthynas ag addasu a datblygu eu cynnig er mwyn ateb anghenion lleol. Soniodd Adroddiad 3 bod rhyddid fel hyn yn ffactor allweddol yn eu llwyddiant. Mae wedi arwain at amrywiaeth o wahanol ddulliau darparu ymysg y pedwar Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, yn ogystal â'r ffaith bod y Rhwydweithiau'n darparu cynnwys a hyfforddiant sy'n berthnasol yn eu barn hwy i'r athrawon sydd yn eu hardal leol, gan hefyd gydweithio a darparu mewn cydweithrediad ledled Cymru.

2.5 Fel y casglwyd mewn adroddiadau blaenorol, fodd bynnag, mae'r amcanion sydd wedi eu hamlinellu ar gyfer y Rhwydweithiau'n weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. Er eu bod yn darparu'r fframwaith i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu datblygu fel y maent yn ei ystyried yn addas er mwyn ateb anghenion lleol, mae hefyd elfen o orfodaeth wedi'i chynnwys yn y cynllun i Rwydweithiau ddarparu gweithgareddau penodol. Mae diffyg diffiniad manwl o'r gweithgareddau hyn wedi caniatáu, fel y cynlluniwyd, i'r ddarpariaeth fod yn amrywiol ac yn berthnasol yn lleol. Er bod hyn, yn ei dro, yn cael ei gydnabod fel cryfder mae hefyd yn creu heriau wrth geisio gwerthuso a chymharu effaith y gweithgareddau ar athrawon ac ysgolion.

2.6 Ail-ddyluniwyd y gofynion a'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso a'r gweithdrefnau ar gyfer y Rhwydweithiau yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018. Bu'r ail-ddylunio hwn o gymorth i gasglu data monitro a gwerthuso ar gyfer adrodd effeithiol a chyson ar draws y Rhwydweithiau. Fodd bynnag, parodd hefyd i staff y Rhwydweithiau ddechrau teimlo cynnydd yn y baich tasgau gweinyddol a barnu bod allbynau a thargedau sy'n ymwneud â maint y ddarpariaeth a'r cyfraddau cyfranogaeth wedi eu blaenoriaethu fel mesuriad o lwyddiant, ar draul mathau eraill o effaith yn llwyr. Mae'n bwysig parchu canfyddiadau staff ar lawr ysgol, ac felly

dylid cymryd pryderon fel hyn o ddifrif. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o ymyriadau addysgol graddfa fawr yn dioddef tensiynau tebyg wrth iddyn nhw ddatblygu drwy'r camau sy'n rhan o'r cyflwyniad. Mae adrodd am raddfa'r ddarpariaeth yn aml yn amod o'r ariannu sy'n gysylltiedig â grantiau mawr ac, o ganlyniad, daw hynny â chyfrifoldebau adrodd ychwanegol sy'n dod i ffocws yn llawn unwaith mae gweithgareddau'n cael eu darparu a phatrymau o weithio mewn partneriaeth yn dod yn sefydledig.

2.7 Er nad oedd hynny'n amlwg o'r cychwyn, mae cefnogi newid cwricwlaidd ochr yn ochr â datblygu perthnasoedd gyda thimau Ysgolion Creadigol Arweiniol lleol wedi dod i'r amlwg fel targed cyffredin i Gydlynwyr Rhwydwaith, staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru, a staff rheoli strategol.

2.8 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ac yn dadansoddi data am y Rhwydweithiau. Cafodd data ei gasglu o ystod o ffynonellau yn cynnwys cyfweliadau gyda Chydlynwyr Rhwydwaith, staff, Hyrwyddwyr Celfyddydau, ac aelodau grwpiau llywio. Yn ogystal, archwiliwyd data monitro a gwerthuso ochr yn ochr â deunyddiau gwerthuso ychwanegol a ddarparwyd gan y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu hunain, gan gynnwys Arolygon Athrawon ac Artistiaid ochr yn ochr â chyfweliadau gyda staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a phersonél rheoli strategol.

2.9 Mae adran ddilynol yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Rhwydweithiau dros y flwyddyn academaidd 2018-2019. Mae'n bwysig cydnabod bod yr adroddiad yn archwilio problemau oedd yn bresennol ar yr adeg y gwnaed y gwaith maes yn ystod tymor y gwanwyn ac efallai eu bod wedi cael eu cydnabod ers hynny a chamau gweithredu wedi eu cymryd i ymdrin â nhw – bydd hyn yn cael ei archwilio mewn gwaith maes yn y dyfodol. Yn ogystal, cafodd materion cyfreithlonedd a godwyd mewn adroddiadau blaenorol eu harchwilio yn ystod y cyfweliadau a'r gwaith maes.

*Materion cyfreithlonedd a chanfyddiadau blaenorol*

2.10 Nododd yr adroddiad gwerthuso blaenorol bod staff rheoli strategol yn deall bod gan y Rhwydweithiau rôl bwysig yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Fodd bynnag, nid oeddent wedi eu darbwyllo'n gyfan gwbl am eu heffaith a'u cyfraniad i'r rhaglen ar amser y gwaith maes. Roeddent yn derbyn bod y Rhwydweithiau wedi eu sefydlu'n hwyrach ymlaen a gyda llai o lywio neu

arweiniad strategol na gweithgareddau Llinyn 1. Roedd adroddiadau blaenorol yn nodi bod rhai canfyddiadau ymysg cyfranogwyr y Rhwydweithiau o ddargyfeirio'n digwydd oherwydd diffyg cyd-weledigaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r staff rheoli strategol a'r staff sy'n darparu yn y Rhwydweithiau mewn perthynas â gwerth y Rhwydweithiau a'u cyfraniad yn y pen draw. Yn ogystal, roedd canfyddiad bod y Rhwydweithiau'n 'dal i gael eu traed danynt'. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn rhoi data am flwyddyn academaidd gyflawn o weithgarwch am y tro cyntaf.

2.11 Yn fwy cyffredinol, roedd staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydweithiau o'r farn bod modd gwella'r cyfathrebiad a'r ddeialog rhwng sefydliadau. Roedd staff y Rhwydweithiau'n awgrymu y byddent yn gwerthfawrogi ymgysylltiad dyfnach gyda'u gweithgareddau, tra bo staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru'n dweud y byddai o fantais iddynt pe bai staff y Rhwydweithiau'n cyfathrebu'r anawsterau y maent yn dod ar eu traws mewn ffordd fwy agored.

2.12 I'r perwyl hwn, roedd Adroddiad 3 yn argymell y dylai'r ddau bartner geisio bod yn agored a chynnig mwy o eglurder mewn perthynas â meini prawf monitro a data, gan gyfathrebu unrhyw anawsterau a gânt a rhannu eu profiadau a dysgu yn y fan a'r lle. Mae archwiliad manwl o'r mater hwn isod.

2.13 Soniodd Adroddiad 3 hefyd am ragor o faterion i'w trafod yn ymwneud â'r cyfathrebu rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Roedd diffyg eglurder am gyfraniad gwaelodol y Rhwydweithiau neu eu canlyniadau i fuddiolwyr, y tu hwnt i'r pum canlyniad craidd, wedi arwain at ddryswch. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn argymell (Argymhelliad 5) bod rheolwyr yn rhoi gwybod i gydlynwyr y Rhwydweithiau am eu gweledigaeth ynghylch cyfraniad y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, y tu hwnt i ddarparu'r pum canlyniad craidd, hyd yn oed os nad oedd datganiad felly'n gwneud dim byd mwy nag egluro'r canlyniadau a'r effaith sydd wedi ei disgrifio yn theori newid y rhaglen.

2.14 Yn wrthbwynt i hynny, nododd staff Cyngor Celfyddydau Cymru bod Rhwydweithiau wedi gwneud cais am gyllido grant gyda chynllun darparu a bod grantiau'n cael eu dyfarnu ar sail y canlyniadau oedd wedi eu diffinio o flaen llaw yr oedd pob Rhwydwaith wedi eu gosod iddo'i hun, a oedd, yn eu tro, yn deillio o ac yn cysylltu gyda'r weledigaeth a'r cylch gwaith ar gyfer y Rhwydweithiau yn y cynllun Cyngor Celfyddyfau Cymru gwreiddiol. O safbwynt Cyngor Celfyddydau Cymru, roedd

dyhead nid yn unig i osod paramedrau eang a thargedau lefel uchel ond hefyd i roi'r cyfle i Rwydweithiau ddehongli'r rheiny mewn ffyrdd oedd yn gwneud y synnwyr gorau yn lleol.

2.15 O safbwynt Cyngor Celfyddyfau Cymru, mae'n sicr bod rhaid canfod cydbwysedd rhwng gosod targedau strategol ar gyfer y rhaglen a dynameg y rheolaeth a'r ddarpariaeth lleol. Ar yr un pryd, os yw canfyddiadau rhwydwaith i gael eu parchu, efallai y byddai rhywfaint o werth mewn ystyried y berthynas hyd braich y mae'r dyfarniad grant yn ei awgrymu, yn ogystal ag ystyried a oes bylchau'n agor rhwng strategaeth a darpariaeth a allai fod yn creu ansicrwydd neu ddryswch ymysg y rheiny sy'n rheoli'r Rhwydweithiau, O'r data a gasglwyd hyd yn hyn, mae'n anodd canfod a yw hon yn broblem yn ymwneud â'r Rhwydwaith sydd wedi ei gwreiddio mewn cyfathrebu ac awydd i gysylltu'n anffurfiol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru fel ffordd o brofi cynnydd ac, o bosib, gywiro ei gwrs os oes angen. Neu, a ydyw'n broblem sydd wedi ei gwreiddio mewn heriau mwy ymarferol sy'n ymwneud ag ymgysylltiad â chynigion Rhwydwaith oedd heb eu rhagweld neu oedd heb eu hamcangyfrif yn ddigonol pan wnaethpwyd y cais am y grant. Efallai y byddai rhywfaint o ddeialog pellach yn ddefnyddiol i ddod â natur dryswch fel hyn i'r wyneb.

2.16 Roedd y cydlynwyr yn gyffredinol yn ystyried bod darpariaeth y Rhwydweithiau'n boblogaidd iawn ymysg athrawon. Roedd ymatebion athrawon mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws, yn ogystal ag ymatebion i'r arolwg, hefyd yn cefnogi'r farn bod galw mawr am DPP a chyfleoedd dysgu proffesiynol a'u bod yn eu gwerthfawrogi'n eang, tra bo gweithgareddau'r hyrwyddwyr celfyddydau hefyd wedi ennyn ymatebion arbennig o bositif.

2.17 Roedd staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru'n fodlon hefyd bod y targedau oedd wedi eu gosod ar y cyd â'r Rhwydweithiau, ac i'r Rhwydweithiau, yn cael eu cyflawni. Ymhellach, roedd yr ymatebion i'r Arolwg Athrawon fel y maent wedi eu hamlinellu yn Adroddiad 3 yn arwydd o lefelau uchel o foddhad gyda'r ddarpariaeth, yn ogystal â'r galw am y gwasanaethau gan yr athrawon hynny oedd heb fanteisio ar y cyfle i gael datblygiad proffesiynol ar y pryd.

Nododd Adroddiad 3 hefyd nad oedd data ar gael ar gyfer gwneud gwerthusiad iawn o effaith gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ar athrawon ac ysgolion. Roedd y data oedd ar gael yn ymwneud i raddau mawr â lefelau gweithgarwch a chyfranogaeth. Roedd y gwaith maes a wnaethpwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn ceisio ymdrin â'r mater hwn a chynhyrchu

data am yr effaith ar athrawon ac ysgolion fel y maent wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad theori newid. Fodd bynnag, roedd Adroddiad 3 yn argymell hefyd y dylid sefydlu ffynonellau pellach o ddata sy'n archwilio perthnasedd cyrsiau hyfforddi'r Rhwydweithiau i ysgolion ac athrawon, ac mewn perthynas â defnyddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r arfer da sydd wedi cael eu rhannu.

*Cyfranogaeth a gweithgaredd*


2.18 Yn ystod eu cyfnod cychwynnol o 12-18 mis, rhoddwyd cylch gwaith eang i'r Rhwydweithiau i ddatblygu eu dull o ddarparu eu cefnogaeth gan hefyd roi ystyriaeth i amgylchiadau lleol – roedd 2017-2018 felly yn cynrychioli'r flwyddyn lawn gyntaf o weithgarwch. Ar adeg y gwaith maes, roedd y cydlynwyr yn credu bod Rhwydweithiau'n cyrraedd pwynt lle'r oedd ymwybyddiaeth ymysg athrawon, ynghyd â'r ddarpariaeth gan Rwydweithiau, yn agos at gyrraedd eu brig.

> 'Mae'n cymryd amser hir i sefydlu Rhwydwaith a'i gael i weithredu… Mae ar fin gwneud yn awr.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.19 Mae data a gasglwyd at ddibenion yr adroddiad hwn yn cynnig cipolwg ar flwyddyn academaidd gyfan o weithgarwch am y tro cyntaf. Mewn perthynas â chyfleoedd rhwydweithio, mae'r data'n dangos bod 27 o ddigwyddiadau rhwydweithio wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd 2017-2018 a bod cyfanswm o 38 wedi eu cynnal ers eu lansio. Ar draws y 38 digwyddiad, mae 390 o athrawon a 489 o artistiaid neu ymarferwyr celfyddydau wedi cymryd rhan, sy'n rhoi cyfartaledd o 11 ac 15 i bob digwyddiad, yn y drefn honno.

2.20 Mae Ffigur 2.1 isod yn dangos bod rhywfaint o wahaniaeth yn y nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal ymhob rhanbarth Rhwydwaith. Mae adroddiadau monitro a chyfweliadau gyda staff Rhwydwaith yn datgelu bod gwahaniaethu yn y ffordd y mae Rhwydweithiau'n ymdrin â'r rhain ac hefyd, o ganlyniad, beth yw 'digwyddiad rhwydweithio'.

Ffigur 2.1: Y digwyddiadau rhwydweithio a gynhelir, fesul Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol




Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru (fel y darparwyd gan y Rhwydweithiau)

2.21 Mae Edau wedi cynnal y nifer uchaf o weithgareddau (15) hyd yn hyn tra bo NAWR wedi cynnal dau ddigwyddiad yn unig. Gellir esbonio’r gwahaniaethau yn y lle cyntaf gan y ffordd y mae’r Cydlynwyr Rhwydwaith yn mynd ati i gynnal digwyddiadau. Mae A&EN SEW ac Edau wedi ceisio cynnal digwyddiadau rheolaidd ar raddfa lai tra bo NAWR wedi canolbwyntio ar ddatblygu digwyddiadau rhwydweithio yn benodol i benaethiaid Drama neu Gelf, ac mae A2:Connect wedi ceisio cynnal digwyddiadau’n aml mewn cynadleddau trydydd parti er mwyn cynyddu cyfranogaeth ar draul ffocws penodol neu gul. O ganlyniad, mae’n anodd cymharu niferoedd y digwyddiadau a gynhelir a nifer yr athrawon a gyrhaeddir ar sail y data monitro. Mae pob Rhwydwaith yn cynnal ei fersiwn penodol ei hun o ‘ddigwyddiad rhwydweithio’ fel y mae wedi ei ragweld yn y cynllun.

2.22 Er ei bod hi’n anodd gwerthuso data sy’n bodoli’n barod, mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol ynglŷn â dull pa Rwydwaith yw’r mwyaf effeithiol am gyflawni’r amcanion a nodir, os oes unrhyw un o gwbl. Bydd angen rhagor o waith ymchwil a data i allu archwilio cwestiwn o’r fath ac i ymchwilio a yw hyn yn arwydd bod anghydbwysedd efallai rhwng cadw’n sensitif i gyd-destun lleol a sicrhau bod rhywfaint o ddiben a chynnwys cyffredin rhwng y Rhwydweithiau. Yn ogystal, mae’n aneglur a yw’r amrywiaeth yn y cyflymder ac amlder / yr hyn yr ymdrinir ag o yn pwyntio at amrywiaeth yn y neges a’r diben; ar y llaw arall, efallai ei bod hi’n anochel y bydd gosod y cyd-destun lleol yn y blaendir yn ffurfiant y Rhwydwaith a’i ddulliau o

ddarparu yn sicr o beri gwahaniaethau mewn canlyniadau neu ym mha mor gyflym y bydd effeithiau'n cael eu teimlo.

2.23 Mae darparu sesiynau DPP yn gydran allweddol o gynnig y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Mae Rhwydweithiau wedi cynnal 219 o ddigwyddiadau DPP hyd yn hyn, a 118 yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018.[17] Fel y mae Tablau 2.1–2.3 yn ei amlinellu, mae cyfanswm o 2,104 o gyfranogwyr wedi elwa o DPP, ac roedd 1,499 (71%) ohonynt yn athrawon. Yn y flwyddyn academaidd gyfan o weithgarwch 2017-2018, roedd 1,083 o gyfranogwyr wedi elwa o gyrsiau DPP.

### Tabl 2.1: Math o gyfranogwr (DPP)

| Math o gyfranogwr | # | % |
|---|---|---|
| Athro | 1,499 | 71% |
| Artist | 423 | 20% |
| Gweithiwr Creadigol/Addysgwr Proffesiynol | 128 | 6% |
| Sefydliad Diwylliannol | 10 | 0% |
| Marchnata | 4 | 0.2% |
| Swyddog/Hyrwyddwr Celfyddydau | 3 | 0.1% |
| Myfyriwr | 2 | 0.1% |
| Arall | 13 | 0.6% |
| Heb nodi | 22 | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **2,104** | |

Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru (fel y cyflenwir gan y Rhwydweithiau)

### Tabl 2.2: Nifer y cyfranogwyr fesul blwyddyn academaidd (DPP)

| Blwyddyn academaidd | # o gyfranogwyr | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| 2015–2016 | 7 | 0.3% |
| 2016–2017 | 718 | 34% |
| 2017–2018 | 1,023 | 49% |
| 2018–2019 | 356 | 17% |

Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru (fel y cyflenwir gan y Rhwydweithiau)

[17] Mae'r ffigur 219 yn deillio o ddata monitro a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru (a gafodd ei ddarparu mewn Ffurflenni Monitro Grantiau gan y Rhwydweithiau), tra bo'r ffigur 118 wedi ei nodi yn adroddiad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun am y flwyddyn academaidd 2017/18.

**Tabl 2.3: Nifer y cyfranogwyr fesyl Rhwydwaith Clefyddydau ac Addysg Rhanbarthol (DPP)**

| Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol | # o gyfranogwyr | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| A&EN SEW | 553 | 26% |
| Edau | 726 | 35% |
| NAWR | 430 | 20% |
| A2:Connect | 395 | 19% |
| **Cyfanswm** | **2,104** | |

Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru (fel y darparwyd gan y Rhwydweithiau)

2.24 Am fod y data hwn yn cael ei gasglu drwy froceru, yn debyg i ddigwyddiadau rhwydweithio, heb ddiffiniad manwl a chyffredin o weithgareddau, mae'n anodd gwneud cymhariaethau rhwng Rhwydweithiau a beirniadaethau am gyfranogaeth (y tu hwnt i gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt). Nododd staff y Rhwydwaith bod hyrwyddwyr celfyddydau yn aml yn broceru perthnasoedd yn anffurfiol yn rhan o'u gwaith, ond yn anaml y mae'r achosion hyn yn cael eu cyfrif yn rhan o ddata gweithgarwch y Rhwydwaith. Ar ben hynny, mae pobl yn ystyried digwyddiadau rhwydweithio yn gynyddol fel cyfryngau priodol i gysylltu ysgolion gydag artistiaid neu sefydliadau celfyddydau ar sail fwy ffurfiol.

> 'Rydym yn awyddus i ddefnyddio ein digwyddiadau rhwydweithio a'n cyrsiau datblygiad proffesiynol fel sbringfwrdd i gysylltu ysgolion gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydau/diwylliant. Rydym yn credu y gallem gysylltu ysgolion yn well gyda'r sefydliadau celfyddydau a diwylliant yn y rhanbarth… Bydd hyn yn hyrwyddo defnydd creadigol o safleoedd diwylliannol a'u cynnig addysgol i ysgolion' (Ffurflen Monitro Cynnydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.25 Ymhellach, rhoddodd y Cydlynwyr Rhwydwaith sylw am natur niwlog y gweithgareddau, yn ogystal â'r anhawster o ran pennu pryd y mae gweithgareddau wedi digwydd. O ganlyniad, codwyd amheuon am ddilysrwydd a defnyddioldeb cyfri gweithgareddau broceru.

> 'Mae'n anodd iawn mewn gwirionedd i adrodd neu fonitro'r maes hwn o'n gwaith, am fod cymaint o hyn yn digwydd yn anffurfiol drwy sgyrsiau mewn digwyddiadau a chyrsiau,' (Ffurflen Monitro Cynnydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.26 Yn ôl y sôn, mae'n anodd dehongli cysylltiadau broceru a phartneriaethau posibl y dyfodol yn fanwl gywir, ond mae'r ACW yn cynnig lle ar gyfer disgrifiadau tebycach i naratif o natur anffurfiol gweithgareddau o'r fath, ac er na ellir dehongli disgrifiadau o'r fath fel rhai adfyfyriol o'r holl ymwneud sy'n digwydd mewn Rhwydwaith, gallent roi synnwyr o'r ffordd y mae'r broses yn gweithio a beth yw ei nodweddion pan mae ar ei fwyaf effeithiol. Ar hyn o bryd, mae ACW yn awgrymu nad yw Rhwydweithiau'n gwneud defnydd digonol o'r math hwn o adrodd. Efallai y byddai'n fuddiol i ACW annog ymgysylltiad manylach gyda chyfrifon mwy disgrifiadol o froceru gan, ar yr un pryd, geisio deall a oes unrhyw broblemau systemig wedi atal Rhwydweithiau rhag dewis y dull hwn hyd yn hyn.

*Cymhelliant ac ymwybyddiaeth*

2.27 Mae mwy o gymhelliant na chynt i ymgysylltu â'r Rhwydweithiau ym marn staff y Rhwydwaith a staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru. Y rheswm pennaf am hyn yw'r cynydd yn statws y Rhwydweithiau a'r ymwybyddiaeth ohonynt ymysg athrawon, yn ogystal â chyd-destun y cwricwlwm newydd. Roedd cyfeiriadau eang at y cwricwlwm newydd, yn arbennig, mewn cyfweliadau gyda staff Rhwydweithiau fel dull allweddol sydd wedi gweithio i ganolbwyntio meddyliau'r penaethiaid sy'n ceisio gwella sgiliau staff a'u paratoi ar gyfer y trosglwyddiad ac i ddarparu'r cwricwlwm newydd. Ymhellach, rhoddodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru sylwadau am berthnasedd y cwricwlwm newydd a'r angen a welwyd i wella sgiliau athrawon er mwyn cefnogi ei ddarpariaeth: '…y cymhelliad mwyaf yw'r cwricwlwm newydd a'r gwella sgiliau i baratoi ar gyfer hynny.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019).

2.28 Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru'n parhau'n ffactor o ran pennu'r ymgysylltiad ag athrawon ar hyn o bryd. Cydnabuwyd ei fod yn ffactor cymell allweddol, ond roedd cred eang ymysg staff y Rhwydweithiau bod y cwricwlwm newydd yn debygol o ddod yn gymhelliad mwy pwerus i athrawon ac y bydd yn gyrru ymgysylltiad â'r Rhwydweithiau yn y dyfodol. Ym marn nifer o staff y Rhwydweithiau, wrth i amcanion strategol mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd hidlo drwy'r diwylliant addysgu yng Nghymru, byddai hynny'n helpu i gynyddu'r galw am agweddau mwy creadigol o addysgeg.

‘Hyd nes bydd y cwricwlwm newydd ar gyfer y celfyddydau mynegiannol yn dechrau cael ei gyflwyno, dim ond yr athrawon sydd â diddordeb gewch chi. Maen nhw’n methu edrych ymlaen. Dydyn nhw ddim yn gallu meddwl y tu allan i’r blwch hwnnw am nad oes ganddynt yr amser i wneud hynny. Bydd ganddyn nhw fwy o ddiddordeb yn yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn nhermau cefnogaeth unwaith y bydd y cwricwlwm newydd wedi ei gyflwyno. Hyd nes bydd y prosesau monitro i athrawon yn symud ymlaen, byddent yn mynd yn eu blaenau heb chwilio am ddatblygiad pellach,’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.29 Yn arbennig, mae cyfraddau recriwtiad y DPP wedi elwa hefyd nid yn unig o farchnata parhaus ond hefyd o ledaenu’r gair rhwng pobl a rhannu profiadau positif athrawon o flynyddoedd blaenorol. Ymhellach, mae amrywiadau bach i gostau wedi dechrau lleihau’r broblem gyda diffyg mynychu. Diffyg mynychu yw pan fo athrawon yn cofrestru ar y cwrs – gyda’r Rhwydweithiau’n talu’r ffi – ond nid ydynt yn mynychu. Trwy godi ffi fechan, mae cydlynwyr yn credu eu bod yn cynyddu’r canfyddiad bod athrawon wedi prynu i mewn i’r hyfforddiant, ac felly maen nhw’n fwy tebygol o fynychu. Roedd hyn yn broblem a amlygwyd gan rai cydlynwyr a hyrwyddwyr celfyddydau ond roedd hi’n anodd cadarnhau hynny heb ragor o ddata am ddiffyg mynychu. Gallai dull fel hyn gefnogi darpariaeth DPP tebyg yn y dyfodol neu ar ôl cyllido.


2.30 Un mater a dynnwyd o’r data monitro ar gyfer Adroddiad 3 ac a archwiliwyd yn fanylach yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn oedd bod athrawon ysgolion cynradd yn fwy tebygol o ymgysylltu â’r Rhwydweithiau nag oedd rhai’r ysgolion uwchradd. Cadarnhawyd y mater hwn gan gyfweliadau ansoddol gyda Chydlynwyr Rhwydwaith. Roedd nifer eang yn credu bod y gofynion ar amser athrawon ysgol uwchradd yn ffactor allweddol.

‘Athrawon cynradd ydyn nhw ar y mwyaf. Rili anodd i gael athrawon uwchradd, ac mae [Consortia] yn dweud hyn hefyd. Mae’n anodd iawn ryddhau athrawon. Mae amserlenni i athrawon yn anodd iawn. [Rywf] wedi rhannu hynny gyda [Consortia] ac mae nhw’n cael yr un broblem. Ni’’n cydymdeimlo ondmae’n rili anodd cael gafael arnyn nhw. (Cyfweliad â’r Cydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.31 Roedd staff y Rhwydweithiau’n rhagweld diddordeb cynyddol gan ysgolion uwchradd ac athrawon yn eu gwasanaethau wrth i ragor o fanylion am y cwricwlwm newydd gael eu rhyddhau.

2.32 Er bod y gyfranogaeth wedi bod yn cynyddu, mae data yn awgrymu bod lle o hyd i hyrwyddo'r Rhwydweithiau a'u gweithgareddau ymhellach. Mae Ffigur 2.2 isod yn defnyddio data o'r Arolwg Athrawon, sy'n awgrymu bod 41% o athrawon sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymwybodol o'r Rhwydweithiau a'u gwasanaethau. Dylid disgwyl i athrawon sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fod â lefel uwch o ymwybyddiaeth am eu bod wedi ymwneud â'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Felly, mae'r ffigur isod yn debygol o awgrymu darlun mwy ffafriol nag y byddai petai'r sampl wedi bod o'r boblogaeth gyffredinol o athrawon.


Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol




Athrawon N=124 | Artistiaid N=119

2.33 Mae Ffigur 2.3 yn cynnig darlun mwy manwl o'r lefelau ymwybyddiaeth ymysg yr athrawon Ysgolion Creadigol Arweiniol hynny a nododd bod ganddynt rywfaint o ymwybyddiaeth o'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Mae'r ffigur yn dangos er bod yr ymwybyddiaeth o DPP a chyfleoedd i rwydweithio a broceru yn uwch na 70%, roedd llai nag un ymhob pump (18%) yn gwybod am yr hyrwyddwyr celfyddydau.

Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o weithgareddau a gwasanaethau penodol y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol




Athrawon N=124 | Artistiaid N=119

2.34 Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r hyrwyddwyr celfyddydau a'u hoffer a'u hadnoddau, yn arbennig ymysg cyfranogwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn adleisio pryderon a fynegwyd gan rai o staff y Rhwydweithiau am hyrwyddo'r llinyn gan staff Ysgolion Creadigol Arweiniol ac o fewn hyrwyddiad Cyngor Celfyddydau Cymru o'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn fwy cyffredinol. Roedd rhai aelodau o staff y Rhwydweithiau'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y raddfa o integreiddiad ac ymwybyddiaeth gyffredinol rhwng y llinynau sydd â ffocws ar greadigedd a'r llinynau sydd â ffocws ar y celfyddydau yn y cynnig a arweinir gan ACW ledled Cymru.

2.35 Fodd bynnag, roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod y llinynau'n hyrwyddo ei gwaith ei gilydd, er eu bod yn derbyn bod amrywiaeth rhwng y lefelau o gydweithrediad ymhob rhanbarth.

> 'Rwy'n hyderus y dylai fod yn digwydd a'i fod yn digwydd gan fwyaf. Mae'r berthynas rhwng Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhwydweithiau'n wahanol i bob rhanbarth. Mae rhai yn gweithio'n well nag eraill ar y pwynt hwn.' (Cyfweliad â Rheolwyr y Cyngor Celfyddydau, 2019)

2.36 Mae'n aneglur pam fod y canfyddiad hwn yn bodoli ymysg staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, neu, os yw'n gywir, pam na theimlir bod Ysgolion Creadigol Arweiniol yn hyrwyddo Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol bob amser i'r graddau y gallent fod. Mae data o gyfweliadau ansoddol a data o'r Arolwg Athrawon ac Artistiaid yn awgrymu, fodd bynnag, y gellid gwella ymwybyddiaeth o'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a'u cynnig ymysg buddiolwyr y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

*Rheolaeth a darpariaeth*

2.37 Cafwyd sylwadau gan staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru oedd yn dangos eu bod yn fodlon gyda darpariaeth y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Mae targedau allbwn yn parhau i gael eu cytuno gyda'r Rhwydweithiau unigol ac yn dal i gael eu cyflawni. At hynny, roedd staff y Rhwydwaith yn fodlon gyda darpariaeth eu targedau dros y flwyddyn.

2.38 Mae gallu Rhwydweithiau (fel y cawsent eu dylunio) i ymateb i angen lleol a datblygu DPP sy'n berthnasol i athrawon o fewn y rhanbarth yn dal ei gael ei ystyried gan Gydlynwyr a staff rheoli fel agwedd allweddol o'u llwyddiant. Nid yn unig y mae'r targedau ar gyfer DPP yn cael eu cyflawni, ond mae gwerthfawrogiad ehangach am ansawdd a chynnwys y DPP wedi ei nodi hefyd mewn cyfweliadau.

2.39 Credir hefyd bod y cysylltiadau rhwng Rhwydweithiau a Chonsortia Addysg Rhanbarthol yn cryfhau, gyda mwy o gyrsiau cenedlaethol yn cael eu darparu ar draws y Rhwydweithiau. Mae staff y Consortia a staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn credu bod hyn yn ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth addysg statudol yn y rhanbarthau perthnasol.

2.40 Mae rhai Rhwydweithiau wedi gweithio'n agos â Chonsortia Addysg Rhanbarthol i ganfod athrawon ac ysgolion i'w targedu gyda chymorth DPP a'r hyrwyddwyr celfyddydau. Yn wir, yn y rhanbarth Edau/GwE yn arbennig, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu i fod yn ddarparydd allweddol o DPP yn y celfyddydau mynegiannol, sydd wedi alinio ac sy'n cefnogi cyrchu blaenoriaethau addysgol a gweithlu'r rhanbarth. Mae staff y Rhwydweithiau a staff y Consortia hefyd yn ystyried y cyfraniad fel un sydd wedi ei seilio ar arbenigedd ac ansawdd, sy'n gysylltiedig â'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

‘Ni’n gallu bod yn farc o safon a chynnig cyngor o safon iddyn nhw erbyn nyn. Mae nhw’n gallu troi atom ni. Pan mae nhw eisiau delifro rhywbeth o gwmpas creadigrwydd a’r celfyddydau, atom ni mae nhw’n dod. Mae’n bartneriaeth gwych.’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

‘Heb y berthynas sydd gan GwE gydag Edau, ni fyddem wedi cael y mewnbwn arbenigol sydd gennym heddiw. Ni fyddem wedi gwybod ble i fynd i gael yr arbenigwyr mewn dawns, yr arbenigwyr mewn cerddoriaeth a chanu… Ni fyddai gennym yr Hyrwyddwyr Celfyddydau yn gweithio ac yn cefnogi ac yn gwneud cymaint o wahaniaeth mewn gwirionedd i hyder a sgiliau ein hathrawon. Rydym yn gwybod bod y celfyddydau mynegiannol yn cael eu hailgyflwyno mewn gwirionedd gyda’r cwricwlwm newydd…. Felly, fel gwasanaeth, mae angen i ni wybod at bwy y gallwn fynd i helpu ein hathrawon, ac Edau a ddarparodd y gefnogaeth hanfodol honno i ni.’ (Cyfweliad Astudiaeth Achos Effaith Edau gyda GwE, 2019)

2.41 Yn y cyfamser, mae staff rheoli’r Rhwydweithiau a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid, o’r farn bod datblygu ap broceru yn ddatblygiad allweddol a fydd yn helpu i hybu perthnasoedd rhwng artistiaid ac athrawon. Mae’r rhyddid i Rwydweithiau ddatblygu eu darpariaeth eu hunain yn debygol o fod yn ffactor galluogi allweddol yn natblygiad yr ap. Er nad oes data wedi ei dderbyn am ddefnydd yr ap hyd yn hyn, mae rhanddeiliaid a staff y Rhwydweithiau a’r staff rheoli’n optimistaidd. Efallai y bydd adroddiadau’r dyfodol eisiau archwilio data am y defnydd a wneir o’r ap a gwneud cymariaethau gyda’r ffordd y defnyddir apiau eraill ym maes addysg a gan athrawon.

‘Gallai’r ap newid pethau go iawn. Mae’n hynod o werthfawr o ran dod ag athrawon ac artistiaid at ei gilydd.’ (Cyfweliad Consortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.42 Er ei fod yn optimistaidd ynglŷn â’i botensial, mae staff y Rhwydwaith yn ymwybodol bod angen hybu’r ap ac annog athrawon ac artistiaid i gofrestru ar ei gyfer. Mae wedi dod yn amlwg mai cael pobl i’w ddefnyddio yw’r brif her a risg sy’n wynebu’r ap.

‘Mae’r defnydd ohono wedi bod yn weddol dda ac mae’n cynyddu, ac mae’r adborth wedi bod yn dda am ei ddefnyddioldeb. Credaf mai ein prif yrrwr yn awr yw cael cymaint o athrawon ag sy’n bosib arno a chael eu proffil arno – p’un a

oes ganddynt brosiect arno neu beidio ar y cam hwn. Byddent yn dechrau gweld mwy o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn yr ardal a ledled Cymru wrth i fwy o athrawon gofrestru ar ei gyfer a bydd hynny'n ei yrru fwyfwy. Dyna ein cam nesaf gyda hwnnw: ei wthio'n gryfach i sylw'r athrawon.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.43 Mae dau Rwydwaith wedi ceisio arloesi a datblygu eu cynnig dros y cyfnod diwethaf o oddeutu 18 mis. Mae un wedi dechrau cynnig 'cronfeydd sbarduno arloesi' o hyd at £1,000 i gefnogi a hwyluso cydweithrediad rhwng athrawon ac artistiaid. Mae'r gronfa wedi ei llunio i gefnogi cydweithrediad rhwng athrawon ac artistiaid sy'n dilyn Ysgolion Creadigol Arweiniol neu Gydweithio Creadigol yn hytrach na disodli unrhyw agwedd bresennol o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

2.44 Er bod Rhwydweithiau, yn achlysurol, yn datblygu ac yn darparu DPP mewn partneriaeth â'i gilydd, a chredir bod hynny'n arbed arian ac yn sicrhau ansawdd, lleisiwyd rhywfaint o bryder am yr amser y mae'n ei gymryd i ddarparu yn y modd hwn, yn benodol y ffaith fod y ddarpariaeth weithiau'n arafach.

2.45 Roedd cydlynwyr hefyd yn awgrymu bod cyfleoedd i fanteisio ar gronfa ehangach o arbenigedd a phrofiad er mwyn cefnogi a chyfoethogi darpariaeth a chynyddu ansawdd y DPP. Hanfod y sylwadau hyn oedd ei bod hi'n ymddangos, yn gyffredinol, bod dymuniad o fewn yr ACW i gylchdroi gwybodaeth ac arbenigedd o'r fath, yn hytrach na chysylltu â chronfeydd o wybodaeth a phrofiad yn Lloegr neu ymhellach i ffwrdd a allai fod yn ymarferol i'w defnyddio ac yn bwynt cymharu defnyddiol. Roedd rhai'n beirniadu bod hyn yn ddull ynysig ond, ar yr un pryd, byddai meithrin dull mwy cyffredinol o gynnig DPP a dysgu creadigol yn sicr o ddod â goblygiadau sylweddol o ran costau. Ymhellach, gellid dadlau bod llawer iawn o arferion a meddwl rhyngwladol wedi eu hadeiladu'n esmwyth i mewn i gynllun y rhaglen drwy ymgynghoriad â Creativity, Culture and Education (CCE).

2.46 Fodd bynnag, er gwaethaf y pwynt hwnnw, mae darpariaeth DPP wedi datblygu mewn ffyrdd eraill dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gan ddangos tystiolaeth unwaith eto o'r arloesi a'r datblygiad sy'n digwydd yn barhaus gan staff rheoli'r Rhwydwaith a'r rhaglen. Mae staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi manteisio ar arbenigedd addysgol ehangach i gyfoethogi'r cynnig, er enghraifft, mae arweinwyr cwricwlwm y Consortiwm yn gwneud cyfraniadau neu'n eu harwain yn gynyddol er mwyn gwneud y cynnig yn fwy perthnasol i'r cwricwlwm newydd.

*Cydweithrediad â Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a gweithio ochr yn ochr â hwy*

2.47 Cyfeiriodd amrywiaeth o ymatebwyr at y posibilrwydd y gallai Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol gyfrannu at neu gyd-ddarparu hyfforddiant dysgu creadigol, neu ei ddarparu'n annibynnol. Y mwyaf nodedig yw'r galw gan athrawon, yn ogystal â cheisiadau Rhwydweithiau i ddarparu hyfforddiant dysgu creadigol y gellir ei ddefnyddio ar draws y cwricwlwm, gan ymestyn y tu allan i gylch gwaith gwreiddiol addysgu 'yn' y celfyddydau a defnyddio methodolegau creadigol a chelfyddydau mynegiannol i ddarparu addysgu ar draws ystod o bynciau.

> 'Mae elfen o'r hyn yr ydym yn ei wneud sydd wedi newid ychydig bach. Mae'n ymestyn allan o'r celfyddydau mynegiannol, sef y man cychwyn, ac mae'n archwilio'r posibiliadau o wneud gwaith traws-gwricwlaidd gan barhau i fod yn hyfforddiant yn y celfyddydau mynegiannol. Dyna y mae ysgolion ac athrawon yn dyheu amdano yn awr ac mae'n ffordd iddyn nhw ddechrau newid eu haddysgu. Gallai fod yn gerddoriaeth yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr drama ac yn cyfuno o fewn y maes celfyddydau mynegiannol. [Mae'n ymwneud ag] edrych ar y celfyddydau mynegiannol mewn ffordd fwy cyfannol heb anwybyddu ffyrdd o integreiddio â'r dyniaethau neu faes llythrennedd — mae drama yn mynd i gyfateb yn naturiol gyda llythrennedd.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.48 Awgrymodd staff y rhwydwaith ei bod hi'n anodd weithiau iddyn nhw gynnig y DPP yr oedd athrawon yn gofyn amdano yn awr. Yn benodol, roedd Cydlynwyr yn ystyried bod darpariaeth DPP dysgu creadigol a thraws-gwricwlaidd y tu hwnt i'w cylch gwaith. Nododd y Cydlynwyr bod y gwaith y gofynnwyd iddynt amdano ac y byddai cyfranogwyr yn hoffi ei weld yn cael ei ddarparu, yn gorgyffwrdd â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nhermau themâu a galluoedd. Wrth i ymyriadau ymwreiddio'n ddyfnach, nid yw'n anghyffredin gweld athrawon yn gweithio i integreiddio'r agendau celfyddydau a chreadigedd â'i gilydd, am fod hynny'n ffordd gynhyrchiol o symud rhwng rhai o'r gwahaniaethau sydd wedi eu sefydlu ers tro rhwng y celfyddydau ac addysg greadigol, neu rhwng athroniaethau academaidd a mynegiannol. Nid yw agweddau mwy integredig yn dewis ochrau mewn ymraniadau o'r fath. Mae athrawon yn canolbwyntio fwy ar yr hyn y mae Wakeford (2004) wedi

ei ddisgrifio fel 'y targed o ddod â'r celfyddydau yn gyfan gwbl ac yn amlochrog i mewn i helpu'r meddwl sy'n dysgu'.[18]

> 'Yr hyn sy'n ddiddorol yw ein bod yn gweithio gydag ysgolion i dreialu pethau, mae athrawon y celfyddydau mynegiannol yn siarad am weithio draw gyda meysydd dysgu a phrofiad y dyniaethau ac ieithoedd ac am weithio ar draws y cwricwlwm yn llawer mwy ac yn fwy eang. Mae'n ddatblygiad diddorol a naturiol. Rydym yn ei gael ychydig yn anodd, felly, i ymdrin â'r llinell ymrannu rhwng yr hyn sy'n ddysgu creadigol a'r hyn sy'n gelfyddydau mynegiannol. Dydy athrawon ddim o anghenraid yn gweld y ffiniau cymaint, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae'n rhaid i ni ddiffinio'r ffin hwnnw oherwydd mae'n ffin gyda'r rhaglen Ysgol Greadigol Arweiniol. Dydy athrawon ddim yn gweld y ffin hwnnw. Rydym yn gorfod llywio'r ymraniad hwnnw…' (Cyfweliad Cydlynydd y Rhwydwaith, 2019)

2.49 Roedd staff y Rhwydwaith eisiau ateb ceisiadau athrawon a darparu DPP mewn dysgu creadigol oedd y tu hwnt i'w cylch gwaith, am eu bod yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu hyfforddiant o'r fath, naill ai eu hunain neu ochr yn ochr â thimau Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ond, roedd eu dehongliad o'u rôl a'u canfyddiad o gyngor gan yr ACW yn awgrymu i rai pobl nad oeddent yn agored i agweddau integredig.

> 'Mae *pedagogies* penodol yn cael eu dysgu drwy *Lead Creative Schools*. Dwi'm yn deall sut na allwn ni gynnig hyfforddiant sy'n mynd ag athrawon dros y trothwy i bynciau eraill. Hynny yn *frustrating...* Pa bryd wyt ti'n gallu deud wrth athro i beidio mynd a drama  mewn i fyd gwyddoniaeth. Mae'n wastraff o gyfle. Mae'n rhwystro ni rhag mynd a'r cynllun cyfan i le ffantastig. Mae rhaid i ti adael i rhwydwaith ddatblygu i ymateb i'r bobl sydd ynddi. Dydyn nhw heb stopio ni rhag gwneud pethau, ond pan ni'n trio datblygu, mae'n glir yn gweud bendant na. Mae'n teimlo'n negyddol.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.50 Nododd personél y Consortiwm Addysg Rhanbarthol hefyd eu bod yn dymuno gweld y ddau linyn yn cael eu darparu gyda'i gilydd, ac yn fwyaf nodedig mewn perthynas â DPP dysgu creadigol trawsgwricwlaidd, sy'n cael ei ystyried yn eang yn rhywbeth y mae'r gymuned addysgu'n galw amdano. Ymhellach, roedd staff y

[18] Wakeford, M (2004) *A Short Look at a Long Past* yn Putting the Arts in the Picture, Ed. Rabin, N a Redmond, R, Colombia College Chicago

Consortiwm yn ystyried hyrwyddwyr celfyddydau yn gyfryngau neu'n ddarparwyr posibl yr hyfforddiant dysgu creadigol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

> 'Mae'n rhaid dod â'r hyfforddiant ar gyfer hyrwyddwyr celfyddydau ac ar gyfer yr Ysgolion Creadigol Arweiniol at ei gilydd fel ei fod yn hyfforddi arweinwyr creadigedd, yn hytrach na dau beth ar wahân.' (Cyfweliad â'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.51 Roedd y cydlynwyr hefyd yn credu bod ymlacio'r llinell ymrannu'n ffordd o ddatblygu cydlyniad y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a chynyddu'r effaith ar y proffesiwn addysg.

> 'Mae'n llinell y mae angen ei [ymrannu ychydig rhwng yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Rhwydweithiau] ond fel bod gennym hefyd yr un eirfa a phwyntiau cyfeirio. Ar y diwrnod dathlu cafwyd dathliad o'r elfennau rhyngddisgyblaethol a thrawsgwricwlaidd a dathlwyd ffordd arall o esbonio sut mae modd cyfuno'r celfyddydau fwy ar draws [y cwricwlwm]. Wel, mae angen eglurder ac mae angen cysylltu a rhannu hynny gyda'r Consortia Addysg, ac o bosib gydag Estyn a phawb, fel ein bod oll yn siarad am yr un pethau. Nawr, am fod athrawon yn dechrau cyfranogi ac yn gweld natur y cwricwlwm, mae'n ymwneud mewn gwirionedd â chael agwedd gyfannol ym mhopeth. Mae [athrawon] eisiau pylu'r ffiniau.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.52 Fodd bynnag, mae 'pylu'r llinell', fel y cyfeirir ato'n gyffredin ymysg staff a rhanddeiliaid y Rhwydwaith, yn cyflwyno heriau i staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y staff rheoli'n derbyn bod cydweithrediad a chyd-ddarparu'n digwydd mewn rhai achosion, ond bod y darlun yn amrywiol ar draws y pedwar Rhwydwaith. Yn ogystal, mae ACW yn pwysleisio'r ffaith fod angen o hyd am wella sgiliau a darparu *yn* y disgyblaethau celfyddydau, sef bwriad yr holl elfennau amrywiol o Linyn 2 y rhaglen, gan gynnwys gweithgareddau'r Rhwydweithiau. Efallai bod gwahanol Rwydweithiau'n ymateb i'r galw sy'n datblygu am fathau o DPP ar draws amrywiol gyd-destunau lleol, y mae rhai ohonynt yn chwilio'n gynyddol am ymasiad ac integreiddio rhwng yr agenda creadigedd a'r celfyddydau. Er bod staff ACW yn awgrymu nad oes llinell galed i ddangos lle gall DPP ddatblygu, neu lle na all ddatblygu mewn ffyrdd mwy integredig, mae barn eang a pharhaol ymysg Rhwydweithiau ei bod hi'n bwysig cynnal gwahaniad eglur rhwng y gwahanol linynau a'u hamcanion.

2.53 Atgyfnerthir hyn gan staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n mynegi pryder y byddai pylu'r ffiniau nid yn unig yn dyblygu'r hyn oedd yn cael ei ddarparu, ond y gallai hefyd beryglu'r gallu i werthuso a dilysu'r ddau fodel a ddefnyddiwyd yn y ddau linyn. O ganlyniad, mae'r staff rheoli'n eglur yn eu cyfiawnhad am y cyfyngiad, yn ogystal â'r angen i gynnal gwahaniad rhwng y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

> '[Mae] cydweithrediad amrywiol rhwng Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Rhwydweithiau. Mae wedi [digwydd] mewn rhai rhanbarthau ac nid mewn rhanbarthau eraill. Mae hyn yn anodd oherwydd rydym wedi dyrannu'r arian i ddau linyn. Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd hanner y cyllido. Aeth swm sylweddol — [£]10 miliwn — i mewn i'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd y Rhwydweithiau yn rhan o'r llinyn arall. Roedd angen i ni fod yn hollol glir nad oeddem yn dyblygu. Roeddem hefyd wedi cynllunio'r rhaglen i fod yn eglur ynghylch yr hyn yr oeddem yn ymdrin ag o. Addysg celfyddydau a chreadigedd.
>
> I ni mae'n ymwneud â'r cwestiwn 'A yw'r model hwnnw'n gweithio?'. Os byddem yn caniatáu i fathau eraill o fodelau creadigol ddod i mewn, byddai'n anodd dilysu'r model. Roedd rhesymau clir iawn pam yr oeddem wedi eu cadw nhw ar wahân. Roedd yn benderfyniad a wnaed a dyma oedd y penderfyniad cywir i'w wneud. Roedd angen i ni brofi ei fod yn gweithio.' (Cyfweliad â Rheolwyr y Cyngor Celfyddydau, 2019)

2.54 Yn y gorffennol, mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ystyried dod â'r ddau linyn yn agosach. Er bod y potensial i weithio'n agosach yn cael ei werthfawrogi, codwyd pryderon hefyd am ddyblygiad ac amharodrwydd y Rhwydweithiau i fabwysiadu model gwaith.

2.55 Cafodd y penderfyniad i ymlacio'r cyfyngiadau a chefnogi neu annog darpariaeth hyfforddiant dysgu creadigol traws-gwricwlaidd gan y ddau linyn ei wneud er mwyn rheolaeth strategol y rhaglen. Mae'r cyfiawnhad am beidio ag ymlacio'r cyfyngiadau wedi bod yn glir a chyson gan staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, sef diogelu cyfanrwydd a dilysrwydd y modelau darparu, yn ogystal ag osgoi'r risg o ddyblygiad. Fodd bynnag, mae staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, y rhanddeiliaid addysgol allweddol, a'r galw (canfyddedig) gan athrawon yn awgrymu y byddai ail edrych ar y cyfyngiadau a'u hymlacio yn galluogi darpariaeth ehangach o'r hyfforddiant dysgu creadigol trawsgwricwlaidd poblogaidd ac yn datblygu effaith a llwyddiannau'r ddau linyn.

2.56 Os bydd y cyfyngiadau'n cael eu hadolygu, efallai y bydd staff rheoli eisiau ystyried pwysau'r data a'r dystiolaeth sydd wedi cael eu casglu'n barod mewn perthynas â'r rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn ogystal ag i ba raddau y mae modd dilysu a dangos tystiolaeth yn barod o'r model a'i lwyddiannau.

*Cyfathrebiad*

2.57 Daeth Adroddiad 3 i'r casgliad bod staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydweithiau hefyd yn barnu bod modd gwella'r cyfathrebiad a'r dialog rhyngddynt. Roedd staff y Rhwydwaith yn awgrymu y byddent yn gwerthfawrogi ymgysylltiad dyfnach gyda'u gweithgareddau, tra bo staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru'n nodi y byddent yn elwa os byddai staff y Rhwydweithiau'n cyfathrebu'r anawsterau a gânt mewn ffordd fwy agored. Roedd yr adroddiad yn argymell (Argymhelliad 7) y dylid gwneud ymdrechion i wella'r cyfathrebu, gan awgrymu y dylai'r ddau bartner geisio a chynnig eglurder mewn perthynas â meini prawf monitro a data, cyfathrebu anawsterau a gânt, a rhannu profiadau a dysgu yn y fan a'r lle.

2.58 Nododd Adroddiad 3 hefyd bod canfyddiad o ddiffyg eglurder ynglŷn â chyfraniad sylfaenol y Rhwydweithiau neu eu canlyniadau i fuddiolwyr y tu hwnt i'r pum allbwn craidd. Credwyd bod diffyg eglurder wedi arwain at ddryswch. Roedd yr adroddiad yn argymell (Argymhelliad 5) bod rheolwyr yn rhoi gwybod i'r cydlynwyr rhwydweithiau beth yw eu gweledigaeth am gyfraniad sylfaenol y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol y tu hwnt i ddarparu'r pum allbwn craidd.

2.59 Ar adeg y cyfweliadau, roedd staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn cytuno bod y cyfathrebiad a'r berthynas rhwng y partïon wedi gwella. 'Mae'r cyfathrebu wedi gwella'n bendant dros y flwyddyn ddiwethaf'. (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019).

2.60 Fodd bynnag, mae'r ddau hefyd o'r farn bod rhai problemau cyfathrebu'n parhau. Yn arbennig, roedd staff rheoli'n awgrymu nad oedd staff y Rhwydweithiau'n gwerthfawrogi eu cyfrifoldebau'n ddigonol mewn perthynas â dangos tystiolaeth o effaith eu gweithgareddau.

> 'Mae problemau o hyd gyda chyfathrebu. Rydym yn sicr wedi ymdrin â llawer o'r problemau cyfathrebu. Rydym wedi bod yn glir iawn, iawn am yr hyn yr ydym ei angen ganddynt a chafwyd llawer mwy o gyfathrebu a chyfarfodydd ynghylch

disgwyliadau a'r hyn sy'n cael ei gyflawni. Mae diffyg dealltwriaeth o hyd ar ran y Rhwydweithiau eu bod yn atebol am y cyllido ac am effaith yr hyn maen nhw'n ei wneud. Rydym yn dal i'w gael yn gryn ymdrech.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

2.61 Awgrymodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru bod Rhwydweithiau'n amharod i ddangos tystiolaeth o'u llwyddiannau a rhannu tystiolaeth fanwl o'u heffaith gyda staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru.

'...maen nhw'n dweud nad oeddent wedi disgwyl gorfod darparu'r lefel o fanylder; mae hynny'n fy synnu, o ystyried faint o arian a gynigir iddyn nhw. Rydym wedi egluro hynny ac wedi ffurfioli hynny ac wedi cydnabod hynny.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

2.62 Yn ôl staff y Rhwydweithiau, roedd y sefyllfa wedi gwella rhywfaint ac un rheswm mawr am hynny oedd y cyfarfodydd a drefnwyd rhwng rheolwyr a staff y Rhwydweithiau, ond roedd problemau'n parhau oedd yn effeithio ar y darparu a'r cynllunio. Roedd rhai Cydlynwyr yn llai positif nag eraill, ond roedd un broblem gyffredin yn ymwneud â thôn a natur y cyfathrebu gyda staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd amrywiaeth y barnau'n amlwg mewn cyfweliadau a wnaed gydag aelodau'r staff o'r gwahanol Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

'[Mae gennym] berthynas dda gyda [staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru]. Maen nhw'n brysur iawn, felly rydym wedi bod yn ceisio cael cyfarfodydd a chanfod amser i'w dreulio wyneb yn wyneb, ond mae'n anodd. Fodd bynnag, byddwn i'n dweud (yn gyffredinol) ei bod hi'n berthynas gyfeillgar a chefnogol.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

'Gall fod ychydig yn llym weithiau a does dim rhaid iddo fod. Rwy'n gwybod faint maen nhw'n gorfod gorweithio a'u bod nhw o dan bwysau heb ddigon o staff i ddarparu'r ddarpariaeth yng Nghyngor Celfyddydau [Cymru]. Ond credaf y byddai perthynas gynhesach yn well… Does dim rhaid iddyn nhw wisgo eu hwynebau proffesiynol. Mae angen iddyn nhw fod yn llai amddiffynnol ac efallai weithio ar y berthynas sydd ganddynt â phobl. Byddai dialog parhaus yn llawer mwy cynhyrchiol, a dialog cynnes hefyd … Byddai cael trafodaeth cyn i'r bidiau fynd i mewn yn llawer mwy defnyddiol, yn hytrach na'r broses ffurfiol iawn o

gyflwyno rhywbeth ac yna ddod yn ôl gydag adborth.’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.63 Mynegodd staff y rhwydwaith rywfaint o rwystredigaeth tuag at agweddau arbennig o reolaeth y rhaglen, yn fwyaf nodedig nad oedd y rheolwyr yn gwerthfawrogi nac yn deall natur y gwaith oedd yn cael ei wneud gan Rwydweithiau, gan adleisio sylwadau a wnaed yn flaenorol ynghylch y ffaith nad oedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru’n cael eu hysbysu am effeithiau a llwyddiannau.

‘[Hoffwn] fwy o gydnabyddiaeth i’r gwaith sy’n digwydd. Hoffwn iddyn nhw ddod i siarad gyda’r bobl sy’n dod ar ein cyrsiau… Mae angen i raglen greadigol fod yn ymarferol — mae angen iddyn nhw fod yn fwy ymarferol…. Ydyn nhw eisiau mwy o ddeialog neu ddim ond ein cyllido ni? Dydy’r teimlad cyffrous hwnnw ddim yno.’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.64 Problem bellach sy’n parhau i gael ei effeithio gan gyfathrebu ac efallai negeseuon cymysg oedd y mater o gynllunio ar gyfer y gwaddol a’r cyfnod ar ôl y cyllido. Mae’r mater hwn yn cael ei drafod yn fanwl mewn adran ddiweddarach o’r adroddiad hwn. Yn fyr, awgrymodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru eu bod wedi nodi’n glir ac yn gyson eu disgwyliad y byddai’r Rhwydweithiau’n darparu manylion am eu cynllunio ar ôl cyllido ac yn arwain yn y gwaith o gynnal gwaddol o effaith a gweithgarwch.

2.65 Roedd un sylw cyffredin gan staff y Rhwydwaith yn ymwneud â dymuniad am fwy o eglurdeb a gweledigaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â gwaddol y rhaglen a’r llinyn a’u cyfeiriad yn y dyfodol. Gellid disgwyl hyn o bosib, o ystyried bod penderfyniadau heb gael eu gwneud mewn perthynas â’r gwaddol a’r dyfodol ar amser yr ysgrifennu. Mae hyn yn cyferbynnu gyda dymuniad Cyngor Celfyddydau Cymru i gael mwy o eglurdeb ynghylch yr un materion gan y Rhwydweithiau.

‘Byddai’n dda cael syniad clir gan Gyngor Celfyddydau [Cymru] a’r llywodraeth, ac (mae’n debyg) gan y Consortia, ynglŷn â lle maen nhw’n gweld y Rhwydweithiau’n eistedd. Ydyn nhw’n gweld y Rhwydweithiau’n parhau? Ac, os felly, ydyn nhw’n annibynnol neu ydyn nhw’n eu hystyried nhw’n gorff cenedlaethol? Oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod beth yw eu gweledigaeth, mae angen i ni oll ddod ynghyd a thrafod beth allai’r weledigaeth fod a beth sy’n bosibl.’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2019)

2.66 Gan edrych i'r dyfodol, mae staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eisiau arweiniad eglur gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â'u gweledigaeth am ddyfodol y Rhwydweithiau. Ymhellach, roedd staff y Rhwydwaith yn dymuno agwedd fwy anffurfiol tuag at gyfathrebu a phroses ymgeisio gynhesach, fwy cydgynghorol. Mae hyn yn awgrymu, ochr yn ochr â sylwadau a wnaed yn ystod cyfweliadau, bod staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn deall bod y berthynas reoli wedi ei seilio ar gydymffurfiad — Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn cydymffurfio gyda gofynion adrodd a darparu penodol Cyngor Celfyddydau Cymru.

2.67 Fodd bynnag, mae'r ymatebion a'r adroddiad blaenorol yn awgrymu hefyd yr honnir bod y berthynas ar drefniant cyflenwr neu wasanaeth — perthynas wedi'i seilio ar gydymffurfiad — ond ei bod, mewn gwirionedd, wedi cael ei hadeiladu a'i diffinio i raddau mawr gan y Rhwydweithiau eu hunain. Yn nhermau'r weledigaeth, y cynnwys a'r sicrwydd ansawdd, felly, er nad yw'n fonitro, mae'r Rhwydweithiau'n atebol iddynt eu hunain yn hytrach nag i Gyngor Celfyddydau Cymru. Efallai bod hyn yn achosi i densiwn godi rhwng yr hunanreolaeth y mae'r Rhwydweithiau'n teimlo sydd ganddynt i ddarparu mewn amrywiol ffyrdd, yn sensitif i anghenion lleol, a'r gofyniad i ddangos gwerth am arian mewn ffyrdd sy'n ymddangos yn sefydlog a digyfnewid. Mae'r Rhwydweithiau wedi dod i'r farn nad yw mathau cyfredol o weithgareddau monitro o bosib yn casglu'r holl werth y maent yn ei ychwanegu, tra bo ACW yn honni bod atebion ffurf hir yn rhoi'r cyfle i ddisgrifio'r elfennau mwy ansoddol y mae Rhwydweithiau wedi eu darparu, ond mai defnydd bychan y mae Rhwydweithiau (yn gyffredinol) yn ei wneud o'r cyfleoedd hyn.

2.68 Yn y bwlch sydd wedi agor, mae'r Rhwydweithiau'n gofyn am arweiniad ynghyd â dilysrwydd i'w dull gan ACW, tra bo'r ACW yn gofyn am gynigion mwy manwl a chadarn am gyfeiriad a gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn y dyfodol gan staff y Rhwydweithiau. Ymhellach, mae staff y Cyngor Celfyddydau Cymru'n disgwyl i staff y Rhwydweithiau fod yn fwy rhagweithiol yn y ffordd y maent yn dangos llwyddiannau eu gweithgareddau. Yn y pen draw, mae hyn yn awgrymu, er ei fod yn adlewyrchu data'r cyfweliad hefyd, bod staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweld y berthynas yn wahanol i staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Maen nhw'n gweld y berthynas fel un sydd wedi ei seilio ar fframwaith a ddarparwyd ganddyn nhw eu hunain, sy'n rhoi'r rhyddid i Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol weithredu fel y maen

nhw'n ei ystyried yn addas o fewn y fframwaith hwnnw, er bod gan staff y Rhwydweithiau hyn ar yr un pryd y cyfrifoldeb clir am ddangos tystiolaeth o'u llwyddiant yn ogystal â'r ddarpariaeth.

2.69 Mae barn rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i chefnogi gan y ddogfen arweiniad cychwynnol sy'n nodi fframwaith eglur lle gall y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol gael y rhyddid i weithredu. Fodd bynnag, efallai bod natur y fframwaith o ganolbwyntio ar weithgareddau, yn ogystal â gofynion monitro sy'n mynd yn gynyddol benodol ac sydd wedi eu canolbwyntio ar gyflawni targedau, wedi cyfrannu at y syniad ymysg staff y Rhwydweithiau bod y berthynas wedi ei seilio ar eu cydymffurfiad â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

2.70 Un pryder allweddol yw'r effaith y gallai perthynas reoli ei chael ar baratoadau ar gyfer cynllunio gwaddol a gweithgareddau posibl yn y dyfodool. Wrth i bob partner edrych ar ei gilydd i gael arweiniad am gynllunio gwaddol, mae risg na fydd paratoadau'n cael eu gwneud, na fanteisir ar lwyddiannau, ac y bydd effaith dymor hir bosibl y rhaglen yn lleihau.

*Llwyddiannau ac effaith*

2.71 Canfu'r theori newid, y tu hwnt i ganlyniadau ar draws y rhaglen gyfan, bod tri chanlyniad interim penodol ar gyfer Llinyn 2 sy'n canolbwyntio ar athrawon yn arbennig. Dyma nhw:

1) Mae ymwybyddiaeth athrawon o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgu a dysgwyr yn cynyddu

2) Mae athrawon yn newid y ffordd y maen nhw'n addysgu, lle maen nhw'n cynyddu eu defnydd o agweddau creadigol; ac

3) Mae athrawon yn ymgysylltu â gweithgareddau celf a chreadigol y tu allan i'r ysgol. Dylai'r canlyniadau interim hyn arwain at y canlyniadau terfynol.

Yn y cyfamser, dyma'r canlyniadau i'r artistiaid:

1) Mae ymwybyddiaeth artistiaid o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgu a dysgwyr yn cynyddu; ac

2) Mae cynnydd yn y cyflenwad gwasanaethau i ysgolion o'r tu mewn i'r sectorau celfyddydau. Bydd y rhain yn arwain at y canlyniadau terfynol mewn perthynas â'r canlynol:

a) Artistiaid a sefydliadau celfyddydau yn dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol; a

b) Newidiadau o fewn y modelau artistiaid a sefydliadau celfyddydau (hunan effeithiolrwydd).

2.72 Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r holl ddata a gasglwyd gan staff y Rhwydwaith ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel y nodwyd yn ystod Adroddiad 3, mae'r amcanion sydd wedi eu hamlinellu ar gyfer y Rhwydweithiau'n weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. Yn fwy na hynny, roedd Adroddiad 3 yn argymell (Argymhelliad 6) y dylai ffynonellau pellach o ddata gael eu sefydlu sy'n cyfrif yn ogystal â chymhwyso perthnasedd darpariaeth y Rhwydweithiau ar gyfer ysgolion ac athrawon.

2.73 Roedd adroddiadau blaenorol yn nodi hefyd bod y data monitro a gasglwyd yn ymwneud â lefelau'r gweithgaredd a'r niferoedd sy'n cyfranogi yn hytrach na'r effaith y mae gweithgareddau o'r fath wedi ei chael ar y buddiolwyr. I ryw raddau, efallai bod y ffocws ar gasglu a darparu data monitro wedi bod yn ffactor sy'n cyfyngu ar allu staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i werthuso eu gweithgareddau eu hunain; mewn geiriau eraill, neilltuir amser i gasglu ac adrodd ar ddata monitro yn hytrach na fel tystiolaeth o'r effaith ar fuddiolwyr.

2.74 Yn ogystal â gofyn am allbynau rhifyddol, gofynnodd rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru i'r holl Rwydweithiau gasglu astudiaethau achos yn dangos effaith eu gweithgareddau. Nid oedd yr astudiaethau achos hyn ar gael ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn ond, ond os bydd Rhwydweithiau'n ymgysylltu â'r cyfle i ddangos tystiolaeth o'u gwaith mewn ffyrdd mwy ansoddol, gan ddisgrifio eu dulliau a'u hagweddau a'u canfyddiad o'r effeithiau cychwynnol, gallai helpu i wrthbwyso'r ddibyniaeth a welant ar fetrigau sydd wedi eu gyrru gan dargedau.

2.75 Wrth adolygu'r data monitro a gwerthuso am y gweithgareddau sydd wedi eu darparu gan y Rhwydweithiau, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru'n fodlon fod pob Rhwydwaith wedi cyflawni ei dargedau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017–2018, ac ni chodwyd unrhyw bryderon am y flwyddyn academaidd 2018–2019.

2.76 Roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydwaith yn awgrymu bod gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi arwain at lwyddiannau ac effeithiau clir ar y buddiolwyr addysgiadol, addysgu ac artistiaid. Mynegodd y ddau'r farn bod y cymorth y mae Rhwydweithiau Celfyddydau

ac Addysg Rhanbarthol wedi ei roi i ysgolion ac athrawon wrth iddyn nhw baratoi'r gweithlu i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn llwyddiant allweddol.

2.77 Roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod gallu Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol i gysylltu ysgolion ac athrawon gydag artistiaid, sy'n hwyluso cyfranogaeth artistiaid mewn ysgolion ac yn hwyluso cymorth athro-i-athro drwy'r cynllun hyrwyddwyr celfyddydau, yn gryfder arbennig.

2.78 Rhoddwyd sylw penodol hefyd i'r cymorth a roddwyd i ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

> 'Cryfderau? Eu gallu i gysylltu ysgolion gyda sefydliadau celfyddydau. Y cymorth athro-i-athro ac mae hynny'n gymorth o safon uchel… Rhoi cyfleoedd i ysgolion i drosglwyddo a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac mae'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn darparu hynny ar draws y rhaglen. Yr hyn y mae'r Rhwydweithiau yn ei wneud yw galluogi ysgolion i ddefnyddio arbenigwyr.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

2.79 Yn y cyfamser, roedd mwy o arlliw yn ymatebion staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, oedd yn awgrymu bod rhai agweddau o'u gwaith yn fwy effeithiol nag eraill. Yn fwyaf cyffredin, pennwyd cymorth athro-i-athro'r hyrwyddwyr celfyddydau a'r ddarpariaeth DPP yn agweddau allweddol o'u llwyddiannau.

> 'Credaf mai [dyma'r] gwaith a wnawn, ac rwy'n realistig nad yw rhywfaint o'r hyn a wnawn yn hanfodol, ond mae'r hyrwyddwyr celfyddydau a DPP ac adnoddau'n mynd i fod yn gynyddol werthfawr i'r athrawon hynny sydd ond yn clywed yn awr y byddent yn gyfrifol am gelfyddydau mynegiannol. Ar y cyfan, does ganddyn nhw ddim syniad sut mae ysgol greadigol yn edrych na sut beth yw creadigedd yn y cwricwlwm. Credaf ein bod mewn sefyllfa wych i ddarparu'r cymorth hwnnw. Rydym yn rhoi gweithdai at ei gilydd fwy a mwy i esbonio i bobl sut mae'n mynd i edrych. Felly, pan ddaw Estyn i ofyn iddyn nhw ddangos creadigedd yn yr ysgol, maen nhw'n gwybod am beth maen nhw'n siarad ac maen nhw'n gallu ei wneud e.' (Cyfweliad â Chydlynwyr Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.80 Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, y DPP sy'n ennyn yr adborth mwyaf positif gan athrawon i'r cydlynwyr rhwydwaith, ochr yn ochr â'r hyrwyddwyr celfyddydau.

> 'Credaf fod y math o hyfforddiant a gynigiwn yn hanfodol, hyfforddiant sy'n para fwy nag un diwrnod. Mae'n dyfnhau'r hyn a gynigiwn. Y cam nesaf yw datblygu a

sicrhau effaith ddyfnach a chynnig cymorth sy'n para'n hirach.' (Cyfweliad â Chydlynwyr Rhwydwaith, 2019)

2.81 Nododd personél y Consortiwm Addysg Rhanbarthol hefyd, gyda chyfeiriad at DPP a'r hyrwyddwyr celfyddydau, bod yr adborth yr oeddent wedi ei dderbyn wedi dangos effaith ar athrawon ac addysgeg.

> 'Mae'r holl adborth gwerthuso, yn ddieithriad, yn eithriadol o bositif, nid "Cefais ddiwrnod da" yn unig, ond "Mae wedi cael effaith ar y ffordd maen nhw'n addysgu" — oll yn cyfrannu tuag at helpu disgyblion i wneud cynnydd.' (Cyfweliad Addysg Rhanbarthol y Consortia, 2019)

2.82 Mae'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn casglu adborth gan gyfranogwyr a buddiolwyr. Mae detholiad o'r sylwadau hyn ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru ac i'r gwerthusiad hwn drwy ffurflenni monitro. Er bod y sylwadau a ddarperir yn bositif yn aml iawn, nid yw pob un ohonynt yn ymwneud â chanlyniadau; at hynny, mae'r rheiny a gynigir yn awgrymu bod enghreifftiau lle mae DPP yn arbennig wedi dylanwadu ar y ffordd y mae rhai athrawon yn ymdrin â'u haddysgu, a lle mae rhai athrawon yn bwriadu rhoi eu dysgu ar waith. Mae Atodiad 2 yn cynnig detholiad o ymatebion adborth.

2.83 Roedd staff y Rhwydweithiau hefyd yn awgrymu bod yr effaith ar lesiant a brwdfrydedd athrawon yn arwydd o lwyddiant pellach. Mae hyn hefyd yn gyson â chanfyddiadau o adroddiadau blaenorol. Roedd staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn nodi bod tystiolaeth o'r effaith i'w gweld nid yn unig yn yr adborth a ddarparwyd ond hefyd yn agweddau'r athrawon mewn digwyddiadau. Roedd o leiaf un Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn y broses o gasglu astudiaethau achos i gefnogi'r dasg o ddangos tystiolaeth o'r effaith hon.

> ''Dwi wedi gweld esiamplau cadarn o athrawon yn teimlo'n *excited*, wedi gadael yr hyfforddiant a'i ddefnyddio [yr hyn y maent wedi ei ddysgu] yn y dosbarth, yn argymell yr hyfforddiant i bobl eraill. Mae'r pecyn hyfforddiant yn dal I fod yn boblogaidd – celfyddydau yn y cyfnod Sylfaen – ar ôl dwy flynedd mae'r cwrs dal yn llenwi... ['dwi] wrthi'n creu rhestr o engrheifftiau a *case studies*. (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.84 Nododd staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol hefyd bod yr effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydau yn dod yn fwy gweladwy. Mae

tystiolaeth o’r effaith hon hefyd, i ryw raddau, yn yr astudiaethau achos a gyflwynwyd isod.

> ‘Pobl amgueddfa Genedlaethol, Llen Cymru, Ty Newydd. Heb os yn codi ymwybyddiaeth a pwyntio sefydliadau I’r cyfeiriad cywir o’r ran anghenion y cwricwlwm newydd. Artistiaid unigol hefyd heb os. Mae nhw i gyd yn llawer fwy *geared up* i wybod beth mae ysgolion angen pan mae’r cwricwlwm newydd yn dod. Os fyddwn ni’n bennu fory, hynny fydd y peth mwyaf gwerthfawr, fod nhw’n gwybod beth sydd ar yr agenda. (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.85 Roedd data o’r arolwg o athrawon ac artistiaid a gyflwynwyd yn yr adroddiad diwethaf yn awgrymu bod y lefelau boddhad yn arbennig o uchel ymysg yr athrawon ac artistiaid hynny oedd wedi defnyddio’r Rhwydweithiau a’u gwasanaethau neu gymorth. Fodd bynnag, er eu bod yn bositif am y cymorth, nid oedd y nifer a ymatebodd i’r cwestiynau yn yr arolwg cyfredol wedi darparu sampl rhesymol (31).

2.86 Yn ystod cam y gwaith maes, lansiwyd arolwg o athrawon oedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau gan Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol; ond, roedd maint bychan y sampl ar adeg y dadansoddiad wedi cyfyngu ei werth i’r adroddiad hwn. Bydd yr arolwg yn aros yn agored tan yr adroddiad nesaf gyda’r nod o sefydlu sampl mwy cadarn o ymatebion.

2.87 Mae’r data’n awgrymu lefelau uchel o foddhad gyda pherfformiad y Rhwydweithiau. Mae lle i gynhyrchu data o well safon, fodd bynnag, er mwyn cyflwyno darlun mwy cadarn o’r effaith y mae gweithgareddau’r Rhwydweithiau wedi ei chael. Mae staff y Rhwydwaith a staff rheoli’n fodlon bod y Rhwydweithiau’n darparu, tra bo athrawon sy’n ymgysylltu â’r Rhwydweithiau’n fodlon gyda’r ddarpariaeth sy’n cael ei darparu.

2.88 Mae diffyg data gan fuddiolwyr mewn perthynas ag effaith gwasanaethau a gweithgareddau Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn parhau i fod yn wendid allweddol ac yn sialens sy’n wynebu’r llinyn (fel y disgrifir mewn adran ddiweddarach). Felly, mae’n rhaid ystyried y dasg o ddangos tystiolaeth o’r effaith y mae wedi’i gael (ac y mae’n ei gael) ar athrawon ac artistiaid yn her allweddol yn ystod blwyddyn derfynol ei weithrediad. Er bod y data ansoddol gan staff rheoli a rhanddeiliaid ehangach yn awgrymu bod y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn cael effaith, mae prinder data i gynrychioli barn buddiolwyr yn cyfyngu ar y casgliadau hyn.

*Cyfleoedd, heriau a risgiau*

2.89 Datgelodd y cyfweliadau nifer o feysydd lle'r oedd y llinyn yn wynebu cyfleoedd neu heriau. Mae rhai wedi eu trafod mewn adrannau blaenorol, megis y posibilrwydd o waith agosach rhwng y ddau linyn, yn ogystal â'r potensial i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol neu'r hyrwyddwyr celfyddydau ddarparu neu gyd-ddarparu hyfforddiant dysgu creadigol ar draws y cwricwlwm. Mae'r heriau a ddaw oherwydd anawsterau cyfathrebu wedi eu trafod hefyd mewn adran bwrpasol.

2.90 Yr her allweddol i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yw dangos tystiolaeth gadarn o'u heffaith ar athrawon ac ysgolion. Er bod yr ymchwil a wnaed i gefnogi'r gwerthusiadau'n cynnig rhywfaint o fewnwelediad i effaith gweithgareddau'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol hyd yn hyn, nid yw'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu hunain wedi cynhyrchu corff sylweddol o ddata sy'n tystio i'w heffaith mewn ffordd sy'n gysylltiedig â'r theori newid ar gyfer y rhaglen a'r llinyn.

2.91 Er bod rhai Rhwydweithiau wedi dechrau'r broses o gasglu esiamplau ac astudiaethau achos, mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru wedi mynegi rhwystredigaeth ynglŷn â'r prinder tystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Mae'r diffyg tystiolaeth hwn yn arbennig o berthnasol, o ystyried bod y broses o gynllunio ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol a sicrhau gwaddol yn elwa o dystio o'r fath. Mae ACW felly o'r farn bod Rhwydweithiau eisiau cael eu harwain i mewn i ddyfodol y mae angen iddynt ei ddyfeisio iddynt eu hunain i raddau mawr. Ym marn ACW, nid yw'r Rhwydweithiau'n dangos eu bod yn cynllunio ymlaen llaw drwy gasglu tystiolaeth ar gyfer dangos effaith eu gwaith nac, o'r herwydd, i ddadlau y dylent barhau wedi i'r rhaglen ddod i ben.

2.92 Cytunodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru y gallent fod wedi gwneud rhagor i sicrhau bod y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn casglu data gwerthuso. Awgrymodd y staff bod hyn yn cael ei annog pan oedd y Rhwydweithiau'n cael eu llunio a'u datblygu, er nad oedd byth yn ofyniad eglur. Mae hyn yn datgelu gwendid posibl yn null y fframwaith o reoli'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ac yn caniatáu rhywfaint o ryddid i Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ddatblygu eu gweithgareddau eu hunain yn ogystal â'u gweithgareddau casglu data eu hunain.

> ‘Mae hynny’n rhywbeth na [wnaethom] ni ond byddem wedi annog iddo gael ei adeiladu i mewn. Mae’n un o’r pethau hynny y tybiwyd y byddai’n digwydd ond heb y sicrhad.’ (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

2.93 Mae daearyddiaeth Cymru wedi ei amlygu mewn adroddiadau blaenorol fel sialens i rai o’r Rhwydweithiau. Cydnabu’r ACW y ffactor hwn wrth annog Rhwydweithiau i lunio eu rhaglenni o weithgareddau wedi eu seilio ar anghenion lleol. Mae hyn wedi ei gadarnhau mewn data monitro a chyfweliadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae Edau a NAWR (Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru) wedi cael y dasg o ddarparu gweithgareddau i ardal ddaearyddol fawr gyda phoblogaeth wedi’i gwasgaru. Mae agwedd NAWR tuag at ddigwyddiadau rhwydweithio wedi ei heffeithio’n arbennig gan faint y rhanbarth, yn ogystal â’r gwahaniaeth a’r ystod o gymunedau addysgol a gynrychiolir gan y rhanbarth. Mae cynnal digwyddiadau sy’n gyfleus o ganolog neu hygyrch wedi bod yn sialens, ac mae dyblygu digwyddiadau mewn gwahanol leoliadau yn parhau’n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr holl athrawon ac artistiaid yn derbyn cyfleoedd tebyg.

2.94 Roedd y staff rheoli a darparu’n ystyried gwahaniaethau cynhenid sy’n deillio o gynllun a chynnig y pedwar Rhwydwaith yn fantais glir, fel y gwelwyd mewn adroddiadau blaenorol. Fodd bynnag, mae’n ymddangos bod consensws yn datblygu ymysg rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol mewn perthynas â’r syniad bod un Rhwydwaith unigol drwy Gymru gyfan yn cynnig mwy o botensial, gan felly awgrymu opsiwn neu gyfle posibl ar gyfer y dyfodol.

> ‘Fyddwn i ddim yn ystyried ymestyn y model arbennig hwn. Yn sylfaenol, mae angen ystyried y Rhwydweithiau yn rhan o’r darlun mwy.’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.95 Mae’r data monitro sy’n nodi nifer y cyfranogwyr a chofrestriad mewn digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio yn cadarnhau barn staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol bod gan Rwydweithiau estyniad eang ac enw cynyddol dda am ddarparu DPP perthnasol i athrawon o fewn eu rhanbarthau. Mae estyniad ac enw da Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn dod i’r amlwg fel cryfder allweddol ac yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygu’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn y dyfodol neu ymhellach fel llwyfannau neu strwythurau ar gyfer darparu hyfforddiant, rhwydweithio neu wasanaethau eraill yn y dyfodol.

2.96 Fodd bynnag, mae un risg gydamserol i'r potensial hwn yn deillio o'r ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y Rhwydweithiau a'r posibilrwydd y bydd staff, gwybodaeth a phrofiad allweddol yn cael eu colli. Mae staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn awgrymu y daw hi'n gynyddol debygol, wrth i ansicrwydd barhau am ffurf y Rhwydweithiau neu eu gweithgareddau yn y dyfodol, y bydd personél allweddol yn cael eu colli. Trafodir y mater hwn yn fanylach yn yr adran nesaf, ond, fel y dywed un Cydlynydd:

> 'Dyna un o'r problemau. Mae angen i ni wybod [gan Gyngor Celfyddydau Cymru] neu bydd pobl yn dechrau gadael. Mae angen i mi wybod. Dydw i ond yn rhaglennu tan fis Rhagfyr. Mae angen i mi wybod erbyn mis Mawrth a fydd yr arian yno, am fyd mod yn rhaglennu ar gyfer hynny yn awr.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.97 Efallai y bydd cydweithrediad agos gyda Chonsortia, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas ag Edau a GwE, yn cynnig model ar gyfer y dyfodol. Fel darparwr DPP yn y celfyddydau mynegiannol, sy'n cael ei werthfawrogi gan y Consortia, yn ogystal â bod yn ganolbwynt i rwydwaith o ymarferwyr creadigol a sefydliadau celfyddydau sy'n datblygu, mae'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol mewn sefyllfa dda i gefnogi darpariad hyfforddiant i baratoi ar gyfer darparu'r Cwricwlwm i Gymru. O ystyried y gwerth y mae'r Consortia'n dweud eu bod wedi'i rhoi i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a'u darpariaeth o DPP yn y celfyddydau mynegiannol, gallai'r Consortia ddod yn ffynhonnell o gymorth ac ariannwr neu gyd-ariannwr posibl i weithgareddau'r dyfodol.

> 'Rydym hefyd wedi siarad am y cwricwlwm celfyddydau mynegiannol ac wedi edrych ar y bylchau rhwng y pethau y gofynnir iddyn nhw eu darparu a'r pethau y gallent eu darparu, ac mae Cyngor Celfyddydau [Cymru] mewn lle da i gefnogi'r uwchsgilio a'r hyfforddiant. A allai Cyngor Celfyddydau [Cymru] fod mewn lle da i gefnogi ysgolion gyda hynny?' (Cyfweliad â'r Consortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

*Gwaddol a chynaliadwyedd*

2.98 Mae gwaddol a chynaliadwyedd y gweithgareddau a'r effeithiau, a'r cynllunio ar gyfer y rheiny, wedi dod yn bwnc dadl rhwng staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae dadlau o'r fath

yn deillio o ddisgwyliad sydd gan y ddau bartner y bydd y llall yn cymryd yr awennau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd gweithgareddau ac effeithiau.

2.99 Nododd Cydlynwyr y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol nad oedd yr amgylchedd ariannu'n ffafriol ar gyfer y celfyddydau ar hyn o bryd, gan awgrymu bod Cyngor Celfyddydau Cymru'n allweddol o ran cynnal y cyllid ar gyfer y gweithgareddau celfyddydol. Mae cynlluniau'r dyfodol a'r berthynas gyda Chyngor Celfyddydau Cymru'n dod i'r amlwg yn y cyd-destun hwn fel elfennau sy'n allweddol i sicrhau effeithiau tymor hir a gweithgareddau y tu hwnt i fywyd y rhaglen.

> Os ydych yn codi arian ar gyfer y celfyddydau ar hyn o bryd, mae'r cyfleoedd yng Nghymru'n gyfyngedig iawn. Mae'r holl arian cymunedol yn mynd i mewn i chwaraeon. Meddyliwch am y siopau ar lefel leol - byddent bob amser yn ariannu'r cit pêl-droed lleol, ond byth y sefydliadau celfyddydau lleol. Does dim gwerthfawrogiad iddynt. Dyna pam ei bod hi mor anodd ariannu'r celfyddydau. Byddent yn ariannu rygbi ond nid arddangosfa. Does gennym ni ddim rhoddwr corfforaethol mawr i ariannu'r prosiectau hyn.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.100 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dweud yn gyson bod eu gallu a'u hadnoddau eu hunain ar gyfer cynnal gweithgareddau yn y dyfodol yn gyfyngedig ac y bydd angen eu cyfiawnhau. At hynny, os bydd cefnogaeth o'r fath ar gael o gwbl, bydd ar lefel llawer is. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n disgwyl i gyfiawnhad a chynlluniau'r dyfodol gael eu datblygu a'u cyflwyno gan y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu hunain.

> 'Rydym yn glir iawn. Ni allem gyfathrebu'n fwy eglur nag yr ydym yn awr… Rydym wedi bod yn gofyn i [Rwydweithiau] ddechrau meddwl am waddol. Rydym wedi bod yn glir iawn erioed mai 2020 yw'r stop ar gyfer y Rhwydweithiau, heblaw eu bod yn eu sefydlu eu hunain fel rhywbeth na allwn ei golli … Mae'n rhaid i hynny ddod ganddyn nhw yn awr… Rydym wedi bod yn annog yr holl Rwydweithiau i ystyried yn annibynnol sut y byddent yn cynnal y gwaith y byddent yn ei ddarparu. Byddwn wedi disgwyl iddynt oll fod â rhyw fath o gynllun cynaliadwyedd o'r cychwyn un i ddweud sut y byddent yn parhau neu a oedd ganddynt fwriad i barhau. Dylai Rhwydweithiau fod yn ystyried beth yw eu huchelgeisiau posib.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

Yn y cyfamser, dywedodd Cydlynwyr y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu bod eisiau arweiniad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â mewnbwn gan randdeiliaid eraill mewn perthynas â'u dyfodol a beth oedd ei angen.

'Byddai'n dda cael syniad clir gan Gyngor Celfyddydau [Cymru] a'r llywodraeth, a'r Consortia hefyd mae'n debyg, ynglŷn â lle maen nhw'n gweld y Rhwydweithiau'n eistedd. Ydyn nhw'n gweld y Rhwydweithiau'n parhau? Ac os felly, ydyn nhw'n annibynnol neu ydyn nhw'n eu hystyried yn gorff cenedlaethol? Oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod beth yw eu gweledigaeth, mae angen i ni i gyd ddod at ein gilydd a thrafod beth allai fod yn weledigaeth a beth sy'n ymarferol.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

'Byddwn ni'n licio gwybod beth mae'r llywodraeth yn meddwl dylai ysgolion wneud gyda'r arian hyfforddiant. Y teimlad yw mae *LCS* fydd yn cario ymlaen, er mod i'n teimlo'n bod ni'n gryf iawn yn y [ein rhanbarth ni]. (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.101 Er nad oes cadarnhad swyddogol — ar adeg y gwaith maes — mewn perthynas â pharhad y llinyn LCS yn y dyfodol, roedd rhai Cydlynwyr Rhwydwaith yn credu y byddent yn parhau mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Mae'n ymddangos bod hyn yn eu gwneud yn fwy rhwystredig fyth ynghylch y ffaith nad yw dyfodol y Rhwydweithiau wedi ei setlo eto.

'…dydyn ni ddim wedi cael unrhyw adborth ond does dim disgwyliadau chwaith… i wybod yr hyn y byddai [Cyngor Celfyddydau Cymru] yn ei hoffi ar gyfer y Rhwydweithiau. Byddai gwell cyfathrebiad yn ddefnyddiol yn nhermau tawelu meddyliau pobl.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.102 Mae cynllunio gweithgareddau'r dyfodol a gwaddol yn debygol o ofyn amser ac adnoddau oherwydd natur strwythurol rhai Rhwydweithiau sydd ag ystod o fyrddau'n cyfarwyddo gweithrediadau neu'n cyfranogi fel rhanddeiliaid. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach yr angen am eglurder mewn perthynas â chynlluniau'r dyfodol gynted ag y bo modd, er mwyn osgoi'r risg y bydd aelodau staff allweddol, gwybodaeth a phrofiad yn cael eu colli, fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol.

2.103 Mynegodd Cydlynwyr y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol rwystredigaeth hefyd â natur y berthynas gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r

broses o ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cafodd y mater hwn ei archwilio mewn adran flaenorol; ond, mae rhagor o ddata wedi'i ddarparu i ddangos a rhoi manylion rhwystredigaethau o'r fath.

> 'Diw'n siomedig fod y cwestiwn o'n cynlluniau ni at y flwyddyn nesaf wedi dod fel amod ariannu y flwyddyn yma i ni. Ddim yn credu fod y Cyngor Celfyddydau wedi meddwl y peth trwodd i'r pen draw yn glir. 'Dyw hi dim yn glir beth mae nhw eisiau i ni wneud ychwaith.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.104 Nododd staff a Chydlynwyr rhai Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu bod, er hynny, wedi bod yn paratoi ac yn datblygu adnoddau neu ddefnyddiau hyfforddi a fyddai'n parhau i fod ar gael wedi i'r llinyn ddod i ben, a thrwy hynny sicrhau bod yr effaith a'r cyfraniad i uwchsgilio athrawon yn parhau.

> 'Rydym yn gweithio i ddatblygu adnoddau neu ddefnyddiau neu sesiynau hyfforddi neu fideos sy'n cyflwyno ffyrdd hawdd o fynd i mewn i sesiynau drama neu gelf sy'n gallu sbarduno'r sgiliau sydd ar y cwricwlwm heb iddo fod yn fygythiol i athro sydd ddim yn arbenigwr. Yr un cerddoriaeth oedd y cyntaf a daeth hwnnw gan yr hyrwyddwr celfyddydau, sy'n arbenigwr mewn cerddoriaeth. Mae sesiynau diwrnod HMS a mentora wedi dod allan o'r gweithgor hwnnw o hyrwyddwyr [celfyddydau] oedd yn datblygu'r gwaith hwnnw. Mae grŵp drama'n cael ei ffurfio gennym [hefyd].' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

> 'Roedd hi wastad yn ein cynllun ni fod pobl ddim yn ddibynnol arnom ni. Ni'n meddwl bod ni wedi bod yn llwyddiannus iawn a sicrhau fod y celfyddydau ar dop yr agenda.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

*Hyrwyddwyr Celfyddydau*

2.105 Roedd datblygiad yr hyrwyddwyr celfyddydau yn ofyniad i'r holl Rwydweithiau. Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu, fel y bwriadwyd yn y cynllun cychwynnol, bod yr hyrwyddwyr celfyddydau'n gweithredu ychydig yn wahanol ar draws y Rhwydweithiau. Barn yr holl Rwydweithiau oedd bod y rôl yn parhau i ddatblygu. Mae'r adran hon yn cynnig y diweddariad cyntaf am gynnydd hyrwyddwyr celfyddydau a bydd yn canolbwyntio ar amlinellu sut y maen nhw'n gweithredu mewn gwirionedd.

2.106 Fel cydran bellach o Linyn 2, gall ysgolion enwebu aelod o staff i gymryd rôl yr Hyrwyddwr Celfyddydau a Chreadigedd Ysgol. Y person hwn oedd i fod yn gysylltiad rhwng eu hysgol a'r cyfleoedd oedd ar gael drwy'r Rhwydwaith Rhanbarthol. Yn wreiddiol, disgwylid i'r hyrwyddwyr celfyddydau fod yn athrawon profiadol yn y celfyddydau. Byddai eu hysgolion yn cael eu hariannu i'w rhyddhau nhw i dreulio cyfnodau byr o amser yn hybu arferion gorau, yn cefnogi eraill i fabwysiadu dulliau tebyg, a/neu yn dod ag eraill i mewn i'w hysgol i'w gwylio ac i ddysgu. Ymhellach, gall artistiaid a sefydliadau celfyddydau/diwylliant wneud y rôl hon.

2.107 Mewn gwirionedd, gofynnir i athrawon neu artistiaid yn anffurfiol cyn y broses enwebu. Roedd yr Hyrwyddwyr Celfyddydau eu hunain naill ai'n athrawon, artistiaid neu'n unigolion yn gweithio yn y diwydiant celfyddydau. Roedd rhai Rhwydweithiau'n penodi athrawon yn unig i rolau hyrwyddwyr celfyddydau, tra bo eraill yn dewis cymysgedd o bersonél.

2.108 Ystyriwyd bod Hyrwyddwyr Celfyddydau yn cyflawni nifer o rolau mewn gwirionedd yn ystod y 12-18 mis cyntaf. Roedd y rolau hyn yn amrywio rhwng Rhwydweithiau, gan weithredu fel 'broceriaid' arferion da neu'n mynd ar ymweliadau mwy dwys i ysgolion er mwyn cefnogi datblygiad y ddarpariaeth celfyddydau a chynlluniau gwaith.

2.109 Mae Tabl 2.4 isod yn amlinellu nifer  sesiynau a nifer yr ymgysylltiadau.[19] Mae'r data'n awgrymu bod rhywfaint o amrywiaeth yn y gymhareb o ymgysylltiadau fesul sesiwn, gan bwyntio felly at y gwahanol agweddau ar draws y Rhwydweithiau. Mae Edau yn tueddu i gadw nifer yr ymgysylltiadau fesul sesiwn yn weddol isel a chyson, gan gynnwys dim ond oddeutu pedwar ymgysylltiad ar gyfartaledd i bob sesiwn. Ar y llaw arall, mae A2:Connect yn tueddu i gynnal sesiynau sy'n amrywio yn eu maint, gan gynnwys rhai sesiynau sy'n galluogi i fwy o ymgysylltiadau gael eu gwneud (h.y. mwy o athrawon yn yr ystafell). Un esiampl o'r rhain fyddai'r sesiwn yn Ysgol Gynradd y Barri a fynychwyd gan 22 o athrawon. Er bod yr un sesiwn unigol hwn yn gyfystyr â 22 ymgysylltiad, mae angen rhagor o ddata i asesu a yw'r math hwn o ymgysylltiad yn gyfatebol â nifer o sesiynau gyda nifer llai o athrawon. Hyd nes

[19] Diffinnir ymgysylltiadau fel y nifer o berthnasoedd mentora/rhwng cymheiriaid sy'n cael eu ffurfio rhwng Hyrwyddwr Celfyddydau ac athro, faint bynnag fo'r nifer o sesiynau. Er enghraifft, mae 1 Hyrwyddwr Celfyddydau, ac 1 athro yn cydweithio am 3 sesiwn yn cyfrif fel 1 ymgysylltiad.

bydd data fel hyn ar gael, mae'n dal i fod yn anodd gwneud cymhariaethau rhwng y Rhwydweithiau.

**Tabl 2.4: Hyrwyddwyr Celfyddydau, cyfanswm nifer y sesiynau ac athrawon**

| | Sesiynau | Ymgysylltiadau | Cymhareb (Ymgysylltiadau fesul Sesiwn) | Gwyriad Safonol |
|---|---|---|---|---|
| A&E SEW | 10 | 47 | 4.7 | 4.5 |
| Edau | 13 | 49 | 3.8 | 0.6 |
| NAWR | 4 | 25 | 6.3 | 2.0 |
| A2:Connect | 13 | 92 | 7.1 | 8.3 |

Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru

2.110 Mae Tabl 2.5 yn nodi'r nifer o ymgysylltiadau fesul blwyddyn academaidd. Yn ystod eu blwyddyn academaidd gyntaf o weithredu gyda'r nifer gyflawn, arweiniodd hyrwyddwyr celfyddydau y pedwar Rhwydwaith 99 o gyfleoedd i ymgysylltu cymheiriad-i-gymheiriad.

**Tabl 2.5: Hyrwyddwyr Celfyddydau, nifer y sesiynau fesul blwyddyn academaidd**

| Blwyddyn Academaidd | Nifer y Sesiynau |
|---|---|
| 2016–2017 | 9 |
| 2017–2018 | 99 |
| 2018–2019 | 3 |

Ffynhonnell: Data monitro Cyngor Celfyddydau Cymru

2.111 Mae hyn yn cefnogi'r data ansoddol sy'n nodi amrywiaeth yn y mathau a'r dwyster o ymgysylltiadau gan hyrwyddwyr celfyddydau. Mae Edau, er enghraifft, yn cynnig cymorth tymor hirach i ysgolion ac athrawon, gyda hyrwyddwyr celfyddydau'n gwneud nifer o ymweliadau ac yn cynnal cefnogaeth a pherthnasau gydag ysgolion neu athrawon dros gyfnod estynedig o oddeutu chwe mis. Yn y cyfamser, mae A2:Connect wedi cynnig sesiynau hyfforddi 'unwaith yn unig' i nifer o athrawon.

2.112 Mae cyfweliadau a wnaethpwyd gyda hyrwyddwyr celfyddydau yn ogystal ag aelodau staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi cyfoethogi'r darlun o weithgareddau hyrwyddwyr celfyddydau ar lawr gwlad ymhellach. Yn fwy diweddar, mae'n ymddangos bod rhywfaint o gydgyfeirio wedi digwydd wrth i hyrwyddwyr celfyddydau ar draws y Rhwydweithiau dueddu i gyflawni rolau tebyg. Yn fwy amlwg yw cydgyfeiriad a ffocws y gweithgareddau o amgylch y Cwricwlwm i Gymru ac o ran cefnogi'r trosglwyddiad tuag at, a'r paratoad

ar gyfer, darparu'r gydran celfyddydau mynegiannol yn y cwricwlwm newydd. Mae rhai Hyrwyddwyr Celfyddydau eu hunain wedi cefnogi datblygiad dogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru drwy rolau eraill, gan eu rhoi mewn sefyllfa dda i gefnogi trosglwyddiad athrawon.

2.113 Mae'r Hyrwyddwyr Celfyddydau eu hunain yn awgrymu bod newid nodedig wedi digwydd yn agweddau'r ysgolion a'u penaethiaid tuag at y celfyddydau ac, felly, y gefnogaeth y mae Hyrwyddwyr Celfyddydau yn ei chynnig. Mae'n debyg bod hyn yn berthnasol rhywsut i amlygrwydd y celfyddydau mynegiannol yn y Cwricwlwm i Gymru.

> 'Mae newid mawr wedi digwydd yn agweddau'r ysgolion a'r penaethiaid. Cyn i'r [Consortiwm] ddod, nid oedd ysgolion yn rhoi llawer o bwys ar y Rhwydwaith, ond ers i'r [Consortiwm] ddod, mae ei statws gyda phrifathrawon wedi gwella'n fawr. Mae athrawon wedi gweld y gwerth erioed, ond dim ond ers i'r [Consortiwm] ddod i mewn y mae penaethiaid wedi gweld y gwerth a'r pwysigrwydd, am fod [Consortia] yn mynd o gwmpas yn trafod ein gwaith.' (Cyfweliad â Hyrwyddwyr Celfyddydau, 2019)

2.114 Mae tystiolaeth hefyd bod ffocws rhai hyrwyddwyr celfyddydau wedi bod ar addysgeg ac ar ddulliau mwy creadigol o addysgu. Yn wir, nododd personél y Consortiwm a'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol mai gyda gwaith yr hyrwyddwyr celfyddydau i raddau mawr yr oeddent wedi gweld potensial y croesi rhwng y llinynnau a drafodwyd mewn adran flaenorol, ac er mwyn i hyrwyddwyr celfyddydau ddarparu elfen o hyfforddiant mewn dysgu creadigol ar draws y cwricwlwm.

> 'Mae gwaith yr 'hyrwyddwyr celfyddydau' wedi ymwneud yn fawr iawn â chyrraedd a chefnogi staff a chymorthyddion dosbarth fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r offer neu'n cychwyn sesiwn y ffordd y byddai ymarferwyr yn ei wneud o bosib, gan wneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus ynglŷn â darparu a gweithio yn yr arddull hwn. Mae'n llawer tebycach i waith yr Ysgol Greadigol Arweiniol — yn rhoi athrawon wrth y llyw.' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.115 Yn fwy cyffredin ar y cam hwn o'r prosiect, mae hyrwyddwyr celfyddydau'n debyg i gynghorwyr addysgu neu fentoriaid i athrawon neu adrannau unigol. Mae gwahaniaethau'n parhau, fodd bynnag, a hynny i raddau mawr mewn perthynas â hyd yr amser y mae hyrwyddwyr celfyddydau'n ei dreulio fel arfer gydag athrawon neu ysgolion. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae hyrwyddwyr celfyddydau'n cynnal ymweliadau neu sesiynau unwaith yn unig tra'u bod, mewn eraill, yn cynnal ymyriad estynedig ac yn datblygu perthynas dymor hirach gydag athrawon, adrannau neu ysgolion.

2.116 Mewn rhai rhanbarthau, mae'r bartneriaeth gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn ganolog i weithrediad yr hyrwyddwyr celfyddydau. Mae NAWR, er enghraifft, yn gweithio gydag ERW i godi proffil pynciau celfyddydau mewn ysgolion lle bo'r angen, yn ogystal â chynyddu'r Rhwydwaith o ymarferwyr arweiniol. Yn GwE/Edau, fodd bynnag, mae Consortia yn pennu ysgolion sydd angen neu sy'n gofyn am gymorth mewn perthynas ag addysgu'r celfyddydau mynegiannol, ac mae Edau yn darparu hyrwyddwyr celfyddydau addas i weithio am gyfnod o amser gydag ysgolion.

> 'Mae'r tîm [o hyrwyddwyr celfyddydau] wedi aros yr un fath ac maent wedi datblygu eu sgiliau ac rydym wedi edrych ar ffyrdd o ddewis ysgolion. Y llynedd roeddem wedi sefydlu rhaglen i weithio ar ddod ag ysgolion band melyn at ei gilydd â [hyrwyddwyr celfyddydau] am ei bod hi'n amlwg nad oedd ysgolion band melyn yn codi eu dwylo [h.y. yn gofyn am gymorth]. Roedd hyn yn gyfle i hyrwyddwyr celfyddydau weithio gyda'r Consortiwm, ac maen nhw'n ychwanegu gwerth go iawn gyda'u cynnig, ond hefyd i alluogi mynediad…Roedd pawb wedi synnu at yr adborth a gawsent ac wedi plesio'n fawr. Eleni rydym yn symud ymlaen i ddefnyddio hyrwyddwyr celfyddydau i "hyfforddi'r hyfforddwyr" — i bennu athrawon cryf yn y celfyddydau a chynnig rhagor o hyfforddiant [iddynt i ddod yn hyfforddwyr athrawon eraill yn eu tro]. (Cyfweliad â Chydlynwyr Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, 2019)

2.117 Mae athrawon wedi rhoi adborth positif yn gyson yn dilyn ymgysylltiad â hyrwyddwyr celfyddydau. Cyfeiriwyd yn aml at ddatblygu sgiliau a hyder fel prif ganlyniad ymgysylltiad o'r fath.

‘Cyn dod ar y cwrs, roedd celf yn bwnc oedd yn cael ei symud i’r neilltu gennyf fi. Byddwn i’n gwneud sesiwn unwaith bob blwyddyn ella, neu cyn i Estyn ffonio. Ro’ ni’n teimlo ‘mod i angen rhywbeth, yn arbennig gyda’r cwricwlwm newydd. Daeth [Athro X] fel yr *Arts Champion* ac ar ôl trafodaeth gwnaeth hi eistedd fi lawr fatha disgybl a dweud “reit, bore ‘ma, fi ydy’r athrawes a chdi ydy’r disgybl a ‘da ni’n mynd drwy bob dim.” Ar ôl y bore yna ro’ ni’n teimlo ‘mod i’n gwybod beth ro’ ni eisiau gwneud efo’r disgyblion. Felly ges i fynd ar lawr y dosbarth ac just bod yn greadigol, bod yn arbrofol. Roedd yr hwyl ges i fel athro a’r hwyl gafodd y plant – dwi’n credu fod hynny’n cael ei ddangos yn y gwaith terfynol. Fedra i ddim coelio ‘mod i wedi cynhyrchu hyn efo’r plant. ‘Dwi rŵan yn gallu uniaethu efo’r plant achos ‘dwi wedi cael fy rhoi allan o’m *comfort zone* yma. Dwi’n gwybod mae dyna ‘da ni’n gofyn i’r plant i wneud felly dwi’n gallu uniaethu mwy gyda’r plant ac os ydyn nhw angen cyflawni rhywbeth, mae nhw angen y sgiliau i fedru wneud hynny. Yn bendant mae’r cwrs yma wedi newid yn ffordd o feddwl i. Bron iawn ry’ ni’n  son am feddylfryd twf efo plant, wel mae hynny’n gweithio efo mi. Does dim un pwnc nawr dwi’n meddwl fod angen i mi rhoi i’r neilltu. (Cyfweliad Astudiaeth Achos ag Athrawon Edau, 2019)

2.118 Mae data o’r Arolwg Athrawon yn awgrymu bod athrawon yn arbennig o fodlon gyda’r hyrwyddwyr celfyddydau. Roedd pob ymateb (100%) yn dweud bod y gwasanaeth yn rhagorol.

2.119 Roedd yr heriau neu wendidau a nodwyd gan y bobl a gyfwelwyd yn tueddu i ymwneud â diffyg presenoldeb neu ddiffyg amlygrwydd naill ai’r hyrwyddwyr celfyddydau eu hunain neu’r cynnig Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol cysylltiedig ar draws y rhanbarth. Er ei fod yn werthfawr, mae’r galw potensial am ragor o hyfforddiant a chefnogaeth gan hyrwyddwyr celfyddydau’n llawer iawn mwy na’r hyn y gellir ei ddarparu’n realistig o fewn yr amser gan y timau o hyrwyddwyr celfyddydau o fewn y rhanbarth.

2.120 Mae’r ffaith hon hyn wedi ei chefnogi gan ddata sy’n ymwneud ag ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Dim ond 35 y cant o artistiaid ac 18 y cant o athrawon sydd wedi ymgysylltu â’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol sy’n ymwybodol o’r cynllun hyrwyddwyr celfyddydau. Mae hyn yn awgrymu ei bod hi’n bosibl i’r gwasanaeth gael ei hyrwyddo, hyd yn oed ymysg athrawon sydd wedi ymgysylltu’n barod gyda rhai agweddau o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau yn fwy cyffredinol.

2.121 Mae'r Hyrwyddwyr Celfyddydau'n parhau i gael eu hystyried yn wasanaeth cymorth effeithiol a gwerthfawr gan reolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, cydlynwyr y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, a rhanddeiliaid. Yn ogystal, mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, oedd yn adleisio'r sylwadau a wnaed gan rai aelodau o staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, yn nodi eu bod yn ystyried yr hyrwyddwyr celfyddydau'n wasanaeth cymorth y byddent yn hoffi ei weld yn parhau y tu hwnt i oes y rhaglen.

> 'Mae rhywbeth ynglŷn â'r hyn a gynigir i ni nad ydym eisiau ei golli. Dylid ei gydnabod. Yn sicr, rwy'n clywed ac yn deall bod y negeseuon hynny'n cyrraedd fel rhai o werthoedd y Rhwydweithiau. Ac mae'r hyrwyddwyr celfyddydau yn sicr yn dod allan o hynny, ynghyd â DPP gwirioneddol lwyddiannus.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

> 'Yr hyn sydd wedi bod yn dda hefyd yw'r gwaith gyda'r hyrwyddwyr celfyddydau, y cydweithrediad hwnnw a'r ffaith bod ysgolion yn gwybod bod pobl allan yno, pobl broffesiynol sydd â'r sgiliau nad oes gan yr ysgolion mohonynt — mae'r agwedd honno wedi bod yn llwyddiannus iawn.' (Cyfweliad â Chonsortia Addysg Rhanbarthol, 2019)

## 3. Cronfa Profi'r Celfyddydau

3.1 Lluniwyd Cronfa Profi'r Celfyddydau i annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i 'fynd gam ymhellach' yn eu harchwiliad o brofiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Mae'n cynnwys dwy elfen: Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol. Lansiwyd y ddwy elfen ym mis Mawrth 2016.

*Cynllun a rheolaeth Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol*

3.2 Mae Ewch i Weld yn rhoi cyfle i ysgolion wneud cais am grantiau bach, unwaith yn unig o hyd at £1,000 i dalu am ymweliadau unigol â digwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol o safon uchel mewn safleoedd ledled Cymru. Gallai'r profiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau er mwyn cael profiad o bobl broffesiynol yn y celfyddydau'n datblygu a chreu eu gwaith.

3.3 Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y gronfa wedi ei llunio i fod yn brofiad 'cyffyrddiad ysgafn' o'i gymharu â'r broses ymgeisio fanwl ar gyfer Cydweithio Creadigol. Roedd staff rheoli rhaglenni Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod yr agwedd hon yn parhau'n briodol ar gyfer maint y grantiau sydd ar gael.

3.4 Mae Cydweithio Creadigol yn rhaglen sydd wedi ei bwriadu i ddod ag ysgolion a sefydliadau celfyddydau a diwylliant at ei gilydd i weithio ar brosiectau arloesol. Mae grantiau rhwng £5,000 a £25,000 wedi bod ar gael i ariannu hyd at 90% o gost prosiect.

3.5 Hefyd, cyflwynodd staff rheoli rhaglenni Cyngor Celfyddydau Cymru grant 'blasu' (sef grant rhwng £5,000 a £7,500) i brosiectau llai eu maint oedd ag elfen gref o arbrofi a/neu gymryd risgiau creadigol.

3.6 Arweinir ceisiadau gan y sefydliadau celfyddydau a gan ysgolion. Gwrthodwyd rhai ceisiadau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf am nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf e.e. prosiectau oedd yn debyg neu yn union yr un fath â'r prosiectau blaenorol neu gyfredol ac nad oeddent yn cyfateb â'r meini prawf ar gyfer y gronfa. Fodd bynnag, canfu adroddiadau blaenorol bod ansawdd ac addasrwydd y ceisiadau wedi gwella dros amser.


3.7 Mae'r broses ymgeisio wedi cynnwys tair rownd lle gall yr ysgolion a sefydliadau celfyddydau wneud cais am gyllid. Dywedodd staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru (wrth werthuso'r cynllun) bod tair rownd wedi bod yn anodd eu rheoli, yn arbennig am fod Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol wedi cael eu rheoli gan ddefnyddio cyllideb gyfun. Roedd y ceisiadau ar sail "cyntaf i'r felin" (gyda cheisiadau'n cael eu derbyn drwy'r flwyddyn gron ar sail dreigl ar gyfer Ewch i Weld), gan olygu bod llai o gyllideb yn weddill ar gyfer rownd derfynol Cydweithio Creadigol. Penderfynwyd felly y byddai'r broses ymgeisio ar gyfer Cydweithio Creadigol y flwyddyn ddilynol yn cynnwys dwy rownd.

*Cynnydd a darpariaeth*

3.8 Roedd adroddiadau blaenorol wedi archwilio dosbarthiad y grantiau a gymeradwywyd a'r ysgolion yng Nghymru fesul chwartel MALIC. Canfu'r adroddiadau hyn bod dosbarthiad y grantiau Ewch i Weld yn cynrychioli'r pedwar chwartel. Ymhellach, nodwyd bod y grantiau Cydweithio Creadigol heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn ysgolion yn y 25% o wardiau gyda'r amddifadedd isaf yng Nghymru ac roeddent wedi eu gor-gynrychioli yn y trydydd chwartel. Roedd yr ystadegau hyn yn adlewyrchu tueddiadau blaenorol. Nid oedd data ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019 yn galluogi dadansoddiad o'r fath. Roedd cyfweliadau gyda staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n awgrymu bod y sefyllfa'n annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol.

3.9 Cynhyrchodd yr Arolwg Athrawon ac Artistiaid ddata am eu hymwybyddiaeth o Gronfa Profi'r Celfyddydau a'u hymwneud â hi. Dosbarthwyd yr arolwg ymysg athrawon oedd naill ai'n ymwneud yn uniongyrchol – neu oedd yn gweithio mewn ysgol oedd yn ymwneud – â Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau trwy gyfrwng gweithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol. Felly mae'r sampl o 124 o athrawon yn cynrychioli ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o rai agweddau o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos bod oddeutu hanner (50%) yr athrawon ac ychydig dros hanner yr artistiaid (56%) a arolygwyd yn ymwybodol o'r gronfa. Mae hyn yn awgrymu cynnydd bychan iawn mewn ymwybyddiaeth ymysg athrawon a gostyngiad bychan iawn mewn ymwybyddiaeth ymysg artistiaid o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r data'n tynnu sylw at y ffaith bod lle o hyd i hyrwyddo'r gronfa ymhellach, hyd yn oed ymysg athrawon sydd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn fwy cyffredinol.

Ffigur 3.1: Ydych chi'n ymwybodol o Gronfa Profi'r Celfyddydau? (Ewch i Weld neu Cydweithio Creadigol)





Ffynhonnell: Arolwg Athrawon ac Artistiaid 2019

Athrawon N=124 | Artistiaid N=133

3.10 Mae Ffigur 3.2 hefyd yn defnyddio data o'r Arolwg Athrawon ac Artistiaid mewn perthynas â barn yr un athrawon am y gronfa. Mae'r data'n awgrymu lefelau uchel o foddhad gyda'r broses grant a gyda chanllawiau gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Ffigur 3.2: Barn athrawon ac artistiaid am Gronfa Profi'r Celfyddydau




Ffynhonnell: Arolwg Athrawon ac Artistiaid 2019

N=257

*Cydweithio Creadigol*

3.11 Mae dau gant ac ugain o ysgolion yng Nghymru wedi elwa o grant Cydweithio Creadigol hyd yn hyn — neu byddent wedi elwa erbyn diwedd y rhaglen. Gallai un grant fod yn gysylltiedig â nifer o ysgolion. Mae Tabl 3.1 isod yn amlinellu lledaeniad grantiau a gymeradwywyd gan Gonsortia ac, ynghyd â Ffigur 3.2 uchod, yn awgrymu bod ysgolion sy'n gysylltiedig â'r grantiau'n cynrychioli poblogaeth ehangach ysgolion.


**Tabl 3.1: Nifer yr ysgolion yn y Cydweithio Creadigol**

| **Nifer yr Ysgolion (fesul rhanbarth)** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhanbarth | Nifer | % | % o'r ysgolion yng Nghymru |
| GwE | 74 | 34% | 32% |
| ERW | 88 | 40% | 38% |
| EAS | 22 | 10% | 12% |
| CCD | 36 | 16% | 18% |
| **Cyfanswm** | **220** | | |

Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

3.12 Mae Ffigur 3.3 isod yn cyflwyno data sy'n ymwneud â'r nifer o ysgolion sy'n cyfranogi a oedd yn is, oddeutu yr un fath (o fewn +/- 3%) ac yn uwch na'r cyfartaledd Prydau Ysgol am Ddim (PYADd) cenedlaethol.

Ffigur 3.3: %PYADd ysgolion sy'n cyfranogi




Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

3.13 Gyda'i gilydd, mae £1,196,612 wedi ei ddyfarnu hyd yn hyn. Maint y grantiau ar gyfartaledd yw £14,417, sy'n awgrymu bod pobl yn ffafrio grantiau sy'n is na'r cyfyngiad o £25,000. O ystyried hynny ochr yn ochr â'r awgrymiadau gan staff rheoli bod y ceisiadau yn y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar gyfer prosiectau mwy arbrofol a chymryd risgiau, mae hyn yn awgrymu bod y grantiau 'blasu' wedi bod yn addas. Nid yw hyn yn awgrymu, fodd bynnag, nad ydy pobl yn ceisio'r grantiau llawn o £25,000, am fod 16 o grantiau yn amrywio o £24,000–25,000 wedi eu dyfarnu.

3.14 Gyda'i gilydd, mae 14,779 o ddisgyblion wedi elwa o'r grant drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys oddeutu tri chwarter y nifer o ddisgyblion sydd wedi elwa o'r grant Ewch i Weld, sy'n gyfartal â gwariant o oddeutu £81 i bob disgybl sy'n cymryd rhan. Ar gyfartaledd, roedd 255 o ddisgyblion yn cymryd rhan ymhob prosiect.

3.15 Mae'r prosiectau'n denu gwahanol ystod o ddisgyblion o ran eu nifer, yn amrywio o 12 o ddisgyblion mewn un prosiect i 1,920 mewn un arall. Mae amrywiaeth fel hyn yn awgrymu bod y raddfa uchel o hyblygrwydd o fewn canllawiau'r grant yn ateb anghenion ysgolion.

3.16 Ymhellach, mae nifer y disgyblion sydd wedi ymgysylltu yn awgrymu bod y grant yn gallu cefnogi prosiectau dwys iawn gyda grwpiau bach o ddysgwyr, fel y gwelwyd yn astudiaeth achos Canolfan y Gors isod. Mae'r prosiectau hyn yn darparu lefel o ymgysylltiad rhwng artistiaid a dysgwyr sy'n gymaradwy â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn ogystal, ac fel sydd wedi ei ddangos hefyd yn yr astudiaethau achos, mae'r prosiectau hyn mewn rhai sefyllfaoedd wedi bod yn drawsgwricwlaidd yn eu hagwedd, gan o bosibl bylu'r ffin rhwng y llinynau yn y rhaglen sydd â ffocws ar y celfyddydau ac sydd â ffocws ar greadigedd.

3.17 Gyda'i gilydd, gellir adnabod 63 o sefydliadau celfyddydau unigol hefyd o'r ddogfennaeth gynllunio, gan ddangos eu bod wedi chwarae rôl arwyddocaol yn y prosiectau ac wedi helpu i feithrin cydweithrediad dwfn. Fodd bynnag, mae cyfweliadau gydag athrawon ar gyfer astudiaethau achos a gyda staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn awgrymu bod cyfranogaeth neu rôl rhai sefydliadau celfyddydau ac artistiaid (mewn rhai sefyllfaoedd o leiaf) wedi mynd heb eu cofnodi yn y ddogfennaeth. Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys ymweliadau gan ddisgyblion â sefydliadau celfyddydau a sgyrsiau gan artistiaid yn rhan o brosiectau ehangach; felly, efallai nad yw rhai o'r cyfarfodydd llai dwys wedi eu cofnodi ochr yn ochr â'r gwaith sydd wedi ei seilio fwy ar bartneriaeth.

*Cydweithio Creadigol: Cymhellion a datblygiad bidiau grant*

3.18 Er bod grantiau wedi eu dyfarnu i ystod o ysgolion a sefydliadau sy'n ceisio ymgysylltu mewn amrywiaeth o weithgareddau, roedd rhai elfennau tebyg ymysg yr ymgeiswyr llwyddiannus mewn perthynas â'u cymhellion i wneud cais am gyllid. Roedd ysgolion yn aml yn ceisio'r grant er mwyn talu am ymyriad sy'n cynnwys artistiaid a sefydliadau celfyddydau a fyddai'n datblygu'r gallu i addysgu'r celfyddydau mynegiannol.

3.19 Mae natur ac ansawdd ceisiadau wedi datblygu dros y blynyddoedd tuag at yr hyn a ragwelwyd yn wreiddiol gan reolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y meini prawf gwreiddiol oedd yn fwriadol agored wedi ennyn nifer o geisiadau gan sefydliadau celfyddydau oedd yn brin o'r gwreiddioldeb ac arloesi oedd yn ddymunol gan reolwyr.

3.20 Credir bod y dull o gefnogi ceisiadau grant wrth ddatblygu a mireinio ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus. Dywedodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, ac roedd cyfweliadau gyda derbynwyr grantiau wedi datgelu, bod y gwaith o fireinio cynigion grant oedd wedi ei yrru gan adborth wedi arwain at geisiadau ac, o ganlyniad, dyfarnwyd grantiau oedd yn adlewyrchiad gwell o'r rheiny yr oedd y rheolwyr yn eu dymuno.

3.21 Ar ben hynny, wrth i fuddiolwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol ddod â'u hymgysylltiad gyda'r cynllun i ben a cheisio rhagor o gyllid er mwyn datblygu prosiectau tebyg, roedd eu ceisiadau am y grant Cydweithio Creadigol wedi adlewyrchu'r mathau o brosiectau yr oedd staff rheoli wedi gobeithio eu cael yn wreiddiol. Mae hyn yn awgrymu bod ysgolion ac athrawon yn myfyrio ar eu dysgu, yn newid eu hagwedd ac yn datblygu prosiectau mwy arloesol ar gyfer cefnogi addysgu a dysgu. Yn ogystal, datgelodd cyfweliadau astudiaethau achos bod yr ymgysylltiad blaenorol gyda'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi profi'n hanfodol mewn rhai sefyllfaoedd i ysgogi ymgysylltiad â'r grant. Yn wir, mae'r grant Cydweithio Creadigol wedi dangos ei hun, yn y cyswllt hwn, yn ddull pwysig i athrawon ddatblygu'r hyn y maen nhw wedi ei ddysgu o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ymhellach.

3.22 Yn olaf, credwyd gan y staff rheoli, ac adlewyrchwyd mewn cyfweliadau gyda Chydlynwyr Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a derbynwyr y grant Cydweithio Creadigol, bod Rhwydweithiau'n hyrwyddo'r grant yn effeithiol.

*Cydweithio Creadigol: Llwyddiannau a chyfyngiadau*

3.23 Roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn fod pob dyfarniad grant unigol, yn ei hanfod, yn rhaglen wedi'i theilwra'n benodol a ddatblygwyd o amgylch y prif heriau i ysgolion a sefydliadau celfyddydau unigol. Ystyrir y prosiectau yn rhan o gyfres ehangach o ymyriadau y mae ysgolion yn eu cymryd yn eu blaen er mwyn ymdrin â blaenoriaethau a heriau. Ni ellir gwahanu eu heffaith oddi wrth ymyriadau eraill, ac nid yw'r effaith y cynlluniwyd ar ei chyfer yn gymaradwy ar draws y prosiectau. O ganlyniad, nid yw'n bosibl gwneud gwerthusiad cadarn o effaith y grant yn ei gyfanrwydd, a thrwy hynny gyfyngu ar y gallu i gyffredinoli a chymharu. Ond, mae'r data monitro a'r data a gyflwynir isod yn cynnig rhywfaint o gipolwg ar ddigwyddiadau penodol a'r ystod o effeithiau a llwyddiannau y mae'r grant wedi ei ysgogi ar lefel prosiectau unigol.

3.24 Yn y pen draw, mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn credu mai'r ffaith na ellir darparu tystiolaeth o lwyddianau ar draws y rhaglen gyfan sy'n berthnasol i bob un, neu o leiaf y mwyafrif, o dderbynwyr y grant yw cyfyngiad mwyaf arwyddocaol y grant Cydweithio Creadigol. Am na ellir dangos tystiolaeth o lwyddiant yn gryno, mae'r ceisiadau posibl yn debygol o ddod gan ysgolion, athrawon a sefydliadau celfyddydau sy'n tueddu i archwilio dulliau o gydweithio'n arloesol yn barod er mwyn datblygu addysgu'r celfyddydau mynegiannol neu addysgu drwy'r celfyddydau mynegiannol. 'Gallwch ddeall Ewch i Weld yn hawdd ac allwch chi ddim gwneud hynny gyda Chydweithio Creadigol a deall y dyfnder a'r budd y mae'n ei gynnig.' (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019).

3.25 Mae'r data o gyfweliadau a'r holl astudiaethau achos sydd wedi eu cyflwyno isod yn awgrymu bod yr unigolion hynny sy'n darparu arweiniad a'r impetws i ymgysylltu â'r grant a datblygu neu weithredu prosiectau yn rhannu nodwedd gyffredin, sef eu bod yn eu gweld eu hunain, neu fod arweinwyr neu reolwyr ysgol yn eu gweld nhw, yn gefnogwyr brwdfrydig i ddysgu creadigol a/neu'r celfyddydau mynegiannol.

3.26 Mae'n rhaid bod natur yr ysgolion a'r athrawon sy'n ymwneud â'r grant yn cymedroli'r syniad bod modd ailadrodd llwyddiannau ymysg y boblogaeth ysgol ehangach. Credir bod cefnogwyr brwdfrydig dysgu creadigol a/neu'r celfyddydau mynegiannol yn gatalyddion hanfodol ac yn gyrru ceisiadau a phrosiectau. Efallai nad yw'r athrawon hyn yn bresennol ymhob ysgol. Gallai'r grant Cydweithio

Creadigol apelio at y “rhai sy’n gwneud fel arfer”. Efallai y byddai adroddiadau pellach yn dymuno archwilio neu brofi hynny.

3.27 Soniodd y staff a’r cyfranogwyr am ystod o lwyddiannau. Roedd y staff rheoli’n awgrymu bod y prosiectau mwyaf llwyddiannus ac effeithiol yn ymwneud yn gryf ac yn eglur o’u cychwyn ac yn eu cynllun â’r heriau a wynebir gan ysgolion a sefydliadau celfyddydau/partneriaid creadigol sy’n derbyn grantiau.

> ‘Bydd y gorau yn amlinellu’r heriau allweddol y mae pob ysgol a’u partneriaid creadigol yn eu hwynebu… Y prosiectau mwyaf llwyddiannus yw’r rheiny lle mae’r canlyniadau a fwriedir wedi eu diffinio’n glir i bob partner ar y dechrau, hyd yn oed os nad yw’r manylion wedi eu cynllunio o anghenraid ar y cychwyn un. Does dim rhaid iddo fod yn gynnig cadarn, manwl ond maent o leiaf wedi cael y drafodaeth ar y dechrau am yr heriau y maent yn eu hwynebu.’ (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

3.28 Ar draws y rhaglen, roedd achosion dro ar ôl tro o athrawon yn dweud eu bod wedi datblygu sgiliau a hyder mewn darparu gwersi celfyddydau mynegiannol. Yn ogystal, tynnodd personél rheoli sylw at yr adborth cyson mewn perthynas ag uwchsgilio a datblygu hyder. Roedd cyfweliadau gydag athrawon yn ystod ymweliadau astudiaethau achos yn cefnogi’r honiadau bod gweithio gydag ymarferwyr creadigol wedi datblygu hyder athrawon mewn addysgu a darparu gwersi celfyddydau mynegiannol, yn ogystal â gwneud defnydd o dechnegau a thechnolegau newydd.

3.29 Roedd ymarferwyr creadigol yn cael eu canmol yn aml gan athrawon am ddatblygu eu hyder a’u cyfresi sgiliau, yn arbennig lle’r oedd sesiynau’n cael eu darparu ar y cyd yn hytrach na bod yr ymarferydd creadigol yn darparu gwersi a’r athro’n arsylwi.

3.30 Mae tystiolaeth hefyd bod y grant yn galluogi ac yn hwyluso datblygiad perthnasoedd sy’n parhau rhwng athrawon/ysgolion ac ymarferwyr creadigol y tu hwnt i’r cyfnod cyllido.

> ‘Mae rhai [prosiectau] yn weddol ddiddorol yn nhermau creu perthnasoedd newydd rhwng sefydliadau celfyddydau ac ysgolion. Mae rhai athrawon sydd wedi gweithio gydag ymarferwyr creadigol yn y gorffennol wedi gwneud cais am gyllid i wneud rhywbeth gwahanol. Rydym wedi derbyn llawer o geisiadau gan sefydliadau celfyddydau ac ysgolion sydd erioed wedi gweithio gyda’i gilydd o’r blaen.’ (Cyfweliad â Rheolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019)

3.31 Mae sefydliadau celfyddydau wedi gallu defnyddio'r grant a'i weithgareddau cysylltiedig hefyd fel catalydd ar gyfer datblygu a sefydlu perthynas gydag ysgolion.

3.32 Roedd artistiaid a sefydliadau celfyddydau'n siarad yn rheolaidd mewn cyfweliadau am ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd ac o ddysgu'r celfyddydau mynegiannol mewn addysg statudol yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i deilwra a datblygu eu gwaith eu hunain er mwyn bod yn fwy addas i ddysgwyr a'u hanghenion a'u gofynion addysgol.

3.33 Yn fwy cyffredinol, roedd yr ysgolion eu hunain wedi defnyddio eu profiadau wrth ddatblygu'r ffordd yr oeddent yn addysgu'r celfyddydau mynegiannol. Yn ogystal, roedd prosiectau wedi dod yn bwyntiau cyfeirio ac yn ffordd o gefnogi addysgu ehangach ar draws y cwricwlwm.

**Astudiaethau achos Cydweithio Creadigol**

3.34 Mae'r adran hon yn cyflwyno astudiaethau achos am dri phrosiect grant Cydweithio Creadigol. Mae'r astudiaethau achos yn cynnig darlun o'r grant ar waith, yn ogystal â'r mathau o weithgareddau, allbynau a chanlyniadau sy'n bosibl ymysg derbynwyr y grant.

3.35 Gwnaethpwyd gwaith maes yr astudiaethau achos yng ngwanwyn-haf 2019, o ychydig fisoedd i ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r gweithgareddau. Byddai'r astudiaethau achos yn cynnwys ymweliadau mewn person ag ysgolion a chanolfannau, cyfweliadau gydag athrawon ac artistiaid, grwpiau ffocws gyda dysgwyr sy'n cyfranogi, ac adolygiad o ddogfennaeth werthuso. Ymhellach, gwnaethpwyd cyfweliadau ffôn dilynol er mwyn datblygu'r astudiaethau achos ymhellach.

3.36 Dyma oedd yr astudiaethau achos perthnasol:

- Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan y Gors, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Pendalar a Chwmni'r Frân Wen, Gwynedd
- Venue Cymru, Conwy

**Astudiaeth Achos 1: Canolfan y Gors**

*Y Cefndir*

3.37 Mae Canolfan y Gors yn darparu ar gyfer 26 o blant 11–16 oed sydd ag anawsterau emosiynol sylweddol yn Sir Gaerfyrddin. Mae wedi ei chysylltu, yn rhan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) a chanddi yr un pennaeth, â Chanolfan Burry Port, sy'n

darparu ar gyfer plant 11-16 oed sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Nid oes unrhyw ddata ar gael yn gyhoeddus am y ddemograffeg disgyblion.

3.38 Roedd gan yr athro arweiniol perthnasol brofiad blaenorol gyda'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, ar ôl cymryd rhan mewn prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn ysgol wahanol yn ystod Blwyddyn 1. Ymhellach, mae hi'n hyrwyddwr celfyddydau yn rhanbarth NAWR. Fel cefnogwr brwd y celfyddydau mewn addysg, roedd hi'n awyddus i gyfalafu ar y grant Profi'r Celfyddydau, gan awgrymu bod y grant Cydweithio Creadigol yn cynnig mwy o hyblygrwydd nag yr oedd y dull Ysgolion Creadigol Arweiniol, o ystyried y ffrâm amser ar gyfer gwario'r arian.

> 'Roeddwn i'n teimlo go iawn bod y Cydweithio Creadigol yn cynnig mwy o hyblygrwydd a'r cyfle i adeiladu rhywbeth oedd â hirhoedledd. Gallem ddyrannu un diwrnod yr wythnos i weithio'n gyfan gwbl ar y prosiect hwn. Gweithio gydag artistiaid, ymweld â lleoliadau — mae bob amser yn ymwneud â'r prosiect hwn ar y diwrnod hwnnw.' (Cyfweliad Canolfan y Gors, 2019)

3.39 Gan siarad yn fwy cyffredinol, mae'r ganolfan yn gwneud defnydd hefyd o'r celfyddydau fel cyfrwng ar gyfer ymyriad therapiwtig, gan gefnogi pobl ifanc i ailgyfeirio meddyliau negyddol. Er eu bod yn gwerthfawrogi'r effaith ar lythrennedd a rhifedd, roedd y staff yn y ganolfan yn ymwybodol hefyd o'r effaith bositif bosibl ar lesiant.

*Nod a datblygiad*

3.40 Roedd y cais cychwynnol yn cynnig gweithio gydag Oriel Myrddin, Ysgol Gelfyddyd Caerfyrddin, a Chanolfan Ymyriad Lles Sir Gâr i ddefnyddio celf fel cyfrwng ar gyfer therapi sy'n datblygu sgiliau bywyd, sgiliau emosiynol a llythrennedd.

3.41 Fodd bynnag, roedd gan staff nod ehangach y credent y gellid ei ddatblygu o fewn yr ymyriad Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n llai strwythuredig ac heb yr un cyfyngiad amser.

> 'Roeddem eisiau creu rhywbeth oedd â hirhoedledd tymor hir ar gyfer y ganolfan… Roeddem bob amser yn glir bod hirhoedledd a chynaliadwyedd yn allweddol. Mae cyllido'n anodd ymhobman, ond mae dod yn gynaliadwy drwy'r brand wedi rhoi ymreolaeth i ni hefyd. Rydym wedi gallu talu artist i weithio ar y traeth [ers y prosiect].' (Cyfweliad Canolfan y Gors, 2019)

3.42 Fel sefydliad arweiniol, derbyniodd Canolfan y Gors grant Cydweithio Creadigol werth £18,000 i weithio gyda Chanolfan Ymyriad Lles Sir Gâr, Oriel Myrddin ac Ysgol Gelf Caerfyrddin i gefnogi ymrwymiad y ganolfan i ddefnyddio ymyriad celfyddydol i gefnogi pobl ifanc ac fel cyfrwng ar gyfer therapi i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau emosiynol a llythrennedd. Roedd y prosiect i redeg o fis Ebrill 2017 hyd Chwefror 2018.

*Darpariaeth*

3.43 Defnyddiwyd y cyllid a dderbyniwyd i gydweithio ag artistiaid proffesiynol ac Ysgol Gelf Caerfyrddin i ddatblygu ystod o gynhyrchion wedi'u brandio i'w gwerthu mewn siopau dros dro, a fyddai'n cynnal ac yn cyllido cydweithrediad parhaus gydag artistiaid yn y dyfodol.

3.44 Er bod y bid wedi ei arwain gan staff yn y ganolfan, arweiniwyd y prosiect ei hun gan bobl ifanc drwy grŵp llywio. Byddai'r grŵp llywio'n archwilio syniadau, yn myfyrio ar benderfyniadau ac yn datblygu dealltwriaeth o'r prosesau gweithgynhyrchu a marchnata oedd yn ofynnol i ddatblygu eu brand. Yn ogystal, byddai'r grŵp llywio'n gwneud penderfyniadau am artistiaid a gweithdai i gydweithio â nhw er mwyn datblygu cynhyrchion ar gyfer y siop dros dro.

3.45 Roedd y gweithdai, a chanddynt gyfanswm o naw artist, yn digwydd oddi ar y safle – yn Ysgol Gelf Caerfyrddin fel arfer. Rhoddwyd cyfle nid yn unig i bobl ifanc brofi artistiaid yn eu lleoliad a'u gweithleoedd eu hunain, ond gallai unigolion yr oedd celf yn alwedigaeth iddynt wneud hynny hefyd — canlyniad ychwanegol allweddol i arweinydd y prosiect.

3.46 Datblygodd y prosiect gynhyrchion y brand Man a Man a Mwnci, sef ymadrodd sy'n golygu 'waeth i chi wneud', sy'n hybu'r syniad o gymryd y cyfle, rhoi cynnig ar rywbeth, neu arbrofi. Ers hynny, mae hon wedi dod yn ymadrodd llawfer gwerthfawr i annog dysgwyr yn y ganolfan ei hun i archwilio syniadau a phrofiadau newydd.

3.47 Roedd yr ystod o gynhyrchion yn cynnwys mygiau, clustogau, crysau-t, printiau gwreiddiol, cynlluniau collage a chardiau. Byddai disgyblion yn dewis cynhyrchion i'w gweithgynhyrchu yn dilyn cam dylunio a wnaethpwyd ochr yn ochr ag artistiaid yn y gweithdai. Wedi hynny, byddai disgyblion yn hybu'r brand a'r siop drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn pennu'r costau a'r elwon ac yn sefydlu prisiau manwerthu. Roedd athrawon ar y pryd yn ystyried y broses, yn ogystal â'r gwaith ar

ôl y prosiect, yn ffordd o dynnu dysgwyr i mewn i ddysgu llythrennedd a rhifedd ac ymgysylltu â nhw.

3.48 Roedd y siop dros dro'n llwyddiannus, nid yn unig o ran gwerthu'r nwyddau marsiandïaeth a grëwyd ond roedd yn galluogi i'r grŵp llywio ailfuddsoddi a datblygu gweithgareddau'r brand ymhellach. Mae'r arian a gynhyrchwyd wedi cael ei fuddsoddi ers hynny mewn datblygu mwy o nwyddau marsiandïaeth, gan ehangu'r brand a chyllido ymweliadau addysgol a phrosiectau cydweithio ag artistiaid.

3.49 Yn rhan o'r gwaddol neu'r gweithgareddau ar ôl cyllido sy'n gysylltiedig â'r prosiect, mae'r disgyblion wedi datblygu stori i blant am arth sy'n byw mewn coedwig gerllaw. Cyflwynodd a darllenodd y disgyblion y stori i ddisgyblion ysgol gynradd yn yr ardal. Maent yn ceisio cyllid ar hyn o bryd i gyhoeddi'r llyfr o dan y brand Man a Man a Mwnci, ac mae delw o'r arth yn cael ei adeiladu a'i osod yn y parc ei hun.

3.50 Ochr yn ochr â chyflwyniadau o'r gwaith, cynhaliodd athrawon o'r ganolfan weithdai sgiliau creadigol gydag athrawon ysgol gynradd.

3.51 Mae disgyblion hefyd wedi teithio o amgylch cynadleddau ac ysgolion eraill i roi cyflwyniad am eu profiadau gyda'r prosiect, gan ddatblygu eu sgiliau siarad cyhoeddus a'u hyder o ganlyniad i hynny.

*Canlyniadau ac effaith*

3.52 Roedd staff perthnasol, staff ysgol ehangach ac arweinwyr, disgyblion ac artistiaid yn siarad yn bositif am y prosiect ac yn cyfeirio at ystod o ganlyniadau oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a ddatblygwyd gan ddefnyddio'r grant.

3.53 Rhoddodd athrawon sylwadau am yr effaith bositif a gafwyd ar ddisgyblion a gymerodd ran yn y prosiect, gan nodi yn arbennig ddatblygiad nodedig yn eu hyder. Roedd disgyblion a gymerodd ran yn y prosiect yn aml yn amharod i rannu profiadau neu siarad am eu teimladau a'u meddyliau. Fodd bynnag, roedd y prosiect wedi galluogi i bob aelod o'r tîm rannu ac archwilio eu profiadau a'u teimladau tuag at y prosiect yn ogystal â darparu lle i'r rheiny gael eu trafod a'u lleisio. Roedd hyn, yn ei dro, yn helpu i ddatblygu hyder y disgyblion a'u parodrwydd i drafod teimladau a phrofiadau'n fwy cyffredinol.

3.54 Nododd yr athrawon hefyd bod rhai disgyblion wedi dewis siarad am y prosiect a'i nodau a'i weithgareddau yn rhan o'u hasesiadau llafar ar gyfer TGAU Saesneg.

Ymhellach, mae'r sefyllfaoedd bywyd go iawn a gyflwynwyd gan y prosiect yn cael eu defnyddio'n aml fel 'bachau' ar gyfer ystod o bynciau, gan alluogi i athrawon ymgysylltu â disgyblion mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd, sefyllfaoedd bywyd go iawn, a llesiant drwy drafodaethau'r prosiect. Yn y cyd-destun hwn, roedd athrawon yn ystyried y prosiect yn 'draws-gwricwlaidd' yn ei estyniad a'i effaith, nid un wedi'i gyfyngu i'r celfyddydau mynegiannol.

> 'Gallwn bob amser gysylltu pethau â'r prosiect. Mewn dosbarthiadau siarad Saesneg ac [ysgrifennu Saesneg] gallwn bob amser gael rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio a'i wneud yn sefyllfa bywyd go iawn. [Gallwn ofyn] "Pan oeddech chi'n hyrwyddo'r cynnyrch hwnnw, beth wnaethoch chi ei ddweud oedd yn berswadiol?" Yn y dyniaethau, gallwn ddefnyddio eu profiadau nhw hefyd. Yr un peth gyda mathemateg, lle gallwn siarad am elw a cholled a llog, oherwydd mae'n beth gwir iddyn nhw ac maen nhw angen y profiadau concrit hynny [I deimlo cysylltiad â nhw] (Cyfweliad Canolfan y Gors, 2019)

3.55 Roedd yr holl ddisgyblion oedd yn cymryd rhan yn y prosiect yn dangos lefelau gwell o lythrennedd a rhifedd, ac roedd pob un wedi symud ymlaen o leiaf ddau is-lefel ym Meini Prawf Asesiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae athrawon yn priodoli'r datblygiad (o leiaf yn rhannol) i weithgareddau sy'n berthnasol i'r prosiect.

3.56 Roedd y disgyblion eu hunain yn siarad yn gyffredin am yr effaith rymus yr oedd cyfranogaeth gyda'r prosiect wedi ei chael ar eu hyder, eu gwytnwch a'u hagwedd tuag at waith. Siaradodd y disgyblion am eu syndod eu bod wedi datblygu eu gallu i siarad o flaen cynulleidfa a chyflwyno mewn cynadleddau, o ystyried eu bod yn ei chael hi'n anodd cyfrannu yn y dosbarth cyn y prosiect.

3.57 Cafodd eu cyfranogaeth yn y prosiect ei briodoli hefyd i newidiadau mewn agwedd tuag at ddysgu yn ogystal â chynlluniau'r dyfodol, Nododd rhai disgyblion eu bod wedi penderfynu astudio agweddau o'r prosiect yn y coleg ac fel gyrfa.

> 'Pan fyddaf yn mynd i'r coleg rwyf eisiau astudio marchnata'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a chynllunio brand fel busnes. Doedd e ddim yn beth mawr pan ymunais â'r [ysgol] gyfun. Pan ddes i yma, cefais gymorth [gan yr athro] i ddechrau astudio'r maes yma. Mae hyn wedi adeiladu fy hyder.' (Cyfweliad â Disgybl o Ganolfan y Gors, 2019)

3.58 Priodolwyd effeithiau mesuradwy hefyd (o leiaf yn rhannol) i gyfranogaeth yn y prosiect, yn cynnwys llai o eithrio, gwell cyfraddau presenoldeb, a gwell

ymgysylltiad yn yr ystafell ddosbarth. Ers hynny, mae swyddogion gwella ysgol rhanbarthol wedi cydnabod bod y gwaith yn arfer rhagorol.

3.59 Yn fwy cyffredinol ar gyfer y ganolfan, nododd yr arweinwyr uwch bod gweledigaeth y ganolfan o fodel dysgu wedi'i deilwra'n arbennig i bob dysgwr wedi ei chryfhau a'i hymwreiddio drwy/gan y prosiect. Mae staff wedi ennill hyder ac yn teimlo wedi eu grymuso i ddarparu addysgu a dysgu yn y ganolfan drwy raglen gyfannol, gan groesawu, yn eu barn hwy, 'fodel Donaldson' o ddysgu thematig ac arbrofol.

> 'Credaf fod y prosiect yn barod i gychwyn pan ddechreuais yn 2017. Pan fyddwn yn ysgrifennu ein hunanwerthusiad ar gyfer ein cynghorwyr heriau, rydym yn defnyddio'r prosiect. Ein blaenoriaethau yw datblygu'r agenda llesiant. Pan fyddwn yn mesur ein llesiant, dyma'r pethau y bydd ein Cydlynydd yn pwyntio atynt — dulliau concrit y gallwn deimlo cysylltiad â nhw a dangos tystiolaeth ohonynt.' (Cyfweliad Canolfan y Gors, 2019)

3.60 Yn y cyfamser, mae artistiaid a sefydliadau celfyddydau — sydd fwyaf perthnasol i'r canlyniadau a ragwelir — wedi nodi bod eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm yn datblygu. Ymhellach, nododd artistiaid bod y profiad wedi helpu i ddatblygu eu gallu i weithio gydag ysgolion ac, mewn rhai sefyllfaoedd, eu tebygolrwydd o weithio gydag ysgolion eto yn y dyfodol a'u barn am wneud hynny.

**Astudiaeth Achos 2: Venue Cymru**

*Y Cefndir*

3.61 Mae Venue Cymru yn theatr a chanolfan gynadleddau yn Llandudno, Conwy. Tra bo'n cynhyrchu refeniw drwy ei gweithgareddau masnachol, mae hefyd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Conwy ar gyfer ei darpariaeth yn y gymuned. Ymhellach, mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri Genedlaethol wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Swyddog Addysg ac Allgymorth am ddau ddiwrnod yr wythnos.

3.62 Nod y cyllido olaf hwn, ar Swyddog Addysg ac Allgymorth, yw cefnogi penderfyniad strategol Venue Cymru i ddatblygu ei gwaith ysgol ac addysgol. Mae'r penderfyniad ei hun yn adlewyrchu dymuniad gan staff i'w gynnwys ei hun yn y gymuned a chyfrannu at amcanion addysgol yr Awdurdod Lleol a'r rhanbarth, Fodd bynnag, mae'r dymuniad hwn wedi'i gyplysu â'r gred bod ymgysylltu gydag ysgolion a disgyblion, drwy farchnata ac agor y safle i fwy o bobl, yn cynhyrchu refeniw yn y

tymor hir. Mae cynhyrchu refeniw wedi bod (ac yn parhau i fod) yn fater pwysig i staff Venue Cymru.

'Cyllido yw sail popeth. Mae ein cyllido'n gostwng awr ar ôl awr mewn gwirionedd. Yn ariannol, mae'r sefyllfa yr ydym yn mynd i mewn iddi'n arswydus iawn yn nhermau darparu'r celfyddydau yn yr Awdurdod Lleol. Mae'n edrych yn debyg y bydd y toriadau'n waeth y flwyddyn nesaf. Dyn ni ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd gyda'r "B Fawr" a chanlyniadau hynny. Mae cyllido'r loteri yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn a gwyddom fod Cyngor Celfyddydau Cymru'n cael trafferthion hefyd… Mae'n dod ag incwm yn ôl i mewn yn y tymor hir. Rwy'n hynod o falch o hyn: daeth Opera Genedlaethol Cymru i berfformio The Magic Flute ac roedd llwyth o blant yn y gynulleidfa ac roeddwn mor falch. O'r diwedd, rydym yn gweld teuluoedd yn dod i'r opera.' (Cyfweliad Venue Cymru, 2019)

*Nod a datblygiad*

3.63 Daeth staff Venue Cymru yn ymwybodol o'r grant Cydweithio Creadigol drwy ddefnyddiau marchnata Cyngor Celfyddydau Cymru; fodd bynnag, cyflwynwyd cais yn dilyn sgyrsiau gyda phennaeth. Daeth Venue Cymru yn brif ddaliwr grant ond roedd y prosiect, yn ei hanfod, yn ganlyniad i gydweithrediad rhwng aelodau'r staff a phennaeth.

'Gwnes gais am fod pennaeth yr ysgol y buom yn gweithio â hi yn fy adnabod a dywedodd ei bod hi wedi cael ei secondio i ysgol am flwyddyn mewn ardal lle'r oedd y lefelau amddifadedd yn weddol uchel… Gofynnodd a allem ni roi prosiect ar waith i hybu hyder y plant ac i arwain at rywbeth y gallent ei rannu gyda'r gymuned. Cefais syniad creadigol ac aethom ati i'w adeiladu'n brosiect gyda'n gilydd.' (Cyfweliad â Venue Cymru, 2019)

3.64 Er nad oedd swyddog linc yng Ngogledd Cymru i gysylltu ag o mewn perthynas â'r cais, nododd y staff bod y broses o wneud cais am y grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru'n foddhaol. Awgrymodd y staff eu bod yn hyderus bod cymorth ar gael os oeddent ei angen, ond nodwyd bod eu cais yn gryf ac wedi cael ei dderbyn ar yr achlysur cyntaf.

3.65 Y weledigaeth oedd efelychu seremoni agoriadol Gemau Olympaidd 2012, gan ddweud stori drwy ddawns, cerdd a phypedau. Yn ogystal, roedd y staff eisiau cynnwys rhieni yn ogystal â disgyblion, yn ogystal â rhoi i'r disgyblion oedd yn

cymryd rhan fynediad i, a phrofiad o, Venue Cymru a chynyrchiadau theatre proffesiynol yn rhan o'r prosiect.

3.66 Yn arbennig, roedd Venue Cymru yn mynd i weithio gydag ysgol gynradd leol ar gyfres o ymweliadau â digwyddiadau ac artistiaid preswyl dros gyfnod o chwe mis, gan ddod i ben gyda digwyddiad cymunedol mawr i ddathlu y gellid cyfranogi ynddo. Un ffocws allweddol i'r cynnig oedd defnyddio mentrau creadigol fel ffordd o wella dysgu a gwella cyrhaeddiad mewn llythrennedd, rhifedd, a gallu digidol.

3.67 Yn ehangach, lluniwyd y prosiect i weithredu fel catalydd i ymgysylltu ag ysgolion yn yr ardal, i roi'r cyfresi sgiliau i athrawon i'w galluogi i barhau i addysgu'r celfyddydau mynegiannol, ac i arwain at sefyllfa lle byddai Venue Cymru yn chwarae rôl fwy parhaol mewn cefnogi addysg yn yr Awdurdod Lleol. Byddai cyllid Cydweithio Creadigol a natur y prosiect y gallai'r grant ei ariannu yn galluogi i Venue Cymru ddatblygu ei waith addysgol, nad oedd yn bosibl drwy waith y Swyddog Addysg ac Allgymorth (oedd yn gweithio am ddau ddiwrnod yr wythnos).

> 'Rydym wedi bod yn dyheu am fod yn fwy strategol a chynnal gweithgareddau sydd â gwaddol… Croesawyd yr arian Cydweithio Creadigol am ei fod yn golygu y gallem roi prosiect ar waith a fyddai'n parhau am amser hir gydag elfen DPP i'r athrawon allu darparu rhagor o waith ar ôl i ni adael. Dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi.' (Cyfweliad â Venue Cymru, 2019)

3.68 Cymeradwywyd y prosiect a dyfarnwyd grant o £13,000 i Venue Cymru i redeg o fis Tachwedd 2016 hyd fis Tachwedd 2017 gydag Ysgol y Foryd. Yn ogystal, roedd y prosiect yn ystyried Prifysgol Bangor (Prosiect Confucius) a'r British Council fel partneriaid.

*Darpariaeth*

3.69 Datblygwyd y prosiect mewn camau ac roedd yn cynnwys ystod o artistiaid a sefydliadau celfyddydau yn ogystal â disgyblion a'u rhieni. I ddechrau, gwahoddwyd disgyblion i Venue Cymru i brofi ystod o artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn arddangos eu celf. Wedi hynny, rhoddwyd amser i'r disgyblion ddatblygu ac adeiladu stori i'w hadrodd drwy berfformiad ar ddiwedd y prosiect.

3.70 Roedd dawnsiwr, bardd, drymiwr, pypedwr ac adroddwr straeon yn gyfrannog yn y gwaith o ddarparu'r prosiect, ac yn gweithio yn yr ysgol gyda disgyblion am ddiwrnod a hanner yr un. Datblygodd yr artistiaid rannau o'r perfformiad terfynol.

3.71 Yn dilyn y sesiynau gyda disgyblion, byddai artistiaid yn aros er mwyn darparu DPP a sesiynau hyfforddi cyffredinol gydag athrawon yr ysgol lle bo modd, ond nid oedd cofnod ar gael o sawl sesiwn a gafwyd.

3.72 Parhaodd y prosiect dros y misoedd gyda chyfuniad o weithgareddau mewn ysgolion ac yn Venue Cymru. Er enghraifft, bu Magic Light Productions, sy'n gwmni cynhyrchu sioeau byw ar gyfer y theatr ac sy'n cynnig gweithdai arbenigol, yn darparu cynhyrchiad yn yr ysgol ei hun. Wedi hynny, gwahoddwyd y disgyblion i archwilio a datblygu syniadau gyda'r criw. Yn y cyfamser, ar achlysuron eraill, gwahoddwyd disgyblion i Venue Cymru i fwynhau perfformiadau proffesiynol.

3.73 Daeth y prosiect i'w uchafbwynt gyda digwyddiad dathlu yn Venue Cymru oedd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ymgysylltu ag amrywiaeth o artistiaid a mwynhau perfformiadau proffesiynol. Daeth y digwyddiad i'w uchafbwynt gyda pherfformiad gan y disgyblion a ddatblygwyd dros y misoedd blaenorol gyda'r artistiaid a'r ymarferwyr creadigol.

> 'Roeddem wedi cychwyn y prosiect drwy gael pawb i ddod ar y bws i Venue Cymru. Cymerodd bawb ran gyda'u teuluoedd i ddechrau, ac agorwyd eu llygaid i lwyth o wahanol fathau a genres o gelfyddyd a gwelsant ei fod yn hwyl ac yn ddiddorol. Cychwynnwyd y prosiect gyda hynny a chawsent ei orffen gyda'u perfformiad eu hunain.' (Cyfweliad Venue Cymru, 2019)

*Effaith*

3.74 Roedd y perfformiad ac yna'r dathliad yn Venue Cymru yn uchelbwyntiau arbennig i staff ac athrawon.

> 'Aethom ati i sefydlu llawer o weithgareddau ar y diwrnod ac roedd pob blwyddyn wedi gwahodd eu rhieni neu eu teuluoedd i ddod draw. Gallai'r disgyblion fynd o gwmpas yn gwneud modelau, cartwnau, roedd Jim Aardman wedi dod, ac yn cyd-ddawnsio. Pan oedden nhw wedi gwneud hyn, rhoddodd y plant eu perfformiad. Adroddodd Martin Dawes ychydig o farddoniaeth, er enghraifft, a byddai'r plant yn ymuno ag o. Roedd yn wych. Roedd y plant wrth eu boddau ac yn gwenu fel gatiau. Roeddem wedi gobeithio ei wneud y tu allan [yn yr awyr agored] ond rydym yn byw yng Nghymru, felly aethom ati i'w symud i mewn i'r ganolfan gymunedol ac roedd y lle'n orlawn. Dywedodd y pennaeth nad oedden nhw'n gallu credu ein bod ni wedi cael yr holl deuluoedd hyn at ei gilydd i ddod draw.' (Cyfweliad Venue Cymru, 2019)

3.75 Ceisiodd y staff gasglu adborth drwy SurveyMonkey gan athrawon, artistiaid, disgyblion a rhieni. Dywedodd athrawon a phennaeth Ysgol y Foryd drwy gyfrwng yr ymarfer adborth bod gweithio gydag ymarferwyr creadigol wedi cael effaith amlwg ar yr addysgu: ‘Y teimlad ar y pryd gan y pennaeth oedd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth a’i fod wedi ehangu eu harferion addysgu’ (Cyfweliad Venue Cymru, 2019).

3.76 Wedi iddi ddychwelyd o’i secondiad, cysylltodd y pennaeth â Venue Cymru i ddatblygu prosiect Cydweithio Creadigol pellach gyda thair ysgol yn yr ardal. Arweiniodd hynny at ddyfarnu grant Cydweithio Creadigol o £14,800 ar gyfer prosiect cydweithredol rhwng Venue Cymru, Ysgol Hiraddug, Ysgol Gymraeg Mornant, ac Ysgol Pen y Bryn (oll yn ysgolion cynradd), gan gynhyrchu prosiect creadigol, trawsgwricwlaidd ar gyfer datblygu sgiliau TGCh, llythrennedd ac iaith Gymraeg. Roedd y prosiect wedi’i amserlennu i redeg o Ionawr hyd fis Mehefin 2019. Mae hyn yn awgrymu bod y pennaeth yn gwerthfawrogi’r gweithgareddau a’u bod wedi denu rhagor o sylw gan athrawon ac ysgolion eraill.

3.77 Cafodd artistiaid eu cyflwyno i’r sector addysg statudol yn rhan o’r prosiect, rhai ohonynt am y tro cyntaf. Yn ôl artistiaid yn eu hadborth, drwy gael sylw o’r fath roeddent wedi datblygu eu harferion a’u dulliau o weithio gyda phobl ifanc, er nad oedd data ar gael am y ffordd yr oedd y dulliau a’r arferion hyn wedi newid. Yn ehangach, fodd bynnag, ac ym marn staff Venue Cymru, roedd y prosiect wedi cefnogi a galluogi ymarferwyr i barhau i fyw a gweithio yn yr ardal.

> ‘Mae’n hynod o bwysig i’r economi diwylliannol yng Ngogledd Cymru, gan ei fod yn sicrhau bod digon o waith i gadw’r holl ymarferwyr creadigol hyn yng Ngogledd Cymru. Fel arall byddai’n rhaid iddyn nhw i gyd adael i fyw yn Lerpwl. Manceinion neu Lundain’ (Cyfweliad Venue Cymru, 2019)

3.78 I Venue Cymru, roedd y grant gwreiddiol wedi galluogi i staff ddatblygu perthynas gydag Ysgol y Foryd a sefydlu ffordd o gyfrannu i ganlyniadau addysgiadol a thargedau strategol ehangach yr Awdurdod Lleol. Fel y cynlluniwyd, mae’r grant hefyd wedi galluogi datblygiad Venue Cymru fel lle sy’n eiddo i bobl ifanc a’u teuluoedd yn y gymuned.

> ‘Rydym yn rhan o’r Awdurdod Lleol ac — o’r safbwynt hwnnw — mae’n ein helpu i gyfrannu at ganlyniadau’r Awdurdod Lleol a’r Ddeddf Llesiant ac yn ein helpu yn y gymuned a’r ysgolion. Ond hefyd, drwy weithio gyda’r plant, mae’n rhoi cyfle i ni

weithio gyda'u teuluoedd hefyd. Yn hanfodol, mae'n gwneud y bobl ifanc hynny deimlo bod Venue Cymru yn perthyn iddyn nhw. Dydy e ddim yn rhywbeth brawychus — mae'n rhan o'u bywydau.' (Cyfweliad â Venue Cymru, 2019)

3.79 Er bod aelodau'r staff yn amlwg yn cysylltu'r grant gyda galluogi i Venue Cymru ddatblygu ei gweithgareddau gydag ysgolion ac ehangu apêl y theatr yn y gymuned, codwyd pryderon hefyd mewn perthynas â chynaliadwyedd gweithgareddau o'r fath mewn cyd-destun lle mae'r ariannu cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yn lleihau. Ar ben hynny, mae pryder o'r fath yn berthnasol i gyd-destun lle dydy ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru drwy'r grant Cydweithio Creadigol, er enghraifft, ddim ar gael bellach. Nid yw cynaliadwyedd tymor hir sefydliadau celfyddydau fel Venue Cymru (a'i gwaith gydag ysgolion ac athrawon) yn ddiogel ym marn ei staff.

'Mae Cydweithio Creadigol wedi rhoi model gwaith da i ni ac wedi ein gadael gydag athrawon sydd â mwy o bŵer i weithio'n greadigol. Mae wedi sefydlu ein cysylltiadau gydag ysgolion. Yn ein termau ni, Venue Cymru, rydym yn gwybod yn awr y gallwn wneud y gwaith hwnnw, ond mae'n rhaid i ni ganfod yr arian i wneud hynny hefyd. Mae cyllido Awdurdod Lleol wedi lleihau... Rydym yn gorfod gostwng a lleihau ac mae'n rhaid i ni ganfod mwy a mwy o incwm ac rydym yn teimlo bod allgymorth addysgol yn hollol orfodol i gadw'r diwydiant creadigol yn mynd ar gyfer y dyfodol.' (Cyfweliad Venue Cymru, 2019)

**Astudiaeth Achos 3: Cwmni'r Frân Wen (gydag Ysgol Pendalar)**

*Y Cefndir*

3.80 Sefydlwyd Cwmni'r Frân Wen yn 1984 fel cwmni theatr mewn addysg sydd wedi ei seilio'n bennaf yng Ngwynedd a Chonwy. Er bod y cwmni theatr yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion drwy roi perfformiadau, mae wedi datblygu'r dull y mae'n ei ddefnyddio i ymgysylltu ag ysgolion ac athrawon. Mae'r cwmni'n cynnig pecynnau creadigol ar gyfer cefnogi darpariaeth y cwricwlwm a datblygu a chefnogi athrawon i addysgu'r celfyddydau mynegiannol. Mae'r cwmni'n contractio oddeutu 180 o artistiaid y flwyddyn i ddarparu ei becynnau gwaith gydag ysgolion.

3.81 Er nad hwn oedd y ffactor uniongyrchol i sbarduno'r cwmni i ymgysylltu ag Ysgol Pendalar na'r grant Cydweithio Creadigol, roedd y gostyngiad yng nghyllido'r Awdurdod Lleol ar gyfer y celfyddydau yn ffactor cyd-destunol a gymerwyd i

ystyriaeth wrth i'r cwmni wneud penderfyniad strategol i ddatblygu mwy o ffynonellau cyllido.

3.82 Nododd Cwmni'r Frân Wen mewn cyfweliadau eu bod yn teimlo, er eu bod yn gwbl gefnogol o'r fenter, bod y math o weithgaredd a anogwyd ac a ariannwyd gan y grant yn bodoli'n barod: 'Roedd gweithgaredd bywiog iawn yng Ngwynedd [cyn DGDC]. Byddai hi'n anghywir i gredu nad oedd unrhyw beth yma i gychwyn.' (Cyfweliad â Chwmni'r Frân Wen, 2019). Dylid nodi bod yr ACW yn gwybod erioed bod pocedi o arferion creadigol a chelfyddydau rhagorol yn bodoli'n barod ac nad oedd y dyfarniad grant yn awgrymu bod y gwaith oedd yn bodoli'n barod wedi ei danbrisio mewn unrhyw ffordd.

3.83 Mae Ysgol Pendalar yn ysgol arbennig gyda darpariaeth ôl-16 sydd wedi ei leoli yng Nghaernarfon, Gwynedd. Mae'n darparu ar gyfer 113 o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan rai dysgwyr anghenion addysgol niferus a difrifol. Mae'r dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed. Nid oes data ar gael yn gyhoeddus am wneuthuriad poblogaeth yr ysgol.

3.84 Cafodd pennaeth newydd ei benodi cyn y cais. Y farn gyffredinol oedd bod y pennaeth yn allweddol yn y broses o gychwyn a hwyluso datblygiad y grant a'r prosiect cysylltiedig. Pan gafodd ei benodi, aeth y pennaeth ati i godi proffil a statws y celfyddydau mynegiannol drwy'r ysgol gyfan.

3.85 Yn gyffredinol, mae'r ganolfan yn defnyddio'r celfyddydau fel cyfrwng ar gyfer ymyriad therapiwtig ac ar gyfer cefnogi addysg. Fodd bynnag, dywedodd yr athrawon mewn cyfweliadau eu bod yn teimlo bod staff wedi colli hyder nid yn unig mewn addysgu'r celfyddydau mynegiannol ond hefyd mewn defnyddio'r offer sydd gan y ganolfan.

*Nod a datblygiad*

3.86 Datblygwyd y syniad ar gyfer y prosiect o berfformiad a roddwyd gan Gwmni'r Frân Wen yn Ysgol Pendalar. Datgelodd y perfformiad fylchau yn narpariaeth Cwmni'r Frân Wen, ac yn fwyaf nodedig y ffordd yr oeddent yn cyfathrebu syniadau i gynulleidfaoedd oedd ag anawsterau difrifol a niferus, lle nad oedd cyfathrebu drwy ddeialog a siarad, er enghraifft, yn ddigonol nac yn bosibl.

3.87 Roedd Cwmni'r Frân Wen hefyd wedi cynnal nifer o weithdai yn yr ysgol gyda staff dros y blynyddoedd blaenorol; ond, roedd dymuniad i ddyfnhau'r bartneriaeth.

‘Doedd hyn ddim *just* ni yn gweld cyfle am arian. Ry’ ni wedi adnabod fod angen datblygu prosiect fel hyn ers amser, ac mae hyn yn ein galluogi ni i wneud hynny... Roedd pennaeth newydd wedi syfrdanu gyda chyn lleied o’r celfyddydau oedd yn cael ei ddefnyddio. Cawsom ni drafodaethau efo’r pennaeth dros gyfnod estynedig o amser. Ro’ ni’n gweithio’n agos iawn yn y broses gynllunio i sicrhau fod y prosiect yn ymateb i anghenion yr ysgol, yn deillio o rhywbeth roedd yr ysgol wedi adnabod fel gwendid.’ Cyfweliad â Chwmni’r Frân Wen, 2019)

3.88 Nododd staff ac athrawon yr ysgol bod yr wybodaeth a’r canllawiau o amgylch y grant a’r cam ymgeisio’n glir. Fodd bynnag, roedd staff y cwmni’n awgrymu eu bod mewn sefyllfa dda oherwydd eu profiad o wneud ceisiadau am grantiau dros y blynyddoedd ac roedd y broses yn gyfarwydd iddynt.

3.89 Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi llunio’r broses ymgeisio (gyda sefydliadau celfyddydau neu ysgolion yn eu meddwl) i fod yn geisiadau sefydliadol. Ond, ar rai achlysuron roedd artist ar is-gontract wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn drafftio deunydd ar gyfer ei gyflwyno. Mewn amgylchiadau o’r fath, roedd artistiaid yn cael y broses yn anodd. Er enghraifft, er nad oedd swyddogion Cwmni’r Frân Wen wedi cyfeirio at unrhyw broblemau mewn perthynas â’r broses, roedd yr artist ar is-gontract, Mirain Fflur, wedi nodi ei bod yn teimlo bod y broses ymgeisio’n ei chyfyngu hi a llawer o artistiaid eraill oherwydd natur dechnegol y cais. Awgrymodd bod y broses yn anodd i artistiaid unigol oedd yn anghyfarwydd â’r ceisiadau grant a’r iaith gysylltiedig.

‘Mae lot o artistiaid yn teimlo fod y system gais yn mynd yn gwbl groes I sut ry’ ni’n gweithio. Roedd rhaid i mi ddweud beth ro’ ni’n ei weld wrth y Fran Wen I gynorthwyo’r cais. Ro’ ni wedi colli perchnogaeth o’r syniad o weithio gyda’r theatr – fi a Fran Wen bellach sy’n berchen y syniad... dylai fod cyfweliadau fideo. Mae’r canllawiau yn disgwyl am ateb a chanlyniad pendant. Ond dy’ celf na theatr ddim yn gweithio fel yna. Mae ffasiwn geiriau, er enghraifft, “mae’r darn yn rhyngweithiol neu rhwydweithiol” sydd yn gorfod cael eu defnyddio i gael y grant ond dydy artistiaid ddim yn ymwybodol o’r iaith yma. Mae Fran Wen yn gwybod yr iaith.’ (Cyfweliad â’r Artist, 2019)

3.90 Ym mis Tachwedd 2017, cymeradwywyd y cais am brosiect cydweithredol rhwng Cwmni’r Frân Wen ac Ysgol Pendalar. Dyfarnwyd grant cyfan o £25,000 i’r prosiect redeg hyd fis Mehefin 2018. Roedd 194 o ddysgwyr yn y prosiect.

*Darpariaeth*

3.91 Cynhaliwyd y prosiect yn ystod tymor y gwanwyn (2018), ac roedd yn canolbwyntio ar gyfathrebu gyda'r nod o ddatblygu gosodiad parhaol ar dir yr ysgol. Yn ogystal, roedd y prosiect yn cynnwys ymgysylltu ag ystod o gelfyddydau amlddisgyblaethol ac artistiaid, a chael gosodiad oedd yn cynnwys cyfraniadau a chyfranogaeth ar draws y gymuned ysgol.

3.92 O safbwynt y sefydliad celfyddydau, roedd hwn yn gyfle i Gwmni'r Frân Wen a'u hartistiaid cysylltiedig ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion dysgu cymhleth, niferus a difrifol a sut y byddent yn darparu prosiect sy'n cynnwys dysgwyr fel hyn.

3.93 O'r cychwyn, roedd y staff yn cydnabod bod angen hyblygrwydd wrth ddatblygu'r gweithgareddau er mwyn ateb anghenion dysgwyr unigol.

> 'Roedd rhaid adnabod anghenion unigolion. Doeddwn ni ddim yn delifro prosiect. Roedd angen bod yn hyblyg ac ymateb i'w anghenion nhw fel unigolion. Roedd tîm o artistiaid llawrydd oedd yn dod i fewn i arbenigo mewn rhai meysydd penodol. Dod a cherddor i mewn, rhywun arall yn arbenigo gyda celf. Rhywun yn gyson bob dydd ond arbenigwyr.' (Cyfweliad Cwmni'r Frân Wen, 2019)

3.94 Defnyddiwyd y cyllido i is-gontractio ystod o artistiaid i weithio gyda dysgwyr drwy amrywiaeth o ddisgyblaethau artistig. Ym marn staff Cwmni'r Frân Wen roedd y ffactorau llwyddiant allweddol yn cynnwys natur ddwys y prosiect, presenoldeb cyson y cwmni ei hun, a'r ystod o artistiaid arbenigol a ddygwyd i mewn i weithio gyda dysgwyr.

> 'Un peth oedd yn bwysig hefyd oedd y ffaith ei fod yn ddwys a dod yn rhan o'r ysgol am gyfnod estynedig. Efo'r bobl ifanc yma yn enwedig, mae sefydlu amgylchedd o barch a *trust* yn ofnadwy o bwysig ac mae hynny'n cymryd amser. O wneud hynny, roedd artistiaid yn rhan o fywyd yr ysgol. Hynny'n ofnadwy o bwysig.' (Cyfweliad â Chwmni'r Frân Wen, 2019)

3.95 Er bod y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr hŷn yn yr ysgol, roedd presenoldeb a natur yr ysgol (h.y. darparu ar gyfer plant a phobl ifanc 3–19 oed) wedi arwain at weld dysgwyr ifanc yn cael eu tynnu i mewn i brofiadau.

3.96 Cynhwyswyd athrawon yn y broses gynllunio a chawsent eu gwahodd i dreulio mwy o amser gydag artistiaid er mwyn datblygu eu cyfresi sgiliau a'u hyder eu hunain. Fodd bynnag, roedd yn rhaid cynnal sesiynau ar ôl yr ysgol oherwydd natur

cysylltiad-ddwys y diwrnod ysgol. Roedd staff Cwmni'r Frân Wen yn awgrymu y gellid gwella'r broses gynllunio.

> 'Mae hynny'n her a gellir cael ei ddatblygu a'i wella. Bues i mewn ambell i gyfarfod ar ôl ysgol ond mae'n anodd achos mae nhw'n [staff] gadael yr ysgol am hanner awr wedi tri. Amser rhwng 9.30-3 mae nhw efo'r plant. Angen pwyso a mesur y defnydd gorau o amser. Mae rhaid cydnabod fod datblygu sgiliau'r athrawon yn *by-product* o'r prosiect ond fe allai modd datblygu hynny ymhellach. Ond mae'n rhaid fod y staff ar gael am hynny. Sut ydych chi'n amserlennu hynny?' (Cyfweliad â Chwmni'r Frân Wen, 2019)

3.97 Er ei bod hi'n anodd sicrhau bod athrawon yn bresennol drwy'r amser, roedd yr artistiaid a gymerodd ran, yn ogystal â'r sefydliad celfyddydau oedd yn arwain y prosiect, wedi nodi'r ystod o weithgareddau ac ymyriadau a wnaed gyda'r athrawon eu hunain. Ymhellach, siaradodd artistiaid am y galw gan rai athrawon am gymorth, yn arbennig o ran gwneud defnydd gwell o'r offer oedd gan yr ysgol yn barod.

*Canlyniadau ac effaith*

3.98 Nododd staff Cwmni'r Frân Wen bod y prosiect wedi agor cyfeiriad newydd i'r cwmni. Er bod y cwmni wedi bod yn darparu perfformiadau mewn ysgolion drwy gydol eu bodolaeth, roedd y prosiect hwn wedi datblygu eu dealltwriaeth o ysgolion arbennig a dysgwyr gydag anghenion addysgol niferus a difrifol.

3.99 Ymhellach, parhaodd y bartneriaeth rhwng Y Frân Wen a Phendalar y tu hwnt i'r cyllido ac mae wedi dwyn ffrwyth ar ffurf Llwybrau Llachar. Mae Llwybrau Llachar yn brosiect celfyddydau niferus sy'n ceisio rhoi'r cyfle i bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol i weithio'n ddwys gydag artistiaid i ddatblygu prosiect.[20]

3.100 Hefyd mae'r cwmni, gan adeiladu ar waith ac arferion a ddatblygwyd yn y prosiect, wedi datblygu cyrsiau ar ran Edau, h.y. y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

3.101 Yn y cyfamser, siaradodd artistiaid yn bositif iawn am y cyfle i ymgysylltu â'r ysgol a gyda dysgwyr am gyfnod estynedig o amser. Roedd profiad o'r fath yn eu galluogi i arbrofi, dysgu o fethiant ac, yn y pen draw, ddatblygu technegau ac arferion mewn perthynas â gweithio gyda dysgwyr sydd ag anghenion addysgol gwahanol ac (mewn rhai achosion) niferus a difrifol.

---

[20] Gwelwch LLWYBRAU LLACHAR

'Mae chwech wythnos yn lot o amseri rhoi stamp go-iawn i drio pethau. Mae'n bwysig ofnadwy fod modd gwneud camgymeriadau a gweld lle mae modd datblygu. Mae gwersi anferthol o bethau sydd ddim yn gweithio. Roedd o'n amser I fod yn arbrofol ac yn *ambitious* iawn.' (Cyfweliad gydag Artist, 2019)

3.102 Siaradodd artistiaid hefyd am ennill hyder a newid dyheadau gyrfaol yn dilyn y profiad.

''Dwi wedi bod yn gweithio efo'r Fran Wen eisoes. Licio gwneud mwy o waith fy hun a dechrau cwmni fy hun. Mae wedi rhoi lot o hyder o arwain y prosiect. Rhoi ffydd i mi gael y weledigaeth a threialu [pethau newydd]. Roedd o'n gyfle amhrisiadwy. Chwe wythnos mewn ysgol yn wych' (Cyfweliad gydag Artist, 2019)

3.103 Roedd pob artist a weithiodd gyda'r prosiect yn gwerthfawrogi'r cyfle a 'run ohonyn ni eisiau gadael.' (Cyfweliad gydag Artist, 2019). Fel y nodwyd, roedd un artist wedi troi at gychwyn cwmni newydd, tra bo un arall wedi mynd ati i gofrestru ar gwrs er mwyn hyfforddi i fod yn athro.

3.104 Yn y cyfamser, soniodd athrawon yn eang am y cynnydd mewn hyder wrth ddarparu'r addysgu drwy'r celfyddydau mynegiannol. Yn ogystal, ystyriwyd bod cymorthyddion athro wedi elwa o'r profiad, gan gynyddu eu hyder mewn defnyddio offer a chefnogi dysgwyr i ymgysylltu â'r celfyddydau.

3.105 Ystyriwyd hefyd bod athrawon wedi datblygu sgiliau yn yr amrywiol ddisgyblaethau sy'n berthnasol i'r prosiect. Credwyd eu bod wedi datblygu'r sgiliau hyn drwy eu gweld yn digwydd ac o weithio gydag artistiaid yn yr ystafell ddosbarth

3.106 Fodd bynnag, roedd yr arweinydd yn cydnabod mor anodd oedd hi i ddarparu sesiynau hyfforddi ac uwchsgilio mwy strwythuredig ac mae prosiect dilynol gyda'r ysgol wedi ei gynllunio'n benodol i alluogi i sesiynau o'r fath ddigwydd.

3.107 Yn fwy cyffredinol, roedd staff Cwmni'r Frân Wen yn arbennig yn credu bod y prosiect wedi cael effaith ar agwedd yr ysgol tuag at y celfyddydau yn gyffredinol. Gwrthddywedwyd hynny, fodd bynnag, gan y cyfaddefiad bod y pennaeth newydd, a phrif ysgogwr a hyrwyddwr y bid am y grant a'r prosiect ei hun, wedi ceisio'n benodol i ddatblygu defnydd ac amlygrwydd y celfyddydau o fewn yr ysgol.

'Yn bendant [mae pethau wedi newid] yn yr ysgol. Dwi'n teimlo fod y prosiect yna wedi esgor ar bethau eraill. Dyna un o'r brif lwyddiannau. Ry' ni wedi llwyddo i ddatblygu prosiect arall efo pobl ifanc efo anableddau gydag arian o plant mewn

angen. Yn deillio o’r prosiect yma buom ni’n meddwl fod angen i ni rhoi cyfleon y tu allan i’r ysgol.’ (Cyfweliad â Chwmni’r Frân Wen, 2019)

3.108 Mynegodd staff sefydliadau celfyddydau bryderon am gynaliadwyedd ymyriad o’r fath. At hynny, soniodd y staff am ragor o bryderon yn ymwneud â rhagamodau a allai fod yn broblematig a osodwyd gan y prosiect Cydweithio Creadigol a’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau yn gyffredinol.

3.109 Holodd aelodau’r staff pa mor gynaliadwy oedd y ffordd hon o weithio, a lleisiwyd y posibilrwydd ei fod wedi cynhyrchu disgwyliadau afrealistig ymysg artistiaid yn y rhanbarth. Nid oedd aelodau’r staff yn gweld y byddai ysgolion mewn sefyllfa i gynnal a chyllido cyfranogaeth y sefydliad ac artistiaid yn y dyfodol.

‘Cynaliadwyedd y prosiect sy’n fy mhoeni i. Dwi’m yn meddwl fod pob prosiect wedi gweithio a pob artist wedi bod yn ddigon profiadol i weithio yn y maes. Sut mae hyn yn gynaliadwy yn y maes? O’n nealltwriaeth i, mae ysgolion yn cael eu ysbrydoli i fuddsoddi yn y maes, ond ar ddiwedd y dydd, mae cyllidebau ysgolion yn andros o dyn. Ydyn ni wedi codi disgwyliadau efo’r prosiect yma yn ormodol? Tra fod pawb yn cydnabod gwerth – sut ydyn ni’n mynd i sicrhau fo dy lefel yma o waith efo ysgolion yn parhau?’ (Cyfweliad â Chwmni’r Frân Wen, 2019)

3.110 Nododd staff Cwmni’r Frân Wen hefyd eu bod yn cyflogi neu’n is-gontractio oddeutu 180 o artistiaid bob blwyddyn a’u bod, o ganlyniad, yn adnabod y farchnad lawrydd yn yr ardal. Mynegodd y staff bryder am y gost sylfaenol o £250 y diwrnod a nodwyd yng nghanllawiau Cyngor Celfyddydau Cymru, gan nodi ei fod yn uwch na’u ffi gyfartalog.

‘Ni’n dilyn yr *Independent Theatre Council* guidelines ac erioed wedi talu gymaint a hynny. Mae llawer o artistiaid, rhai heb brofiad [blaenorol yn y farchnad] yn credu mae dyma’r *going rate*. Mae’n anghynaladwy i ni fel cwmni ac ysgolion... Mae hynny’n mynd i gael effaith ar y sector.’ (Cyfweliad â Chwmni’r Frân Wen, 2019)

3.111 Roedd y mater olaf hwn yn cysylltu â phryder ehangach am yr effaith negyddol, nad oedd wedi cael ei rhagweld o bosib, y gallai Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ei chael ar y sector a’r rhanbarth. Roedd y gawod o weithgareddau a’r rhuthr i wario cyllidebau a chomisiynu cyrsiau a gweithgareddau yn ystod ei flwyddyn derfynol yn codi disgwyliadau hefyd ar draws y rhanbarth gan gyflwyno

heriau ar yr un pryd mewn perthynas â chynaliadwyedd gweithgareddau a gwariant o'r fath.

**Casgliadau a chanfyddiadau cyffredin**

3.112 Yn gyffredin i'r tri achos yr oedd y profiad blaenorol yr oedd personél allweddol wedi ei gael gyda rhyw agwedd o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Naill ai'r athro cydlynu fyddai hwn neu unigolyn oedd yn chwarae rhan allweddol mewn cychwyn partneriaeth neu annog i fid gael ei gyflwyno.

3.113 Roedd yr unigolion allweddol perthnasol, p'un a oeddent yn gychwynwyr partneriaethau neu fidiau neu'n athrawon cydlynu eu hunain, yn tueddu i fod yn gefnogwyr ac eiriolwyr brwd dros ddefnyddio'r celfyddydau yn y dosbarth ar gyfer cael canlyniadau ehangach na dim ond addysgu'r celfyddydau creadigol. Roedd athrawon yng Nghanolfan y Gors, er enghraifft, yn edrych yn rheolaidd ar y celfyddydau, hyd yn oed cyn y grant Cydweithio Creadigol, i gefnogi datblygiad llesiant a lles dysgwyr.

3.114 Er nad yw hyn yn dystiolaeth galed bod y Cydweithio Creadigol yn 'pregethu i'r cadwedig' i raddau mawr, mae'n adleisio'r sylw cyffredin a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, h.y. bod Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau'n ymgysylltu ac yn apelio'n bennaf i'r 'rhai arferol' ymhlith yr ysgolion rhagweithiol, brwdfrydig sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau. Gellid disgwyl hyn i ryw raddau, o ystyried natur hunan-ddetholus a ffocws celfyddydol y grant Cydweithio Creadigol. Ar ben hynny, am fod gwaddol a chynaliadwyedd yn gallu bod wedi eu gwreiddio, i raddau mawr, yng nghylchrediad yr wybodaeth a'r sgiliau y mae pobl frwdfrydig fel hyn yn eu datblygu a'u hymwreiddio yn eu gwaith, gallai fod yn fanteisiol i ddatblygu eu galluoedd myfyriol ymhellach, gan felly sicrhau bod dysgu rhwng cymheiriaid yn y dyfodol yn debygol o fod yn glir a chydlynol.

3.115 Mae'n sicr bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod profiad blaenorol o agweddau eraill o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi annog neu chwarae rôl gatalytig mewn cael pobl i ymgysylltu â'r rhaglen. Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen, yn ehangach, yn sbarduno cyfranogaeth ac ymgysylltiad â'r celfyddydau mynegiannol, tra bo'r gydran arbennig hon o'r rhaglen yn cyflenwi effaith y llinynau eraill drwy alluogi i ysgolion ac athrawon ddatblygu cyfranogaeth ac ymgysylltiad o'r fath ymhellach.

3.116 Yn aml iawn roedd prosiectau'n cynnwys elfen arwyddocaol o reolaeth a gwneud penderfyniadau gan y dysgwr ei hun. Roedd hynny'n digwydd naill ai drwy grŵp llywio o ddysgwyr yng Nghanolfan y Gors, datblygiad y stori gan y dysgwyr oedd yn ymwneud â Venue Cymru, neu'r rhyddid i ddysgwyr ym Mhendalar ymgysylltu â'r artistiaid a'r celfyddydau yr oeddent yn eu dewis.

3.117 Roedd gan bob prosiect dargedau penodol: roedd Canolfan y Gors yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau emosiynol, llythrennedd a bywyd eu dysgwyr. Roedd Venue Cymru'n edrych ar ddefnyddio'r cyllid i sefydlu a datblygu perthynas gydag ysgolion lleol, gan ddatblygu eu gwaith allgymorth addysgol o ganlyniad i hynny. Roedd Ysgol Pendalar ar y llaw arall yn canolbwyntio ar gyfathrebiad y dysgwyr ac ar ddatblygu gallu'r ysgol i ddarparu gwersi celfyddydau creadigol. Roedd canolbwyntio ar ganlyniadau gan adael y gweithgareddau'n rhydd i'w datblygu yn allweddol, fel y soniwyd mewn sylwadau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, yn sicrhau bod yr effaith yn gynaliadwy ac yn werthfawr, yn ogystal â bod yn brofiad positif ynddo ac ohono ei hun.

3.118 Er bod y broses ymgeisio'n foddhaol yn ôl yr ymatebwyr (llwyddiannus) mewn perthynas ag ymgysylltu ag artistiaid unigol ac artistiaid ar is-gontract, awgrymwyd bod sefydliadau celfyddydau sefydledig, sydd ag adnoddau a phrofiad o ddatblygu ceisiadau grant cryf, mewn sefyllfa lawer gwell nag artistiaid unigol. Tynnwyd sylw penodol at iaith y ceisiadau grant, sy'n ddieithr i nifer o artistiaid unigol sydd heb brofiad.

3.119 Ymhob achos, roedd y broses lle'r oedd artistiaid a dysgwyr yn ymgysylltu â'i gilydd yn brofiad eithriadol o bositif. Roedd dysgwyr yn aml yn mynegi llawenydd a hapusrwydd ynghylch eu profiadau, yn ogystal â dymuniad i'w hailadrodd nhw. Bu artistiaid ac athrawon hefyd yn siarad am eu mwynhad a'u cymhelliant. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn archwilio artistiaid a'u hymgysylltiad â'r rhaglen yn fanylach, gan geisio adeiladu ar y sylwadau hyn.

3.120 Yn ogystal, ymhob achos hefyd mae dysgwyr, artistiaid ac athrawon wedi cael eu heffeithio'n bositif gan eu profiadau, y tu hwnt i'w mwynhad. Siaradodd y dysgwyr am ddatblygu eu hyder a'u sgiliau a rhoi ffocws i'w targedau a'u dyheadau gyrfaol. Ymhellach, roedd athrawon yn cyfeirio at effaith bositif y prosiect ar gyrhaeddiad a lles eu dysgwyr. Cofnodwyd gwell cyfraddau presenoldeb a gwell ymgysylltiad mewn rhai achosion.

3.121 Yn aml iawn roedd artistiaid yn myfyrio ar y ffordd yr oedd y profiad wedi eu sbarduno a'u galluogi i ddatblygu eu technegau mewn perthynas â gweithio gyda phobl ifanc mewn cyd-destun ysgol. Ar ben hynny, siaradodd yr artistiaid am ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r cyd-destun addysg statudol, yn ogystal ag ystyried rhagor o gydweithrediad fel ffynhonnell waith ar gyfer y dyfodol.

3.122 Siaradodd athrawon am ddatblygiad eu cyfresi sgiliau a'u hyder o ganlyniad i weithio gydag athrawon. Mewn rhai sefyllfaoedd lle'r oedd canlyniadau'n glir a gweithgareddau wedi eu canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau hynny, megis datblygu llesiant a sgiliau bywyd dysgwyr, mae technegau'n parhau i gael eu defnyddio a chyfeirir atynt fel tystiolaeth o ddatblygiad yr agenda llesiant mewn ysgolion.

3.123 Am fod y ffocws ar ddysgwyr, fodd bynnag, ni fanteisiwyd yn llawn bob amser ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau athrawon. Roedd y bobl a gyfwelwyd yn sôn yn aml am y cyfleoedd a gollwyd i ddatblygu sgiliau athrawon ymhellach. Mae hyn yn awgrymu bod gan y grant y potensial i gael mwy o effaith os ydyw wedi ei adeiladu i mewn i waith cynllunio a dylunio prosiectau penodol.

3.124 Yn ehangach, fodd bynnag, roedd y profiadau'n cynnig 'bachau' a chyd-destunau cyfarwydd ar gyfer dysgu ac addysgu ehangach ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn awgrymu y bydd prosiectau unigol yn parhau i effeithio ar addysgu a dysgu mewn ffordd bositif, y tu hwnt i fywyd y prosiectau eu hunain. Ymhellach, mae'n awgrymu bod athrawon yn gweld y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i gefnogi addysgu ar draws y cwricwlwm.

# 4. Y Parth Dysgu Creadigol

*Y Cefndir*

4.1 Lansiwyd y Parth Dysgu Creadigol (PDC) ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cael ei reoli gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r PDC yn llwyfan rhannu gwybodaeth ar-lein sydd wedi ei lunio i fod yn ffynhonnell o wybodaeth a chydweithrediad i athrawon, dysgwyr ac ymarferwyr. Ychwanegir deunydd i'r porth gynted ag y mae ar gael.

4.2 Nod PDC yw cyflawni argymhelliad sydd wedi ei gynnwys yn adroddiad 2013 yr Athro Dai Smith am y celfyddydau mewn addysg, dan y teitl Adroddiad Annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru.

> 'Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o 'Hwb', Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan.'[21]

*Canfyddiadau a materion blaenorol*

4.3 Roedd adroddiadau blaenorol yn nodi nifer o bryderon a godwyd gan randdeiliaid a defnyddwyr y PDC. Yn fwyaf nodedig, roedd canfyddiad nad oedd y llwyfan yn addas i'w bwrpas, a hynny i raddau mawr oherwydd problemau hygyrchedd, diffyg cyfleoedd rhwydweithio cymdeithasol, a dim rhyngweithio a rhannu syniadau ymysg defnyddwyr. Mae athrawon ac artistiaid wedi adrodd am anawsterau wrth geisio mewngofnodi i Hwb, am y gwefan yn methu a'u bod yn cael y wefan yn 'anhylaw'.

4.4 Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n derbyn bod artistiaid yn arbennig wedi cael anawsterau'n mewngofnodi i'r PDC yn ystod y cyfnod cynnar, roeddent yn awgrymu bod y problemau yn aml iawn yn ymwneud â gallu technegol y defnyddwyr. Yn ogystal, mae swyddogion wedi dweud yn gyson ers mwy na dwy flynedd bod unrhyw broblemau technegol mewn perthynas â'r wefan wedi cael eu trin ac yn parhau i dderbyn sylw: 'Does dim problemau o gwbl (yn awr) gydag agwedd dechnegol y Parth' (Cyfweliad â Rheolwyr Llywodraeth Cymru, 2019).

4.5 Ymysg y materion pellach a godwyd gan athrawon mewn adroddiadau blaenorol roedd gwrthdrawiadau rhwng eu disgwyliadau a chylch gwaith canolog y PDC, sef ei fod yn llwyfan ar gyfer cynnwys, nid man rhwydweithio.

[21] Adroddiad Annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

4.6 Gwelwyd bod y problemau hyn wedi eu gwaethygu o bosibl gan y twf mewn llwyfannau sector preifat sy'n hwyluso rhwydweithio cymdeithasol yn ogystal â darparu adnoddau. Mae llwyfannau fel Facebook a Google Scholar yn parhau i addasu a newid ar raddfa gyflym i ateb anghenion esblygol athrawon. Ymhellach, mae'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi comisiynu eu llwyfannau eu hunain ac, mewn un achos, ap i ddarparu darpariaeth debyg a gwell i athrawon.

4.7 Yn wir, daeth yr adroddiad interim blaenorol (Adroddiad 3) i'r casgliad bod y llwyfan PDC wedi dioddef niwed i'w enw da a'i fod yn wynebu cystadleuaeth gan lwyfannau preifat a rhai sefydledig a gan lwyfannau a ddatblygwyd gan gydrannau o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Er nad oes data ar gael ar gyfer gwneud cymhariaeth neu ar gyfer tracio tueddiadau yn y nifer o ymweliadau dros amser, barn staff rheoli Llywodraeth Cymru yw bod PDC yn wynebu her gan lwyfannau eraill i ddefnyddwyr.

4.8 Roedd yr adroddiad blaenorol hefyd yn argymell (Argymhelliad 9) y dylid archwilio rhagor o opsiynau ar gyfer gwella dealltwriaeth athrawon o rôl a swyddogaeth y PDC.

*Data am ddefnyddio'r PDC*

4.9 Mae Ffigur 4.1 isod yn dangos data Google Analytics am y PDC: nifer yr ymwelwyr â thudalennau, ymwelwyr unigryw â'r safle, a nifer yr adnoddau a welwyd. Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos cynnydd mewn ymwelwyr unigryw, yr adnoddau a welwyd a nifer yr ymweliadau â thudalennau yn ystod y flwyddyn academaidd, gyda chynnydd nodedig yn y nifer o ymweliadau â thudalennau ac adnoddau rhwng Mawrth ac Ebrill 2019.

4.10 Mae modd esbonio'r gostyngiadau yn y nifer o ymweliadau â thudalennau a gafwyd gan y cyfnodau o wyliau ysgol (y Nadolig a'r Pasg). Mae nifer yr ymweliadau a'r defnydd a wneir o'r wefan yn cyrraedd uchafbwynt ac isafbwynt yn unol â'r tymor addysgu. Mae'r twf mewn niferoedd ym mis Mehefin a'r gostyngiad ym mis Gorffennaf yn dal i atsain y tueddiadau cydnabyddedig mewn perthynas â'r defnydd o Hwb. [22] Fodd bynnag, mae gostyngiad ym mis Tachwedd yn cyferbynnu â chynnydd mwy sefydledig yn y defnydd a wneir o Hwb. Mae'n aneglur heb ddata a gwaith ymchwil pellach pam fod hyn yn wir, a pham fod y defnydd o'r PDC yn


[22] Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Weithrediad y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol

wahanol i’r defnydd o Hwb yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae’r cynnydd ym mis Ionawr ac ym mis Mawrth yn adleisio’r data a’r adroddiadau blaenorol.

4.11 Mae’r cynnydd ym mis Ebrill 2019 yn cyferbynnu’n llym gyda gostyngiadau yn ystod yr un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol. Mae’r cynnydd i oddeutu 7,000 o ymweliadau â thudalennau ac oddeutu 3,000 o ymwelwyr unigryw yn dyblu’r niferoedd a gofnodwyd ar gyfer unrhyw fis dros y flwyddyn flaenorol. Gallai’r cynnydd cyflym hwn fod yn gysylltiedig â lansiad dogfennaeth y cwricwlwm a drafodwyd uchod, a dylid ei drin gyda gofal. Ond, nid oes cynnydd cyfatebol mewn ymweliadau unigryw, sy’n awgrymu bod rhai defnyddwyr yn defnyddio’r wefan bron ddwywaith gymaint ag arfer. Er bod hyn efallai’n arwydd bod cyfnod newydd yn cychwyn o gynnydd mewn defnydd, neu ddefnydd dwysach gan y defnyddwyr, hyd nes y bydd hyn wedi ei adlewyrchu mewn tueddiadau tymor hirach, dylid deall y cynnydd sydyn hwn fel allanolyn yn y ffigurau cyfredol.

4.12 Os diystyrir uchafbwynt mis Ebrill 2019 fel allanolyn, mae cymhariaethau gyda’r nifer o ymweliadau â thudalennau ac ymweliadau unigryw mewn adroddiadau blaenorol yn awgrymu bod y PDC wedi ei weld gan lai o ddefnyddwyr ar lai o achlysuron. Mae uchelbwyntiau o oddeutu 9,000 o ymweliadau â thudalennau a mwy na 2,500 o ymwelwyr unigryw wedi eu cofnodi ym mis Ionawr neu fis Mawrth mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir cymharu hyn gydag uchelbwyntiau o oddeutu 3,000 o ymweliadau â thudalennau ym misoedd Hydref ac Ionawr ac uchelbwyntiau o oddeutu 1,500 o ymwelwyr unigryw ym misoedd Mehefin ac Ionawr 2018/2019.

Ffigur 4.1: Y PDC – nifer yr ymweliadau â thudalennau / nifer yr ymwelwyr unigryw / adnoddau a welwyd




Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Google Analytics

4.13 Mae dadansoddiad mwy manwl o ddata Google Analytics ar gyfer y PDC sydd wedi'i gyflwyno yn Nhabl 4.1 yn dangos mai 'astudiaeth achos' a 'chelf' oedd yr eitemau chwilio mwyaf poblogaidd dros y cyfnod 2018-2019, gan gynnig rhywfaint o gipolwg ar y math o gynnwys y mae defnyddwyr eisiau ei gyrchu.

4.14 Wrth gymharu termau chwilio poblogaidd o'r adroddiad blaenorol a'r data a ddarparwyd yn fwyaf diweddar, mae'r tueddiadau'n weddol debyg. Ond, 'UG/Lefel UG' yw'r term mwyaf poblogaidd wedyn.

**Tabl 4.1: Termau chwilio mwyaf poblogaidd ar y Parth Dysgu Creadigol**

| Termau chwilio mwyaf poblogaidd - Adroddiad 3 | Termau chwilio mwyaf poblogaidd - Nawr |
|---|---|
| Astudiaeth Achos | Case study |
| Key Stage 2 | Art |
| Ffotogallery | AS / AS level |
| Intofilm | Poem poetry |
| Art | Activities |
| literatureWales | Creative learning |
| KS2 | KS2 |
| Creativity | Intofilm |
| Mathematics | Art and Design |
| Nlw | Foundation Phase |

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

4.15 Mae Tabl 4.2 isod yn amlinellu'r adnoddau mwyaf poblogaidd a gyrchwyd yn y PDC. Y datgeliad nodedig o'r data yw mai tri o'r 10 adnodd mwyaf poblogaidd a gyrchwyd oedd astudiaethau achos o ysgolion eraill.

**Tabl 4.2: Anoddau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir ar y Porth Dysgu Creadigol**

| |
|---|
| Agwedd creadigol tuag at Lythrennedd - Ysgol Uwchradd Gwernyfed |
| Bagloriaeth Cymru: Her Mentergarwch a Chyflogadwyedd |
| Plant a'r Ail Ryfel Byd yng Nghymru |
| Hedd Wyn |
| Astudiaeth achos ar ffurf fideo: Ysgolion Creadigol Arweiniol – Ysgol Gynradd Ynysboeth |
| Sgiliau Meddwl ar gyfer ESDGC |
| Gwaith Creadigol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Ysgol Rufeinig |
| Astudiaeth achos ar ffurf fideo: Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol– Ysgol Gynradd Sully – Oes Fictoria yng Nghyfnod Allweddol 2 |
| Astudiaeth Ffilm – Patagonia |

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

4.16 Nid yw'n syndod bod 98% o'r holl ymwelwyr â'r wefan yn dod o'r Deyrnas Unedig. Ond, cofnodwyd cyfran anarferol o uchel o ymwelwyr o'r Eidal ym mis Mehefin 2018, oedd yn cyfrif am 7.33% o'r holl ymweliadau yn y mis hwnnw (sy'n gyfatebol â 179 o ymweliadau â'r dudalen). Fel arfer, mae ymwelwyr o wledydd eraill yn cyfrif am oddeutu 2% o'r holl ymweliadau â phob tudalen wedi'u cyfuno. Ni ellid canfod esboniad am y cynnydd Eidalaidd sydyn hwn.

4.17 Mae data o'r Arolwg Athrawon ac Artistiaid a gyflwynir yn Ffigur 4.3 isod yn cyfoethogi'r ddealltwriaeth o ddefnydd PDC. Dim ond 32% o athrawon a 56% o artistiaid a oedd wedi ymgysylltu'n barod â'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r

Celfyddydau, neu a oedd mewn ysgol oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen mewn rhyw ffurf, oedd yn ymwybodol o'r PDC. Un pwynt nodedig, fodd bynnag, yw y byddai gan 98% o'r athrawon hynny nad oeddent yn ymwybodol o'r PDC ddiddordeb mewn cyrchu'r llwyfan. Mae hyn yn awgrymu y byddai hybu'r PDC ymhellach yn debygol o annog mwy o ddefnydd.

4.18 Yn nodedig hefyd yw'r ffaith mai dim ond 21% o artistiaid, a dim o'r athrawon, oedd wedi nodi eu bod wedi cyfrannu cynnwys at y PDC, sydd felly'n awgrymu naill ai y gellid gwneud mwy o waith hyrwyddo ac annog er mwyn cynyddu'r cyfraniadau cynnwys i'r llwyfan neu fod materion ehangach yn rhwystro cyfraniadau.

4.19 At hynny, mae'r ffigurau'n cefnogi barn staff rheoli Llywodraeth Cymru fel y mae wedi ei hamlinellu uchod, h.y. y gallai staff LCS hybu PDC a'i ddefnydd ymhellach ymysg yr athrawon sy'n elwa o'r ymyriad.

**Tabl 4.3: Ydych chi wedi cyrchu'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb?**

| | Ydych chi wedi cyrchu'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb? | Os 'Na', a fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cyrchu'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb? | Ydych chi wedi cyfrannu at y Parth Dysgu Creadigol ar Hwb? |
|---|---|---|---|
| Athrawon (Do/Byddai) | 32% | 98% | 0% |
| Artistiaid (Do/Byddai) | 56% | 54% | 21% |

| **Pawb sy'n ateb 'Do/Byddai'** | | **Ydych chi wedi cyrchu'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb?** | **Os 'Na', a fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cyrchu'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?** | **Ydych chi wedi cyfrannu at y Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?** |
|---|---|---|---|---|
| **Athrawon** | N | 20 | 41 | 0 |
| | % | 32% | 98% | 0% |
| **Artistiaid** | N | 29 | 20 | 6 |
| | % | 56% | 54% | 21% |


N= 419 [162 (2018) + 257 (2019)]

Ffynhonnell: Arolwg Athrawon ac Artistiaid 2018 a 2019 wedi'u cyfuno

4.20 Roedd yr Arolwg Athrawon ac Artistiaid wedi gofyn i'r holl ymatebwyr am adborth ansoddol ynglŷn â'r defnydd a wneir o PDC, a oedd wedi ei godio at ddibenion y dadansoddiad. Roedd mwy na hanner yr artistiaid ac athrawon yn nodi bod angen mwy o amser i wneud y defnydd gorau o'r llwyfan, tra bo oddeutu chwarter o athrawon ac artistiaid yn teimlo eu bod angen mwy o arweiniad ar ddefnyddio'r

Parth. Mae’r ymateb hwn yn awgrymu y gallai negeseua a hyrwyddo’r PDC arbed amser i athrawon.

Ffigur 4.2: Beth fyddai’n eich helpu i wneud y defnydd gorau o’r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?




Ffynhonnell: Arolwg Athrawon ac Artistiaid 2018 a 2019
(N=243 | N Athrawon = 124 | N Artistiaid = 119)

*Rheolaeth a darpariaeth*

4.21 I ymdrin â rhai o’r materion hyn ac i ymateb i argymhelliad Adroddiad 3 bod angen datblygu dealltwriaeth athrawon, mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i staff yn y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol mewn perthynas â defnyddio a chyflwyno athrawon i’r PDC a’i swyddogaethau. Mae’r hyfforddiant hwn wedi ei farnu’n werth ei wneud ac wedi annog staff y Rhwydweithiau i rannu adnoddau o fewn y Parth. Does dim data ar gael ynglŷn â faint o’r hyfforddiant a wnaethpwyd ac ymhle.

4.22 Codwyd pryderon gan bersonél Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, nad yw timau Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi hybu’r PDC mor effeithiol ag y byddent wedi gallu ymysg athrawon oedd yn cymryd rhan yn y cynllun. Gellid ystyried hyn yn rheswm posibl am y gostyngiad yn nifer y defnyddwyr. Yn wir, mae’r data a gyflwynir uchod yn awgrymu y gallai athrawon sydd wedi elwa o’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wneud mwy o ddefnydd o’r PDC a chyfrannu mwy o adnoddau iddo.

4.23 Heb ragor o waith ymchwil ymysg staff darparu Ysgolion Creadigol Arweiniol nid yw'n glir pam nad yw'r PDC wedi cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Fodd bynnag, gallai'r farn ymysg athrawon am y PDC ddylanwadu ar faint mae staff darparu'n dueddol o hyrwyddo ei ddefnydd. Gallai fod yn anodd hyrwyddo llwyfan y mae gan athrawon a staff farn negyddol amdano.

4.24 Mae rhanddeiliaid yn parhau i awgrymu y gallai sgiliau technegol unigolion fod yn rhwystr posibl i'w ddefnydd, a byddai'r sgiliau hynny'n allweddol i ffurfio Rhwydweithiau drwy'r wefan. Mae staff Cyngor Celfyddydau Cymru'n awgrymu mai ffactor posibl arall yw'r ffaith nad oes rhyngwyneb hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio gan y wefan hon o'i gymharu â gwefannau eraill sydd mewn cystadleuaeth â hi. Gallai darparu rhagor o hyfforddiant i'r unigolion fod o fudd ym marn y rhanddeiliaid hyn. Byddai hyn yn awgrymu bod y PDC yn parhau'n rhy anodd i'w gyrchu neu ei lywio.

4.25 Fodd bynnag, mae canfyddiad ymysg staff rheoli Llywodraeth Cymru bod angen newid diwylliannol ymysg athrawon cyn y gwelir ymgysylltiad llawn â chyrchu'r PDC a Hwb yn fwy cyffredinol, ac y gwireddir ei botensial llawn

> 'Mae'n ymwneud â newid y meddylfryd diwylliannol. Mae angen iddyn nhw edrych ar y cyfleoedd a'r hyn y gallai fod a beth ydyw, yn hytrach na'i feirniadu….Mae'n rhaid cyfleu neges bod pawb yn ei ddefnyddio.' (Cyfweliad â Rheolwyr Llywodraeth Cymru, 2019)

4.26 Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfennaeth mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a ysbrydolwyd gan Dyfodol Llwyddiannus. Cyhoeddwyd y ddogfennaeth ar Hwb ac roedd ar gael i'r holl athrawon. Mae staff rheoli Llywodraeth Cymru'n deall bod hon yn gyffordd gritigol i'r wefan ac yn gymhelliad arwyddocaol i athrawon ymgysylltu â'r llwyfan yn fwy rheolaidd. Credir y bydd PDC yn elwa o'r ymgysylltiad cynyddol a mwy manwl dros y blynyddoedd sy'n dod, a gallai cyhoeddiad dogfennaeth gwricwlaidd fod yn gatalydd ar gyfer y math o newid diwylliannol sy'n ofynnol ymysg athrawon.

4.27 Fel y nodwyd mewn adroddiad blaenorol, mae'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi datblygu eu gwefannau eu hunain sy'n cynnig gwasanaethau tebyg neu ychwanegol, ac mae un Rhwydwaith wedi datblygu ap i gefnogi mynediad at wasanaethau a chyfleoedd rhwydweithio. Mae staff rheoli Llywodraeth Cymru (eto) wedi mynegi pryderon bod y gwefannau hyn o bosibl yn

dyblygu darpariaeth yn ogystal ag adnoddau, yn cymysgu negeseuon ac yn tanseilio effaith y PDC. Fodd bynnag, mae'r ACW yn llai argyhoeddedig y bydd gwasanaethau a gweithrediad o'r fath yn eu dyblygu ei gilydd, am ei fod yn gweld gwahaniaethau clir rhwng y PDC ac ap y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

4.28 Byddai ymchwiliad ac ystyriaeth bellach o'r ffigurau dadansoddol o wefannau ac ap Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn helpu, yn gyntaf, i weld pa mor fynych y maen nhw'n cael eu defnyddio. Yn ail, gallai'r data ddangos a yw athrawon yn rhyngweithio gyda'r ddwy wefan yn wahanol neu a yw'r gwefannau'n dyblygu darpariaeth y PDC. Yn olaf, os yw'r gwefannau'n darparu yr un gwasanaeth, yna dylid ystyried bod y ffigurau'n cyfrannu at gyflawniad y cylch gwaith craidd, er bod hynny drwy ddyblygiad.

4.29 Fodd bynnag, er bod lle posibl i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol adrodd am y ffigurau defnyddio o fewn y trefnau gwerthuso cyfredol, nid yw'r wybodaeth a adroddwyd mewn gwirionedd yn galluogi ymchwiliad agos neu fanwl. Er enghraifft, mae un Rhwydwaith yn darparu data am y nifer o gofrestriadau proffil ac ymweliadau â'r dudalen Facebook, tra bo Rhwydwaith arall wedi rhoi'r ffigurau ar gyfer un chwarter yn unig.

# 5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Dyma'r pedwerydd adroddiad interim, a'r olaf, sy'n mynd ati i nodi'r cynnydd sy'n digwydd a thynnu sylw at y materion allweddol; nid yw'n ceisio gwerthuso perfformiad y llinynnau yn erbyn eu nodau pennaf a'r theori newid a amlinellwyd yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf. Mae, fodd bynnag, yn amcannu i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth y gall y gwerthusiad terfynol dynnu gwybodaeth ohoni.

5.2 Mae'r canfyddiadau ar y cam hwn o'r gwerthusiad, serch hynny, yn bositif i raddau helaeth, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth lwyddiannus y rhaglen ac effaith uniongyrchol y gweithgareddau ar fuddiolwyr a chyfranogwyr. Un canfyddiad allweddol yw bod y mwyafrif llethol o athrawon yn barnu bod ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith bositif ar ymgysylltiad a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae'r canfyddiad hwn yn adeiladu ar y data ansoddol a gasglwyd ac a gyflwynwyd mewn adroddiadau interim blaenorol.

5.3 Yn ogystal, roedd canfyddiadau o'r gwaith maes a'r data a dderbyniwyd am Gynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru Gyfan hefyd yn awgrymu bod cynnydd i'w weld mewn agweddau allweddol o'r ddarpariaeth. Ond, mae'r adroddiad hefyd wedi canfod bylchau yn y data, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â'r effaith y mae'r Rhwydweithiau wedi ei chael ar athrawon a'u haddysgu, a fyddai'n dystiolaeth o'u llwyddiannau. Y data ansoddol sydd wedi ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn ac mewn adroddiadau blaenorol yw'r unig ffynhonnell o ddata sydd ar gael o hyd ac mae'n gyfyngedig i ddigwyddiadau penodol.

5.4 Mae maint y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn sylweddol, ac yn ystod blwyddyn y rhaglen a archwiliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn (2018-2019), bydd cannoedd yn fwy o ddysgwyr, athrawon, asiantau creadigol ac ymarferwyr creadigol yn elwa o'r ddarpariaeth ledled Cymru. Wrth fynd i mewn i flwyddyn derfynol y ddarpariaeth fel y cafodd ei dylunio, dylai rheolwyr y rhaglen fod yn cadarnhau'r cynlluniau ar gyfer dal ymlaen i gael effaith a sicrhau ei gwaddol ymysg buddiolwyr ac yng nghymuned y polisi.

5.5 Er bod adroddiadau blaenorol wedi nodi hyn, mae cyflwyniad y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan y rhaglen Dyfodol Llwyddiannus, y cyfeiriwyd ato'n fwy diweddar fel y Cwricwlwm i Gymru, wedi profi ac yn parhau i gynrychioli ffactor cyd-destunol allweddol mewn perthynas â'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Roedd staff rheoli a darparu, yn ogystal â chyfranogwyr, yn credu'n eang bod hwn yn

ffactor a oedd yn debygol o gynyddu mewn pwysigrwydd yn y blynyddoedd sy’n dod. At hynny, credwyd yn eang bod y rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau’n arbennig o berthnasol i faes dysgu a phrofiad y celfyddydau mynegiannol ac i addysgeg yn fwy cyffredinol o fewn y Cwricwlwm i Gymru sy’n datblygu.

5.6 Yn wir, mae cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru yn ystod oes y rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau wedi cynyddu perthnasedd y rhaglen, y diddordeb sydd gan bobl ynddi a’i gwaddol a’i heffaith bosibl. Mae data a thystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn ac adroddiadau blaenorol yn awgrymu bod staff rheoli a datblygu’r rhaglen, yn arbennig mewn perthynas â Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, wedi manteisio ar hyn ac wedi ceisio cyflenwi a chefnogi ymdrechion ehangach i alinio a datblygu darpariaeth y cwricwlwm newydd.

5.7 Mae wedi pennu nifer o faterion pwysig, fodd bynnag, a ddylai gael eu hadolygu gan reolwyr y rhaglen a thimau gweinyddol y rhaglen. Yr hyn sy’n achosi’r pryder mwyaf yw’r angen am eglurhad mewn perthynas â dyfodol y rhaglen a’i gwaddol a’i chynaliadwyedd, sy’n faterion nad ydynt o anghenraid neu’n gyfan gwbl o dan reolaeth rheolwyr y rhaglen. Os nad oes cynlluniau clir yn eu lle, mae nifer o bryderon yn codi ar y cam hwn mewn perthynas â natur ddarfodedig o bosibl yr effaith y mae’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ei chael: y golled yn ystod blwyddyn derfynol ansicr, o bersonél a, gyda rheiny golli arbenigedd ac effaith o’r rhaglen gyfan, gan gynnwys Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, lle mae dyheadau mewn perthynas â gwaddol a chynaliadwyedd yn amlwg yn flaenoriaeth; ac hefyd ddarfodiad y grant Cydweithio Creadigol, sy’n dod yn amlwg yn yr adroddiad hwn fel dull posibl o barhau’r ymyriadau hynny sydd ar ddull Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn ffordd addasedig a mwy hyblyg.

**Llinyn 1: Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**

5.8 Mae’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, ers ei gychwyniad, wedi cynrychioli’r elfen yn y rhaglen sy’n ymwneud fwyaf ag addysgeg sy’n gysylltiedig â datblygu sgiliau a galluoedd creadigol. Ar y cychwyn, roedd cynllunio a pharatoi ar gyfer y cynllun yn fwy o ffocws i’r staff rheoli nag oedd datblygu gweithgareddau Llinyn 2, am fod cysyniadau arloesol, a chyfres o syniadau tanategol, oedd angen cael eu cyflwyno yn nhîm darparu ACW; gwnaethpwyd hyn yn rhannol drwy waith cynnar gyda’r elusen addysg CCE. Yn ogystal, roedd angen clymu rowndiau LCS o

weithgareddau i flynyddoedd academaidd dilynol, oedd yn gwneud y llinyn yn ffocws cychwynnol. Mae diddordeb ysgolion yn y cynllun wedi bod yn gryf bob amser, ac mae ystod eang o ysgolion wedi cymryd rhan hyd yn hyn heb unrhyw bryderon am y targed o gyrraedd traean o'r holl ysgolion yng Nghymru yn y pen draw.

5.9 Cafodd y cynllun ei ehangu hefyd drwy ychwanegiad trydedd blwyddyn ar gyfer ysgolion Rownd 1 a 2. Y 'llinyn datblygu' oedd enw hon ac roedd yn canolbwyntio ar drosglwyddo arferion a phrofiadau da o'r ysgolion hyn i ysgolion eraill oedd heb elwa o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er bod rhywfaint o ddata ar gael ar gyfer gwerthuso'r llinyn hwn, bydd rhagor o ymchwil yn digwydd er mwyn adrodd am y gydran hon yn gynhwysfawr mewn adroddiadau yn y dyfodol.

*Cyfranogaeth a chymhelliant ysgolion*

5.10 Mae'r data am gyfranogaeth yn awgrymu, fel y dywedwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim blaenorol, bod y lefel o ddiddordeb gan ysgolion yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn uchel.

5.11 Unwaith eto, mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y defnydd a wneir o linyn Ysgolion Creadigol Arweiniol y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cynrychioli Cymru i raddau mawr mewn perthynas ag amddifadedd, y rhaniad cynradd-uwchradd, y cyfrwng ieithyddol, neu'r ddaearyddiaeth.

5.12 Mae datblygiad proffesiynol wedi dod i'r amlwg fel elfen allweddol i gymell pobl i gymryd rhan yn y broses Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac mae datblygu addysgeg yn un o ganlyniadau allweddol y rhaglen i athrawon. Mae adroddiadau gwerthuso wedi parhau i sylwi ar ddylanwad cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru fel cymhelliad pellach. Wrth geisio alinio a datblygu eu darpariad o'r cwricwlwm newydd, mae athrawon ac ysgolion wedi ystyried y rhaglen yn ffordd o ddatblygu addysgeg a gwella sgiliau athrawon.

*Rheolaeth*

5.13 Mae'r adborth gan ysgolion ac athrawon yn parhau i fod yn bositif. Mae'r sylwadau lleiaf positif yn ymwneud â'r camau myfyrio a gwerthuso, sy'n cael eu hystyried yn gyffredin fel rhai beichus sy'n cymryd llawer o amser. Mae hyn wedi ei nodi'n gyson mewn adroddiadau gwerthuso, ac mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cymryd camau i ymdrin â'r mater. Mae'r lefelau boddhad a nodwyd yn yr Arolwg Athrawon wedi cynyddu ers gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r cam myfyrio a

gwerthuso yn parhau'n allweddol i adnabod beth sy'n gweithio ac hefyd i ymwreiddio neu ledaenu dysgu ledled yr ysgol.

5.14 Roedd yr ymatebion i'r arolwg a'r data ansoddol yn awgrymu bod y cymorth a gynigir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ysgolion ac athrawon yn parhau i fod yn effeithiol ac yn derbyn croeso a gwerthfawrogiad.

5.15 Yn ogystal, dywedodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru bod y cynefindra gyda'r rhaglen a adeiladwyd hyd yn hyn, yn ogystal â chysondeb y tîm darparu, wedi galluogi i staff ymgysylltu ag ysgolion mewn ysbryd o hyblygrwydd adeiladol yn ystod y cyfnod cychwynnol. Ym marn y staff, maen nhw wedi eu paratoi'n well i archwilio a theilwra ceisiadau gyda gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio.

5.16 Mae'n ymddangos bod gosod staff darparu'r Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn Consortia Addysg Rhanbarthol wedi bod yn ffactor allweddol i gefnogi darpariaeth lwyddiannus y llinyn. Mae gosod y staff ochr yn ochr â staff Consortiwm wedi golygu bod modd i'r ddau bartner gyrchu gwybodaeth yn hawdd (a chyfnewid gwybodaeth yn hawdd). Yn ei dro, mae hyn wedi sicrhau bod y partneriaethau'n gweithio'n dda a bod y gwaith o recriwtio ysgolion a hyrwyddo'r cynllun wedi ei gefnogi'n dda. At hynny, wrth i staff y Consortia adael ac i staff newydd ddod yn eu lle, mae staff yr Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn sefyllfa unigryw i gyflwyno gwybodaeth a manylion am ddarpariaeth ac effaith y llinyn (i'r bobl newydd yn y rolau).

5.17 Yr hyn sy'n parhau'n ansicr yw'r effaith y mae gosod y timau ochr yn ochr â Chonsortia wedi ei chael ar ddealltwriaeth y Consortia eu hunain o athroniaeth y rhaglen a'r ffordd y mae hi'n gweithio. Efallai y gallai rheolwyr y rhaglen neu adroddiadau pellach archwilio i ba raddau y mae dealltwriaeth aelodau staff y Consortia o ddysgu creadigol wedi gwella drwy ymgysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru.

5.18 Ar sail y data sydd wedi ei ddadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn, gallai'r dasg o sicrhau effaith bositif a newid agwedd staff y Consortia fod yn dasg heriol. Roedd staff y Consortia'n awgrymu bod angen tystiolaeth bellach o hyd er mwyn gallu gwthio a hyrwyddo'r rhaglen a'i manteision i fwy o ysgolion ac athrawon, yn ogystal â'u darbwyllo o fuddion y rhaglen, Er bod yr adroddiad hwn yn darparu rhywfaint o dystiolaeth a allai fodloni dymuniadau personél y Consortia, roedd tensiwn rhwng y dulliau addysgeg a'r dulliau o ddatblygu'r plentyn cyfan a threfnau asesu sy'n mynd yn gynyddol hen-ffasiwn yn parhau i'w gwneud hi'n anodd i ymyriadau arloesol brofi

eu gwerth.[23] Felly wrth ymgysylltu â Chonsortia — ac (o bosib) bobl broffesiynol yn fwy cyffredinol — bydd angen ymdrin â'r tensiynau hyn, yn ogystal ag ystyried y dystiolaeth a gynhyrchir gan y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

*Llwyddiannau ac effaith*

5.19 Mae staff rheoli a darparu yn ogystal â buddiolwyr a rhanddeiliaid yn ystyried yn gyffredinol bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gynllun llwyddiannus. Roedd hyn wedi ei nodi'n gyson mewn adroddiadau blaenorol, gyda data ansoddol yn cyfeirio at yr effaith bositif ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad y dysgwr ac ar uwchsgilio a gwella hyder athrawon.

5.20 Roedd data 5 Arfer Creadigol y Meddwl a archwiliwyd yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau adroddiadau blaenorol, drwy awgrymu bod athrawon yn dal i deimlo bod gweithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith bositif ar sgiliau creadigol y dysgwyr.

5.21 Ymhellach, mae elfennau sy'n cyfateb yn gryf o fewn y sylwadau ansoddol a roddwyd gan athrawon, heb hwb, ar y ffurflenni gwerthuso a'r ffurflenni 5 Arfer Creadigol y Meddwl. Mae'r cyfatebiaethau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ac adroddiadau blaenorol ac maent yn awgrymu bod athrawon yn credu bod y rhaglen wedi cael effaith bositif ar hyder, cydweithrediad ac ymgysylltiad y dysgwyr yn y dosbarth.

5.22 Mae'r erfyn (hunan) effeithiolrwydd yn amlwg yn ceisio mesur effaith gweithgareddau ar lesiant disgyblion a'u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu. Roedd y sampl o ymatebion yn ddigon mawr i'w dadansoddi'n hyderus. Ond, ac eithrio rhai eithriadau bach, nid oedd y data'n awgrymu bod cydberthynas bositif neu negyddol arwyddocaol rhwng y cynllun a llesiant y dysgwyr neu eu hagweddau tuag at yr ysgol/gwaith dosbarth.

5.23 Er mai un casgliad posibl fyddai awgrymu nad yw'r rhaglen yn effeithio ar lesiant dysgwyr, byddai hyn yn gwrthgyferbynnu â'r sylwadau ansoddol cyson ac eang, ac heb eu hybu, y cyfeirir atynt uchod a dderbyniwyd gan athrawon drwy amrywiol ffynonellau. Casgliad mwy tebygol felly, sy'n cyfateb â'r data ansoddol, yw nad yw'r rhaglen yn casglu data perthnasol neu gywir yn effeithiol.

[23] Gwelwch hefyd; Education system alignment for 21st century skills

5.24 Yn bwysig iawn, ac am y tro cyntaf, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data o sampl fawr o ysgolion (262) sy'n nodi bod mwy na thri chwarter (76-92%) o athrawon o fewn y categorïau yn credu bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr. At hynny, gellir gweld cydberthynas rhwng ansawdd y data a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer y feirniadaeth a'r tebygolrwydd bod athrawon yn ystyried bod yr ymyriad yn effeithio'n bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr. Po fwyaf cadarn yw'r data a ddefnyddiwn i werthuso effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad, y mwyaf tebygol yw hi fod athrawon yn cydnabod bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad y dysgwyr. O'r athrawon hynny a ddefnyddiodd y dulliau mwyaf cadarn o werthuso'r effaith ar gyrhaeddiad, dywedodd 92% y gellid dweud bod y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cael effaith bositif ar lythrennedd a/neu rifedd.

5.25 Mae'r data'n awgrymu bod y llinyn wedi cael effaith bositif ar ddysgwyr a chyrhaeddiad dysgwyr, ac mae'n cynrychioli corff pwysig o ddata a fydd yn hysbysu'r gwerthusiad terfynol. At hynny, mae'r canfyddiadau'n darparu tystiolaeth rhaglen-gyfan i reolwyr o'r effaith a welwyd, a allai gefnogi ymdrechion yn y dyfodol i hybu dull, model darparu neu weithgareddau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

5.26 Mae'r data'n darparu rhywfaint o dystiolaeth o'r 'prawf o gysyniad' ac yn cefnogi'r theori newid mewn perthynas â'r effaith y mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ei chael ar gyrhaeddiad.

5.27 Fodd bynnag, nid yw'r cwestiwn wedi ei ateb ynglŷn â 'faint o effaith' y mae'r cynllun yn ei gael ar gyrhaeddiad. Mae heriau a rhwystrau sylweddol yn rhwystro'r ymdrechion i fesur maint yr effaith. Y prif rwystr o bosibl i ddefnyddio data o'r adroddiad hwn ac o adroddiadau blaenorol yw'r anghysondeb mewn dulliau darparu a chynnwys. Mae pob prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn unigryw, gan gynnwys gwahanol artistiaid, prosiectau a charfannau o ddysgwyr; felly, cyfyngedig yw'r gallu i gymharu. Heb waelodlin gyson a phrofion ôl-ymyriad ar draws prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, bydd y cymariaethau rhwng unrhyw ddata cyrhaeddiad yn gyfyngedig hefyd.

5.28 Os bydd rheolwyr eisiau archwilio 'faint o effaith' mae'r cynllun yn ei chael ar gyrhaeddiad dysgwyr, dylid rhoi ystyriaeth i samplu cyfranogwyr/dysgwyr a chynnwys profion cyn ac ôl-ymyriad safonol drwy'r sampl gyfan.

Argymhelliad 1: Efallai y bydd rheolwyr eisiau archwilio sefyllfaoedd hefyd lle nad yw athrawon wedi teimlo bod yr ymyriad wedi cael effaith bositif ar gyrhaeddiad dysgwyr. Gallai archwiliad fel hyn hysbysu cynllun a datblygiad y rhaglen yn y dyfodol a thynnu sylw at gydrannau o'r dull sydd mewn perygl o fethu. Gallai canfyddiadau gryfhau'r cysyniad ymhellach a helpu i gefnogi'r ddadl dros ei gefnogi neu ei ariannu ymhellach.

5.29 Gan edrych ar ddeunydd gwybodaeth ehangach, mae'n bosibl bod her hefyd mewn perthynas â'r amser y gall ei gymryd i newid agweddau diwylliannol ac addysgeg ysgol. Cytunir yn gyffredinol bod hon yn broses sy'n cymryd o leiaf bum mlynedd.[24] Efallai ein bod yn gweld yn y Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau — yn arbennig Ysgolion Creadigol Arweiniol — dystiolaeth o osod amodau a phreimio ar gyfer gwell cyrhaeddiad yn y dyfodol. Yr her felly fyddai sicrhau bod lle i barhau arferion o'r fath a chynnal diwylliannau dysgu o'r fath ar ôl i gyfnod cyllido'r rhaglen ddod i ben.

5.30 Mae'r data ar gyfer yr adroddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau blaenorol ac yn dal i awgrymu bod athrawon yn parhau i rannu profiadau a dysgu ymysg ei gilydd. Ond, mae cyfran fwyaf y rhannu'n parhau'n anffurfiol ac, er na ddylid ei ddiystyru, byddai'n syniad o bosib i staff rheoli roi mwy o ystyriaeth i hyn a gweithredu ar y mater. Dylai'r prosiect amcannu i gael arweinwyr uwch i brynu i mewn i'r dulliau a'r agweddau sy'n cael eu hyrwyddo, ond does fawr ddim trefniadau ffurfiol, trefnus i rannu gwybodaeth drwy ddiwrnodau HMS. Yn lle bod dysgu creadigol yn fenter ysgol gyfan, felly, efallai bod perygl yma bod y prosiect yn cefnogi dim ond clwstwr addysgiadol o grwpiau bach o athrawon.

5.31 Roedd cyfweliadau gyda staff rheoli a rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu bod y gwaith yn creu effeithiau pellach y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd ac y cynlluniwyd ar ei gyfer. Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys iaith gyffredin oedd yn datblygu ynghylch creadigedd, dysgu creadigol ac addysgu'r celfyddydau mynegiannol. Mae'r iaith hon (o leiaf yn rhannol) wedi'i phriodoli i'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ac, yn arbennig, y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a chredir ei bod wedi ei hadlewyrchu yn yr arweiniad drafft ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

[24] Whole School Change: A Literature Review a The Signature Pedagogies Project: Final Report

Argymhelliad 2: Gallai rhagor o waith ymchwil ac archwiliad o’r iaith sy’n datblygu mewn perthynas â chreadigedd, dysgu creadigol ac addysgu’r celfyddydau mynegiannol ymysg pobl broffesiynol ym maes addysg ddatgelu maint yr effaith y mae’r rhaglen wedi ei chael o fewn y maes.

5.32 Mae rhanddeiliaid a staff rheoli a darparu wedi gweld diddordeb cynyddol mewn dulliau dysgu creadigol gan arweinwyr ysgol. Mae’r diddordeb cynyddol hwn wedi ei briodoli’n rhannol i effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ond mae hefyd wedi ei gyfuno â’r ensyniad yn nogfennaeth y cwricwlwm y bydd disgwyl i ysgolion ac athrawon archwilio a datblygu eu haddysgeg a’u dulliau addysgu.

5.33 Hefyd, nododd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru eu bod wedi gweld lefel gynyddol o ddiddordeb gan wledydd eraill. Roedd aelodau staff wedi bod ar dripiau i India ac i wledydd/bartneriaid rhyngwladol eraill, gan rannu eu profiadau o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau ac, yn arbennig, yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

*5.34* Mae’r agweddau hyn yn awgrymu, i gychwyn, bod partïon y tu hwnt i’r rhaglen, y staff darparu a’r buddiolwyr yn gweld y rhaglen yn werthfawr ac, yn ail, bod gwybodaeth yn ymwneud â llwyddiannau ac effaith y rhaglen wedi estyn ymhell.

*Cynaliadwyedd a gwaddol*

*5.35* Fel y trafodwyd uchod, mae rhanddeiliaid fel Consortia Addysg Rhanbarthol a llywodraethau tramor yn cydnabod gwerth y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a’i effaith ar addysgu ac ysgolion. Gallai’r rhanddeiliaid a chyrff hyn sydd â diddordeb, os ydynt yn argyhoeddedig o effaith y rhaglen, fod yn ffynonellau ariannu posibl a allai gadw’r lefelau gweithgarwch i fynd yn y dyfodol.

5.36 Nododd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, fodd bynnag, bod y cynllunio ar gyfer cynnal gweithgareddau yn y dyfodol, y tu hwnt i fywyd y prosiect, yn ddibynnol ar hyn o bryd ar wneud penderfyniadau strategol a chynnig eglurder ynghylch y blynyddoedd sy’n dod. Mae hon, fodd bynnag, yn gyffordd gritigol ym mywyd y rhaglen. Mae gweithgareddau craidd yn dirwyn i ben yn barod at ddiwedd yr ariannu ac nid oes unrhyw ariannu wedi ei gadarnhau hyd yma ar gyfer y dyfodol. I osgoi’r risg o golli staff allweddol ac arbenigedd, yn ogystal â momentwm ac ymwybyddiaeth ehangach o’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, efallai y daw hi’n bwysig gwneud y penderfyniadau hyn gynted ag y bo modd er mwyn gallu parhau i gynllunio gweithgareddau’r dyfodol ac er mwyn helpu i gadw staff

allweddol. Os nad oes cyllid yn dod gan bartneriaid strategol, efallai y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau ystyried mynd ar ôl rhanddeiliaid (megis y Consortia Addysg Rhanbarthol) neu bartneriaid rhyngwladol fel arianwyr posibl ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol.

Argymhelliad 3: Dylai partneriaid strategol a staff rheoli ystyried yr angen i gadarnhau'r manylion ynghylch ariannu'r rhaglen yn y dyfodol er mwyn galluogi i staff rheoli'r rhaglen roi cynlluniau ar waith heb y risg o golli personél ac arbenigedd. Os nad oes cyllid i ddod gan bartneriaid strategol, efallai y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau ystyried mynd ar ôl rhanddeiliaid (fel y Consortia Addysg Rhanbarthol) neu bartneriaid rhyngwladol fel arianwyr posibl ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol.

5.37 Mae gwaddol y cynllun yn dod yn glir ar y cam hwn o'r rhaglen. Mae'n rhaid cydnabod mai llwyddiannau ac effeithiau allweddol y cynllun yw profiadau'r dysgwyr, yn ogystal â'r ffaith fod cannoedd o athrawon ac ymarferwyr creadigol wedi derbyn hyfforddiant. Mae pryder yn parhau, fodd bynnag, ynglŷn â pha mor ddarfodedig yw'r llwyddiannau hyn a pha mor hir y gall y gwaddol hwn barhau, o ystyried bod llawer o'r rhannu gwybodaeth yn parhau'n anffurfiol rhwng unigolion.

5.38 Nid oedd aelodau'r staff yn gweld y byddai ysgolion mewn sefyllfa i gynnal a chyllido cyfranogaeth sefydliadau celfyddydau ac artistiaid yn y dyfodol, tra bo rhai ysgolion wedi edrych ar y grant Cydweithio Creadigol fel ffordd o gadw gweithgareddau i fynd. Yn dilyn Cydweithio Creadigol, fodd bynnag, os ystyrir yr ysgolion eu hunain yn gomisiynwyr uniongyrchol y prosiectau neu'r hyfforddiant a arweinir gan y celfyddydau yn y dyfodol, mae'n annhebygol y bydd y lefelau ariannu ar gyfer gwneud hynny ar gael i ysgolion heb i gyllidebau a blaenoriaethau gwario ysgolion gael eu hailstrwythuro'n sylweddol.

5.39 Felly, y cwestiwn mewn perthynas â gwaddol yw hyn: a ddylai'r gwaddol gael ei yrru gan y newid a ddymunir yn arferion yr athrawon neu drwy i ysgolion ystyried sefydliadau celfyddydau fel partneriaid tymor hir. Os dewisir y cyntaf, ac heb ystyried cyfraniad y llinyn datblygu, mae'n ymddangos y dylai DPP parhaus ac ymdrechion i rannu a sefydliadu gwybodaeth ffurfio cydran allweddol o'r cynllunio gwaddol. Os dewisir yr ail, mae angen canfod a sicrhau ffynonellau pellach o ariannu i gefnogi ysgolion i gomisiynu artistiaid.

5.40 Fodd bynnag, ochr yn ochr â gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol, mae effaith y cynllun ar addysgu'r celfyddydau mynegiannol yn fwy cyffredinol o dan y Cwricwlwm i Gymru yn haeddu rhagor o ymchwiliad. Yr elfen fwyaf nodedig yw cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod y cynllun wedi'i gydnabod fel rhagflaenydd i'r cwricwlwm newydd, yn ogystal ag esboniad o'r ffordd y byddent yn hoffi gweld dysgu creadigol yn datblygu o fewn ysgolion yng Nghymru.

Argymhelliad 4: Dylai adroddiadau yn y dyfodol archwilio effaith a gwaddol y rhaglen mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru. Gallai hyn gysylltu ag Argymhelliad 2 uchod (h.y. datblygu iaith).

**Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol**

5.41 Roedd yr adroddiad interim hwn yn archwilio'r cynnydd oedd yn cael ei wneud gan y Rhwydweithiau, gan gyflwyno data wedyn am flwyddyn academaidd lawn o weithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol am y tro cyntaf. Roedd y dadansoddiad yn ail-ymweld â rhai o'r materion yn ymwneud â'r broses a godwyd yn yr adroddiad diwethaf, yn ogystal ag archwilio'r ddarpariaeth a'r effaith dros y flwyddyn academaidd.

*Cymhelliad*

5.42 Er mai'r amcanion a nodwyd ar gyfer y Rhwydweithiau, mewn gwirionedd, oedd darparu pum allbwn, h.y. canolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau, mae'r cydlynwyr yn dal i ystyried bod y Rhwydweithiau'n cynnig gwerth ychwanegol a rôl mewn cefnogi ysgolion i ddatblygu a darparu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn wir, roedd rhanddeiliaid a staff darparu o'r farn bod cyd-destun y cwricwlwm yn gymhelliad sylweddol i athrawon ac ysgolion ymgysylltu â gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. At hynny, barnwyd bod datblygiad y cwricwlwm newydd yn debygol o arwain at fwy fyth o alw am gymorth o'r math yr oedd y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn ei ddarparu.

5.43 Mae'r data'n awgrymu bod lle i roi gwybod i fwy o bobl am weithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol er mwyn annog pobl i ymgysylltu. Roedd y Cydlynwyr Rhwydwaith yn awgrymu, ac roedd data'r arolwg ag athrawon oedd yn gweithio gyda'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn awgrymu hefyd, nad oedd fawr

ymwybyddiaeth o’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol er bod gan bobl ddiddordeb mawr yn y cynnig unwaith y byddent yn gwybod amdano.

Argymhelliad 5: Dylai staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a staff darparu Ysgolion Creadigol Arweiniol fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo gweithgareddau’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol drwy eu hymgysylltiad ag athrawon.

*Rheolaeth a darpariaeth*

5.44 Mae’r rhyddid sydd gan gydlynwyr a’u staff i lunio a datblygu’r Rhwydweithiau’n parhau i gael ei ystyried yn gryfder. Mae data’r flwyddyn hon yn awgrymu bod y gallu i ddatblygu a darparu sesiynau DPP mewn perthynas â’r cwricwlwm newydd wedi galluogi i’r cynnig gan y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol fanteisio ar y galw gan athrawon a’r gofynion sy’n eu cymell, yn ogystal â pharhau’n berthnasol i anghenion a galwadau hyfforddi athrawon. At hynny, mae’r hyrwyddwyr celfyddydau wedi gallu canolbwyntio ar feysydd tebyg ac hefyd fanteisio ar y galw gan athrawon.

5.45 Er bod y Rhwydweithiau wedi parhau i geisio cynorthwyo ei gilydd i ddatblygu a darparu eu darpariaeth, roedd rhai’n awgrymu bod cyd-gynhyrchu DPP, yn arbennig, yn gofyn llawer iawn o amser.

5.46 Mewn dwy sefyllfa o leiaf, mae perthynas agos wedi datblygu gyda’r Consortia Addysg Rhanbarthol. Mae’r berthynas Edau-GwE yn esiampl arbennig o bositif o Rwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn dangos ei fod yn gallu cyfrannu at amcanion strategol rhanddeiliaid addysgol allweddol yn y rhanbarth. At hynny, maen nhw (ym marn personél y Consortia) wedi dod yn ffynonellau ac yn ddarparwyr arbenigedd a chymorth i ysgolion yn y rhanbarth. Mae’r rhaglen hyrwyddwyr celfyddydau, er enghraifft, wedi ei halinio â blaenoriaethau’r Consortia, ac mae hyrwyddwyr celfyddydau’n cael eu dyrannu i ysgolion a bennwyd gan y Consortia fel rhai sydd angen cymorth mewn perthynas ag addysgu neu ddatblygu’r ddarpariaeth celfyddydau mynegiannol.

5.47 Mae’r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn parhau i arloesi a datblygu ffurfiau newydd o gymorth, gan barhau ar yr un pryd i geisio cyflawni eu gofynion craidd. Ym marn y cydlynwyr, mae’r ffaith fod o leiaf un Rhwydwaith yn defnyddio ‘cronfeydd sbarduno’ wedi cefnogi ysgolion i gymryd camau cychwynnol neu gamau bach tuag at integreiddio ymarferwyr creadigol yn narpariaeth yr addysg

celfyddydau mynegiannol. Er bod y 'cronfeydd sbarduno' yn y cyd-destun hwn yn gweithredu ar raddfa lawer llai na'r grant Cydweithio Creadigol, mae'n rhaid i staff rheoli a datblygu gymryd gofal i beidio â dyblygu darpariaeth wrth iddynt arloesi a datblygu eu cynnig.

5.48 Mae datblygiad yr ap broceru, yn bennaf gan un Rhwydwaith ond wedi ei gefnogi ac am gael ei gyflwyno gan bob un mae'n debyg, yn enghraifft bellach o arloesi. Cafodd yr ap ei ddatblygu fel ffordd o helpu i froceru perthnasoedd rhwng athrawon ac artistiaid, sef y dasg oedd i gael ei gweithredu gan y Rhwydweithiau. Mae staff rheoli a darparu wedi mynegi cyffro ynghylch y syniad o froceru perthnasoedd yn gyflym ac yn hawdd drwy'r ap. Yn ogystal, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai'r ap 'newid y gêm' o ran dod ag ymarferwyr creadigol ac athrawon/ysgolion at ei gilydd. Mae'r ap yn gyfle i gadw'r rhaglen yn effeithiol, a gallai gynrychioli cydran o waddol y llinyn.

5.49 Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai aelodau o staff y Rhwydweithiau bod angen cofio bod llwyddiant yr ap yn dibynnu (i raddau mawr) ar ei hyrwyddo'n llwyddiannus a pharodrwydd athrawon ac artistiaid i'w ddefnyddio. Mae data am ddefnydd yn ymwneud â'r Parth Dysgu Creadigol dros y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu y gallai hynny fod yn sialens a dylai staff rheoli a darparu ystyried datblygu cynllun hyrwyddo ac allgymorth i gefnogi'r ap.

Argymhelliad 6: Dylai staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru geisio datblygu a darparu'r adnoddau ar gyfer strategaeth hyrwyddo a marchnata ar gyfer cyflwyno'r ap broceru. At hynny, dylai staff rheoli ystyried a oes angen cyflwyno'r ap fel peilot i gychwyn. Gallai canfyddiadau cyfnod peilot a chyflwyniad llwyddiannus yr ap, ynghyd â defnydd eang ohono, ostwng disgwyliadau'r Rhwydweithiau mewn perthynas â'u gofynion broceru eu hunain.

5.50 Yn fwy cyffredinol, soniodd cydlynwyr y Rhwydweithiau am natur niwlog y gweithgareddau, yn ogystal â pha mor anodd yw hi i benderfynu pryd mae gweithgareddau wedi digwydd. O ganlyniad, codwyd amheuon am ddilysrwydd a defnyddioldeb cyfri gweithgareddau broceru.

5.51 Mae'r cydlynwyr yn ystyried bod darpariaeth y DPP mewn dysgu creadigol trawsgwricwlaidd gan y Rhwydweithiau y tu hwnt i gylch gwaith y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Nododd y cydlynwyr, fodd bynnag, bod pobl yn gofyn iddynt ddarparu hyn ac y byddent yn hoffi darparu DPP mewn dysgu

creadigol trawsgwricwlaidd y tybir ei fod yn gorgyffwrdd â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ymhellach, mynegodd personél y Consortiwm ddymuniad i weld y llinynau'n dod at ei gilydd i ddarparu mwy o DPP mewn dysgu creadigol. Dywedodd y cydlynwyr a'r rhanddeiliaid y dylid ymlacio'r llinell ymrannu ac y dylid caniatáu i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ddarparu DPP mewn dysgu creadigol trawsgwricwlaidd naill eu hunain neu ochr yn ochr â thimau Ysgolion Creadigol Arweiniol.

5.52 Mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, fodd bynnag, wedi bod yn gyson bendant yn eu rhesymau am beidio cymeradwyo'r datblygiad hwn, sef eu pryderon ynghylch dyblygiad a dilysrwydd unrhyw werthusiad o'r model darparu

Argymhelliad 7: Os bydd y gwaharddiad yn cael ei adolygu, efallai y bydd staff rheoli eisiau ystyried pwysau'r data a'r dystiolaeth sydd wedi cael eu casglu'n barod am y rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn ogystal ag i ba raddau y gellir dilysu a darparu tystiolaeth am y model a'i lwyddiannau yn barod. Yn ogystal, efallai y bydd staff eisiau ystyried treialu'r ddarpariaeth i gychwyn ar raddfa lai er mwyn hysbysu eu penderfyniad.

*Cyfathrebu*

5.53 Roedd y cyfathrebu rhwng staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn broblem oedd yn gysylltiedig â gwaddol a godwyd mewn adroddiadau blaenorol ac edrychwyd arno eto. Roedd data'n awgrymu bod cyfathrebiad rhwng y ddau barti wedi gwella ym marn y staff rheoli a darparu. Cyfaddefodd y ddau barti, fodd bynnag, bod problemau'n parhau a'u bod yn effeithio ar y gwaddol a'r ddarpariaeth. Yn hanfodol, mae perygl na fydd paratoadau'n cael eu gwneud i gadw'r rhaglen yn effeithiol, ni fydd yn elwa o lwyddiannau, bydd arbenigedd a phrofiad yn cael eu colli a bydd effaith hirdymor y rhaglen yn gostwng o ganlyniad i hynny.

5.54 Yn arbennig, roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgwyl i staff y Rhwydwaith fod yn fwy rhagweithiol o ran darparu tystiolaeth o lwyddiannau eu gweithgareddau. Yn y cyfamser, roedd staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eisiau dull mwy anffurfiol o gyfathrebu a phroses ymgeisio gynhesach a mwy cydgynghorol.

5.55 Yn bwysicach na hynny, mynegodd staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ddymuniad am fwy o eglurhad gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn

perthynas â'r gwaddol a chyfeiriad y rhaglen a'r llinyn yn y dyfodol. Roedd hyn yn cyferbynnu gyda barn staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru y dylai'r Rhwydweithiau arwain o ran darparu'r manylion yn ymwneud â threfniadau ar ôl ariannu. Mae hyn wedi creu rhyw fath o sefyllfa ddisymud ar gam hanfodol o bwysig yn y gwaith o gynllunio gwaddol, gyda'r ddau barti'n edrych tuag at y llall am arweiniad.

Argymhelliad 8: Mae perygl y bydd y sefyllfa ddisymud hon mewn perthynas â chynllunio gwaddol a datblygu cynigion ar gyfer gweithgareddau y tu hwnt i'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn effeithio ar y canlyniadau tymor hir y gall y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol eu cyflawni. At hynny, mae cyfnod o ansicrwydd ynghylch y dyfodol yn cynyddu'r risg o golli staff allweddol a phrofiadol y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Felly, argymhellir bod Cyngor Celfyddydau Cymru'n cymryd rheolaeth yn awr ar y broses o ddatblygu trefniadau ôl-gyllido. Efallai y bydd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru, ar sail eu dealltwriaeth gyfredol o weithgareddau ac effeithiau'r Rhwydweithiau, eisiau cyflwyno eu cynigion am drefniadau ôl-gyllido i'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder i bawb a gallai gynhyrchu trafodaeth bellach gyda staff y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol.

*Llwyddiannau ac effaith*

5.56 Pennwyd un broblem allweddol yn ymwneud â llwyddiant ac effaith y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn Adroddiad 3, sef bod y diffyg tystiolaeth a data sydd ar gael yn cyfyngu ar y gallu i ddangos tystiolaeth o'r cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau'r Rhwydweithiau a'r effeithiau a ragwelwyd. Y rheswm am hyn yn rhannol oedd mai tasg y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol oedd darparu gweithgareddau yn unig, nid sicrhau canlyniadau neu effeithiau. Roedd angen rhagor o ddata i archwilio sut yr oedd buddiolwyr yn ymgysylltu a pha fuddion yr oeddent yn eu cael o'u hymgysylltiad â'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Roedd Adroddiad 3 yn argymell y dylid sefydlu rhagor o ffynonellau data a fyddai'n asesu'n feintiol ac yn ansoddol berthnasedd gweithgareddau'r Rhwydweithiau mewn perthynas â'r canlyniadau a ragwelwyd sydd wedi eu disgrifio yn y theori newid.

5.57 Mae staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i'r holl Rwydweithiau i lunio astudiaethau achos sy'n dangos effaith eu gweithgareddau.

Nid oedd yr astudiaethau achos hyn ar gael ar amser yr ysgrifennu. Yn ogystal, agorwyd arolwg o fuddiolwyr, a bydd yr ymatebion i hwn yn cael eu dadansoddi mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5.58 Dyma her allweddol y llinyn o hyd: cynhyrchu data sy'n darparu tystiolaeth o lwyddiannau ac effaith y gweithgareddau.

5.59 Nododd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru eu bod yn fodlon bod y Rhwydweithiau wedi cyflawni eu targedau darparu ar gyfer 2017-2018 ac na chodwyd unrhyw bryderon am y flwyddyn academaidd 2018-2019. Mae'r targedau hyn, fel y nodwyd o'r blaen, yn ymwneud ag allbwn a gweithgareddau.

5.60 Er nad oedd data ar gael i ddangos tystiolaeth o'r llwyddiannau a'r effeithiau, roedd staff darparu'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod gweithgareddau wedi arwain at lwyddiannau clir mewn addysg, addysgu a gyda buddiolwyr sy'n artistiaid/ymarferwyr creadigol, ac wedi cel effeithiau clir arnynt. Mynegodd y ddau y farn bod y cymorth y mae Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol wedi ei roi i ysgolion ac athrawon wrth iddynt baratoi'r gweithlu ar gyfer darparu'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn llwyddiant allweddol.

5.61 Roedd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod y gwaith o gysylltu ysgolion ac athrawon gydag artistiaid/ymarferwyr creadigol, yn ogystal â chymorth athro-i-athro drwy'r cynllun hyrwyddwyr celfyddydau, wedi bod yn llwyddiant allweddol.

5.62 Hefyd, roedd staff y Rhwydwaith a phersonél y Consortia yn ystyried yr hyrwyddwyr celfyddydau'n llwyddiannau allweddol, am eu bod wedi cefnogi datblygiad y ddarpariaeth celfyddydau mynegiannol mewn ysgolion ar draws y rhanbarthau. Ymhellach, roeddent yn ystyried y ddarpariaeth DPP yn agwedd bellach ac yn elfen hanfodol o'u cyfraniad.

5.63 Dywedodd staff darparu'r Rhwydwaith bod yr adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr yn bositif yn aml iawn. Roedd y sylwadau oedd ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru drwy'r ffurflenni monitro'n adlewyrchu'r gred hon. Er nad oeddent bob amser yn berthnasol i'r canlyniadau a fwriadwyd, roedd y sylwadau'n awgrymu bod DPP wedi dylanwadu ar y ffordd yr oedd rhai athrawon yn mynd ati i addysgu, a bod rhai ohonynt wedi defnyddio eu hyfforddiant yn eu gwaith.

5.64 At hynny, nododd staff y Rhwydweithiau yr effaith bositif yr oedd y gweithgareddau'n ei chael ar lesiant athrawon yn eu barn hwy. Dywedwyd bod athrawon wedi sôn yn aml am brofiad adfywiol a chyffrous derbyn y DPP mewn perthynas â'r celfyddydau mynegiannol

5.65 Nododd staff y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol hefyd bod yr effaith ar artistiaid a sefydliadau celfyddydau'n dod yn amlycach. Yn arbennig, roedd sefydliadau celfyddydau ac ymarferwyr creadigol yn dod yn gyfarwydd â'r disgwyliadau a'r cyfleoedd posibl i gyfrannu a chydweithredu â'r sector addysg yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

5.66 Mae'n parhau'n wir, fodd bynnag, y tu hwnt i ddetholiad o sylwadau mewn adborth a ddarparwyd drwy ffurflenni monitro a chanfyddiadau staff darparu a rheoli, nid oes digon o ddata ar gael i ddarparu tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y llinyn.

Argymhelliad 9: Dylid pennu fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y staff sy'n gyfrifol am reoli a darparu gweithgareddau'r Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol dros y flwyddyn nesaf, a therfynol, bod data'n cael ei gasglu at ddibenion dangos tystiolaeth o lwyddiannau ac effeithiau. Dylid gwneud y cyfrifoldeb am gasglu'r data hwn yn glir.

*Cyfreithlondeb a chynaliadwyedd*

5.67 Mae'r camgyfathrebu mewn perthynas â'r cyfrifoldeb am gynllunio gwaddol a threfniadau ôl-gyllido wedi eu trafod uchod. Yn ogystal, mae'r goblygiadau a'r risgiau i waddol y rhaglen wedi eu trafod ac yn parhau'n agweddau allweddol i staff darparu a rheoli'r rhaglen eu hystyried.

5.68 Wrth archwilio a chynllunio'r gwaddol posibl, efallai y bydd staff rheoli eisiau edrych ar brofiadau ehangach yn y maes, megis sefydliadau pontio sydd wedi tyfu allan o bartneriaethau creadigol yn Lloegr o dan reolaeth Arts Council England[25], neu bartneriaethau mwy amrywiol Addysg Ddiwylliannol Leol sydd wedi cael eu gwerthuso'n ddiweddar.[26]

5.69 Mae personél y Consortiwm Addysg Rhanbarthol wedi mynegi'n gyson eu bod yn rhoi gwerth ar Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a'u gweithgareddau. Mewn o leiaf un esiampl, mae'r berthynas rhwng Consortiwm a

[25] Bridge Organisations
[26] Research into Local Cultural Education Partnerships

Rhwydwaith yn arbennig o agos, ac mae rhaglen hyrwyddwyr celfyddydau'r Rhwydwaith wedi ei strwythuro o amgylch blaenoriaethau'r Consortiwm ar gyfer y rhanbarth.

Argymhelliad 10: O ystyried y gwerth y mae'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn ei roi ar Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a'u gweithgareddau, dylai staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Rhwydwaith gysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i archwilio posibiliadau ac opsiynau cyllido posibl ar gyfer y dyfodol.

**Cronfa Profi'r Celfyddydau**

5.70 Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau'n parhau i ddenu nifer ddigonol o geisiadau i wario ei chyllideb. At hynny, siaradodd staff rheoli rhaglen Cyngor Celfyddydau Cymru am dderbyn mwy o geisiadau nag y gallent eu cyllido, gan awgrymu bod y gronfa'n boblogaidd a bod gofyn mawr amdani.

5.71 Fodd bynnag, mae data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu y gallai ymwybyddiaeth pobl am y gronfa fod yn uwch. Felly, mae posibilrwydd bod ysgolion a hoffai gymryd mantais o'r cynnig heb allu gwneud hynny oherwydd diffyg ymwybyddiaeth. At hynny, mae'n awgrymu bod posibilrwydd (eto) mai'r ysgolion a'r athrawon sy'n elwa ac yn gwneud cais am agwedd o'r ddarpariaeth Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yw'r 'hen rai arferol', sef yr ysgolion neu'r unigolion sy'n ymgysylltu, sy'n arloesol neu sydd â meddyliau creadigol.

5.72 Cafwyd ffocws penodol ar y grant Cydweithio Creadigol o fewn yr adroddiad hwn. Mae'r data'n awgrymu bod y grant wedi ymgysylltu â 220 o ysgolion yng Nghymru a 14,779 o ddysgwyr, Mae pob prosiect yn ymgysylltu â chyfartaledd o 255 o ddysgwyr, er bod y rhain yn gallu amrywio fesul prosiect o 12 i 1,920. Mae hyn yn awgrymu bod y model yn hyblyg ac yn gallu darparu ar gyfer ystod o wahanol fathau o brosiectau.

5.73 Yn wir, gallai amrywiaeth y prosiectau fod yn sialens i'r grant Cydweithio Creadigol. A chanddynt y rhyddid i ddatblygu ystod o wahanol fathau o brosiectau, gall ysgolion ymgysylltu â'r grant ac elwa ohono mewn amrywiaeth mawr o ffyrdd - naill ai drwy 'gyffyrddiad ysgafn', fel un o nifer o ysgolion yn cymryd rhan mewn un digwyddiad artistig, neu fel grŵp bychan o ddysgwyr yn gweithio'n ddwys gydag ystod o ymarferwyr creadigol. Mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth o'r ystod o fathau o brosiectau a redir gan ddefnyddio'r grant.

5.74 Fodd bynnag, mae’r amrywiaeth a’r gwahaniaeth yn y mathau o brosiectau’n cyfyngu ar y gallu i ddangos tystiolaeth o effaith y grant cyfan. O ganlyniad, mae’r gwerthusiad wedi ei gyfyngu i archwiliadau o astudiaethau achos o brosiectau penodol.

5.75 At hynny, soniodd staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru am y broblem o gyfathrebu llwyddiannau posibl y prosiect, o ystyried yr amrywiaeth a chymhlethdod y prosiectau sy’n cael eu cyllido gan y grant. Mae’r anawsterau o ran gwerthuso a dangos tystiolaeth o’i lwyddiannau, heb os, yn ffactorau sy’n cyfrannu at hynny hefyd. Unwaith eto, gellid tynnu sylw at y gwahaniaethau cysyniadol rhwng y dull arbrofol o ymyrryd lle mae’r dysgwr yn ganolbwynt a’r dull positifistaidd, ledled y rhaglen, lle gallai gwneuthurwyr polisïau a phobl broffesiynol ym myd addysg ddisgwyl gweld tystiolaeth o ganlyniadau.

5.76 Er hynny, mae astudiaethau achos yn awgrymu bod gan y grant y potensial i ariannu datblygiad prosiectau (ochr yn ochr ag ymarferwyr creadigol) sydd â buddion i gyrhaeddiad a lles y dysgwr, i agweddau ysgolion tuag at y celfyddydau, ac o ran adeiladu perthnasoedd a chysylltiadau rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydau. Ar yr un pryd, mae artistiaid unigol, yn debyg i’r llinyn Ysgolion Creadigol Arweiniol, wedi derbyn ac wedi cael profiad o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o’r cyd-destun addysg statudol, yn ogystal â’r posibilrwydd o gyfrannu a chydweithio ymhellach gydag ysgolion. At hynny, roedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod lle i sicrhau rhagor o ganlyniadau oedd dim ond wedi dod i’r amlwg o edrych yn ôl.

5.77 Ar sail personél a natur yr ysgolion a archwiliwyd yn yr astudiaethau achos, mae’n bosibl bod y grant yn tueddu i fod o fudd i, ac i gael ei ddefnyddio gan, nifer gyfyngedig o ysgolion ac athrawon sydd â gogwydd creadigol ac sy’n arloesi yn barod – yr hyn y mae adroddiadau blaenorol wedi cyfeirio atynt fel y ‘defnyddwyr arferol’. Efallai y byddai adroddiadau pellach eisiau archwilio neu brofi hyn.

5.78 Mae problem arall yn ymwneud â rôl y grant Cydweithio Creadigol a gwaddol y rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau. Roedd yr astudiaethau achos yn tynnu sylw at y ffaith fod profiad blaenorol gydag agweddau eraill o’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau wedi annog neu wedi cyflymu’r ymgysylltiad â’r grant. Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen yn sbarduno ymgysylltiad â chyfranogaeth yn ehangach gyda’r celfyddydau mynegiannol, tra bo’r gydran arbennig hon o’r rhaglen yn cyflenwi effeithiau’r llinynnau eraill drwy alluogi i ysgolion ac athrawon ddatblygu

cyfranogaeth ac ymgysylltiad fel hyn ymhellach. Yn y cyswllt hwn, y grantiau Cydweithio Creadigol ac Ewch i Weld yw'r cyfryngau gwaddol ar gyfer rhannau eraill o'r Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

5.79 Os yw'r grantiau Profi'r Celfyddydau'n ddulliau o gynnal a pharhau rhai o fuddion ehangach y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau cyffredinol, mae'n ymddangos eu bod yn amodol nid cymaint ar lwyddiant cynaliadwy drwy ddatblygiad athrawon, ond ar ailadrodd ysgogiad drwy geisiadau grant llwyddiannus a mwy o brosiectau. Mae pryder yn codi yn y cyswllt hwn, a risg i effaith barhaus y rhaglen, os yw'r buddiolwyr yn tueddu i weld eu ceisiadau'n methu ac os ydynt yn ddibynnol ar arbenigedd allanol. Naill ai y bydd angen adnoddau ar ysgolion er mwyn parhau â diwylliant o waith partneriaeth gyda sefydliadau celfyddydau neu efallai y bydd angen i ryw elfen o ddatblygiad athrawon dyfu mewn perthynas â'r llinyn hwn er mwyn helpu llif y dysgu proffesiynol mewn ffyrdd sy'n defnyddio llai o adnoddau.

**Y Parth Dysgu Creadigol**

5.80 Mae ffigurau defnydd ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol yn awgrymu bod llai o athrawon ac artistiaid yn defnyddio'r llwyfan, Mae hynny'n wir er gwaethaf yr hyn sy'n ymddangos yn hwb dros dro yn y ffigurau defnyddwyr ar adeg drafftio'r ddogfennaeth Cwricwlwm i Gymru.

5.81 Mae'n bosibl, felly, bod y Parth Dysgu Creadigol yn parhau i ddioddef o'r niwed i'w enw da a gafodd ar gamau cynharach y rhaglen ac a ymchwiliwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae staff rheoli Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyfforddiant gyda staff yn y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol sydd â'r dasg o ymgysylltu athrawon â'r Parth Dysgu Creadigol. Nid yw canlyniadau'r hyfforddiant hwn yn hysbys ar hyn o bryd, ac efallai y bydd angen eu hymchwilio ymhellach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5.82 Mae data o arolygon a chyfweliadau'n awgrymu, fodd bynnag, nad yw'r Parth Dysgu Creadigol wedi cael ei hyrwyddo'n ddigonol drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nid yw'n glir, heb ymchwilio ymhellach, a yw hynny oherwydd diffyg hyrwyddo, am fod yr hyrwyddo'n aneffeithiol neu am fod syniad athrawon o'r Parth Dysgu Creadigol mor negyddol nes y bo'n darbwyllo staff Ysgolion Creadigol Arweiniol i beidio ymgysylltu ag o yn y cyd-destun hwn.

Argymhelliad 11: Dylai staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru archwilio'r prosesau a'r dulliau o hyrwyddo ac ymgysylltu ag athrawon mewn perthynas â'r Parth Dysgu Creadigol. Dylai staff geisio canfod a yw'r Parth Dysgu Creadigol yn cael ei hyrwyddo'n eang a sut mae'n cael ei hyrwyddo. At hynny, dylai staff ganfod barn staff ac athrawon am y Parth Dysgu Creadigol, gan geisio canfod rhesymau pam fod y defnydd a wneir ohono'n parhau'n isel.

Argymhelliad 12: Y mater allweddol a chyson a godir gan athrawon fel rhwystr i ymgysylltu â'r Parth Dysgu Creadigol yw diffyg amser. Efallai y byddai staff rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau ystyried y gwerth mewn hyrwyddo'r buddion arbed amser wrth ddefnyddio'r Parth Dysgu Creadigol.

5.83 Mae staff rheoli Llywodraeth Cymru'n parhau i fynegi'r farn bod llwyfannau a gwefannau sydd wedi eu comisiynu gan Rwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn cystadlu gyda'r Parth Dysgu Creadigol am amser athrawon ac artistiaid. Mae pryder ehangach yn codi mewn perthynas â dyblygiad; mewn geiriau eraill, mae'n bosibl bod y llwyfannau'n cynnig yr un peth i athrawon â'r hyn a gynigir gan y Parth Dysgu Creadigol.

Argymhelliad 13: Doedd y data am ddefnyddio llwyfannau'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol ddim ar gael i'w ddadansoddi ond dylai fod ar gael i'w ystyried mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5.84 At hynny, mae problemau'n parhau i gael eu gwaethygu gan dwf a datblygiad llwyfannau sector preifat sy'n hwyluso rhwydweithio cymdeithasol yn ogystal â darparu adnoddau.

5.85 Mae data yn ymwneud â'r defnydd a wneir o'r Parth Dysgu Creadigol, yn arbennig gan athrawon, yn awgrymu bod galw mawr am astudiaethau achos ac esiamplau o arferion da. Ar y llaw arall, roedd adroddiadau blaenorol yn tynnu sylw at y ffaith fod darllenwyr yn cymryd bod ansawdd a pherthnasedd y cynnwys wedi'i warantu. Gallai hynny fod yn arbennig o berthnasol wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno.

5.86 Gallai cyhoeddiad dogfennaeth y cwricwlwm ar Hwb ac ymdrech ehangach i annog y proffesiwn addysgu i ddefnyddio'r llwyfan greu cyfle hefyd i adnewyddu'r ymdrechion i hyrwyddo'r Parth Dysgu Creadigol a syniadau pobl am ei fanteision a'i gryfderau.

## Atodiad 1: Rhagor o fanylion am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Llinyn 1)

### Y broses ymgeisio

Mae ysgolion sy'n gwneud cais i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y maent am fynd i'r afael â hwy drwy ddull dysgu creadigol. Er enghraifft, gall ysgol uwchradd ddewis mynd i'r afael â chyrhaeddiad isel mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio ystod o dechnegau er mwyn ennyn diddordeb ac ysgogi dysgwyr. Gallai ysgol gynradd ddymuno datblygu dulliau arloesol, trawsgwricwlaidd er mwyn hybu sgiliau llythrennedd.

Mae'r broses o ddylunio a sicrhau ansawdd mewn perthynas ag ymgeisio, dethol a recriwtio ysgolion yn hollbwysig, gyda'r nod o sicrhau bod materion a nodir gan ysgolion yn gredadwy ac yn unol â'r nodau cyffredinol mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd. Caiff ceisiadau Ysgolion Creadigol Arweiniol gan ysgolion eu gwirio gan dimau rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cymhwysedd, gan nodi’r dangosyddion categori sylfaenol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth dda o ysgolion ar y rhestr fer:

- Categoreiddio cymorth ysgolion[27]
- Canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (eFSM)
- Nifer y disgyblion
- Ysgol cyfrwng Cymraeg a/neu wledig.

Cynhelir cyfarfod cymedroli rhanbarthol lle bydd cynrychiolwyr o'r consortia addysg rhanbarthol yn cwrdd â staff Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru i gymedroli’r broses o sgorio ac asesu ceisiadau lleol a defnyddio eu gwybodaeth bresennol am yr ysgolion er mwyn argymell, neu gynghori yn erbyn, eu cynnwys fel Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y rownd yma. Mae’r penderfyniad terfynol ynglŷn â chynnig dyfarnu’r grant yn cael ei wneud yn ystod cyfarfod Panel Cenedlaethol, lle mae’n bosibl argymell amodau ychwanegol ar gyfer y grant i ymgeiswyr llwyddiannus. Mae'r Panel Cenedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a chynghorwyr allanol, yn ogystal â swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru.

[27] System genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion – tair lefel: Grŵp safonol 1 – 4 (1 = perfformiad cyffredinol da iawn a 4 = fwyaf o angen gwella perfformiad), Capasiti ar gyfer Gwella A-D (A = mwyaf o botensial i’w gwella eu hunain a D = lleiaf o botensial i’w gwella eu hunain). Yna cyfunir y rhain i roi categori cymorth i bob ysgol fel a ganlyn: Gwyrdd – ysgol hynod effeithiol – angen y gefnogaeth leiaf; Melyn – ysgol effeithiol; Ambr – angen ei gwella; a choch – angen gwella – angen y gefnogaeth fwyaf.

Dyma'r meini prawf dymunol mewn ceisiadau ar gyfer Ysgolion Creadigol Arweiniol:

- Ymrwymiad uwch reolwyr a'u gallu i ysgogi staff
- Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol dysgwyr
- Tystiolaeth bod y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhan annatod o weledigaeth yr ysgol a blaenoriaethau ei chynllun gwella ysgol
- Tystiolaeth o gyfraniad at wella llythrennedd a rhifedd/lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- Gallu i gyflawni.

Mae cyfarfod cymedroli'r Panel Cenedlaethol hefyd yn ceisio:

- Sicrhau cydbwysedd ledled Cymru/yn rhanbarthol
- Sicrhau amrywiaeth dda o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig
- Adlewyrchu anghenion ysgolion gwledig/cyfrwng Cymraeg
- Archwilio'r flaenoriaeth a roddir i ysgolion sy'n wynebu heriau sylweddol.

**Gweithredu**

Dyrennir Asiant Creadigol wedi'i hyfforddi'n arbennig i ysgolion a gefnogir sy'n gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu prosiectau a fydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r prosiect ar gyfer tymor y gwanwyn.  Yn ystod y cam cynllunio hwn, bydd Ymarferwyr Creadigol yn cael eu canfod a bydd Ffurflen Gynllunio yn cael ei chyflwyno i staff rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Cyfryngau i'w chymeradwyo. Mae gweithgareddau dysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r ymarferydd creadigol yn digwydd yn nhymor y gwanwn, a gwneir gwerthusiad myfyriol mewnol o'r gweithgareddau yn nhymor yr haf. Cefnogir ysgolion am ddwy flynedd, gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un fath â strwythur y flwyddyn gyntaf ac mae dysgu'r flwyddyn gyntaf yn hysbysu'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau.

Mae Asiantau Creadigol yn cael eu recriwtio a'u contractio gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac mae Ymarferwyr Creadigol yn cael eu canfod gan Asiantau Creadigol ac ysgolion ac yn cael eu contractio'n uniongyrchol gan yr ysgolion drwy eu dyfarniad grant Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu rhestr wedi'i choladu o Ymarferwyr Creadigol posibl gan unigolion neu sefydliadau sydd wedi cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymeradwyo nac yn asesu'r Datganiadau o Ddiddordeb hyn. Nid oes rheidrwydd ar

ysgolion i ddewis o blith y gofrestr hon o bartïon sydd â diddordeb; yn hytrach, fe'i darperir fel adnodd i'w cynorthwyo.

Mae athrawon yn cael eu disgrifio'n rhan ganolog o'r cynllun, gan greu partneriaeth gydag Ymarferwyr Creadigol wrth ddylunio a darparu dulliau newydd a myfyrio ar eu harferion. Oherwydd hyn, rhagwelir y bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo a bydd gwelliannau/newidiadau i ddulliau addysgu mewn perthynas â'u harferion eu hunain yn y dosbarth. At hynny, mae rôl ddwys yr athrawon yn ystod y camau darparu wedi'i llunio i sicrhau bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth, a'r bwriad yw i'w cynorthwyo i fagu hyder mewn darparu'r celfyddydau a sgiliau creadigol newydd.

Er mwyn sicrhau bod ysgol yn cymryd perchenogaeth o'r broses wella, rhagwelir y bydd y rhaglen hefyd yn cael ei hymgorffori yn y Cynllun Gwella Ysgol, gyda meini prawf meincnodi'n cael eu cytuno ymlaen llaw a data'n cael ei gasglu i ddarparu tystiolaeth o effaith.

Gan fod artistiaid profiadol sy'n gweithio fel Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol, yn chwarae rhan weithredol yn narpariaeth y rhaglen, rhagwelir y bydd ansawdd y rhaglen yn uchel, gan sicrhau bod sgiliau/rhinweddau creadigol yn gatalyddion ar gyfer newid. Fodd bynnag, bydd angen prosesau recriwtio a sefydlu effeithiol er mwyn sicrhau bod ansawdd artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn ddigon uchel i ychwanegu gwerth at brosiectau ac i fodelu'r nodweddion a'r sgiliau creadigol y mae'r rhaglen yn anelu at eu meithrin.

Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn cael cymorth am o leiaf ddwy flynedd i sicrhau gwelliannau yn y deilliannau ar gyfer dysgwyr; disgwylir y bydd newidiadau'n cael eu gwreiddio mewn arferion addysgu er mwyn creu effaith gynaliadwy. Dywedir bod cefnogaeth uwch reolwyr wrth wreiddio'r ymyriad o fewn polisi gwella ysgol gyfan yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad.

Gan fod disgwyliad clir o'r dechrau y bydd athrawon yn rhannu'r wybodaeth y sgiliau a'r profiad y byddant yn eu datblygu fel rhan o'r cynllun, o fewn eu hysgolion a gydag ysgolion eraill, disgwylir y bydd tipyn o effaith rhaeadru, gan helpu i wella ansawdd addysgu creadigol o fewn ysgolion a rhwng ysgolion.

## Atodiad 2: Detholiad o adborth yn dilyn gweithgareddau / gwasanaethau Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol

'Syniadau gwych i fynd yn ôl i'r ysgol ynghyd â chymorth lles ar gyfer staff. Llawer o syniadau y gellir eu trosglwyddo'n uniongyrchol, a sgyrsiau ysbrydoledig.'

'Ymlaciol, creadigol - dangos ffyrdd o ehangu ar syniadau, creadigedd a dychymyg i ddatblygu meddyliau gyda'r awyr agored.'

'Diwrnod gwych o greadigedd. Cawsom lawer iawn o syniadau/technegau i'w defnyddio yn y dosbarth ac ar lefel bersonol.'

'Roedd yn braf cael cerddorion byw yn perfformio yn ystod y cwrs. Diolch!'

'Ffantastig!'

'Dysgu i ddefnyddio fy nghysylltiadau ac i gadw mewn cysylltiad gyda'r Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg i barhau gyda'm datblygiad proffesiynol.'

'Roedd y cwrs yn llawn gwybodaeth a llwyddodd i waredu ychydig o'r ansicrwydd oedd gen i ynglŷn â gweithio fel artist llawrydd mewn ysgolion.'

'Roedd pob gweithdy yn ddiddorol ac yn procio'r meddwl, gan roi ymdeimlad gwych o lesiant. Buaswn wedi hoffi gwneud pob un o'r pedwar gweithdy.'

'Wedi mwynhau gweithdai LCS ac Arts Matter ac roeddwn yn gweld potensial mawr... perthnasol iawn o ystyried y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm.'

'Byddaf yn defnyddio agweddau o'r holl apiau a ddefnyddiwyd heddiw. Rwy'n cydweithio gyda llyfrgell yr ysgol a sesiwn agored i rieni, gan ddatblygu darllen er pleser a rhannu drwy gyfrwng digidol.'

'Dw i wedi mwynhau'n fawr heddiw. Mae wedi bod yn llawn gwybodaeth, dychymyg ac ysbrydoliaeth! Methu aros i weithredu'r syniadau newydd. Diolch!'

'Fe wnes i fwynhau'r cwrs yn fawr ddydd Mawrth — roedd yn wych. Fe ddois i yn ôl i'r ysgol yn teimlo fy mod wedi ymlacio ar ôl diwrnod mor dda, ond hefyd wedi fy ysbrydoli i roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau hyn yn fy nosbarth.'

## Atodiad 3: Holiadur hunan effeithiolrwydd

Mae tablau A1 ac A2 isod yn nodi'n fanwl y datganiadau a gafodd eu cyflwyno i ddysgwyr fel rhan o'r holiadur hunaneffeithiolrwydd. Gofynnwyd yr un cwestiynau cyn ac ar ôl yr ymyriad a chafodd yr ymatebion eu cymharu. Mae'r golofn ‘newid’ yn nodi a yw’r ymateb i’r datganiad wedi bod yn bositif neu’n negyddol, ac mae’r golofn ‘arwyddocaol yn statudol’ yn nodi a oes modd priodoli’r newid i’r ymyrraeth.

Mae Tabl A1 yn nodi bod newidiadau’n arwyddocaol a bod modd eu priodoli i’r ymyrraeth mewn wyth achos yn unig. Ymatebion positif oedd y rhain yn bennaf yn ymwneud â gwaith yn y dosbarth a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Fodd bynnag, o ran bywyd ysgol yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn teimlo'n llai diogel ac fel petaent yn mwynhau pethau'n llai. Er bod canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol mewn wyth achos, y casgliad mwy cyffredinol yw nad yw'r data wedi cyfleu cydberthynas glir nac arwyddocaol ar draws yr ymatebion.

**Tabl A1: Hunan effeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 3 – 4**

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Rydw i’n cael cyfle i ddysgu pethau diddorol | Positif | Ydy |
| Rydw i'n gallu dewis sut i wneud gweithgareddau | Positif | Nac ydy |
| Mae'r gwaith yr ydym ni’n ei wneud yn hwyl | Positif | Ydy |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd i mi | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n poeni pan fydda i’n gweithio | Positif | Ydy |
| Mae plant eraill yn gwrando ar fy syniadau | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n rhoi llawer o ymdrech i mewn i'm gwaith | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n fodlon siarad am fy ngwaith gyda'r athrawon | Negyddol | Nac ydy |
| Rwy'n teimlo'n dda amdanaf fy hun | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n iach | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo fy mod yn gwneud yn dda | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo’n ddiflas | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo bod gen i lawer o egni | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo fy mod yn cael gofal | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n werthfawr | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n bryderus | Positif | Ydy |
| Rydw i’n teimlo fy mod un gallu delio â phroblemau | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo’n ddiflas | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo fy mod yn cael sylw | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo bod llawer i edrych ymlaen ato | Positif | Ydy |
| Rydw i'n teimlo'n ddiogel | Negyddol | Ydy |
| Rydw i'n teimlo'n hyderus | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo bod llawer o bethau yn ymdrech go iawn | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo fy mod yn mwynhau pethau | Negyddol | Ydy |
| Rydw i’n teimlo’n unig | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo’n gyffrous am lawer o bethau | Positif | Ydy |
| Rydw i'n teimlo'n hapus | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn deg | Positif | Nac ydy |
| Rydw i’n teimlo bod pobl yn gyfeillgar | Negyddol | Nac ydy |

N=317

Mae Tabl A2 isod yn amlinellu canfyddiadau'r holiadur hunaneffeithiolrwydd cyn ac ar ôl ymyriad a gwblhawyd gan ddysgwyr Blwyddyn 5 – 6. Er y gellid cysylltu ymateb positif i dri datganiad gyda'r ymyriad - gyda'r newidiadau penodol yn cyferbynnu â'r ymatebion a gafwyd gan Flwyddyn 3–4 - methodd y data (unwaith eto) â darparu cydberthynas glir neu arwyddocaol ar draws yr ymatebion.

**Tabl A2: Hunan effeithiolrwydd dysgwyr Blwyddyn 5 -6**

| Datganiad | Newid | Arwyddocaol yn ystadegol |
|---|---|---|
| Rydw i'n cael cyfle i ddysgu pethau diddorol mewn gwersi | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n gallu dewis sut i wneud gweithgareddau mewn gwersi | Positif | Nac ydy |
| Mae'r gwaith yr ydym ni'n ei wneud yn hwyl | Negyddol | Nac ydy |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd i mi | Positif | Nac ydy |
| Mae'r hyn rydw i'n ei ddysgu'n bwysig ar gyfer fy nyfodol | Positif | Nac ydy |
| Rwy'n poeni pan fydda i'n gweithio mewn gwersi | Positif | Nac ydy |
| Mae plant eraill yn gwrando ar fy syniadau mewn gwersi | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n rhoi llawer o ymdrech i mewn i'm gwaith | Positif | Nac ydy |
| Rwy'n gwneud gwaith da yn yr ysgol | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n fodlon siarad am fy ngwaith gyda'r athrawon | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n edrych ymlaen at ddysgu mwy yn y dyfodol | Negyddol | Nac ydy |
| Rwy'n teimlo'n dda amdanaf fy hun | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n iach | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn gwneud yn dda | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n ddiflas | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo bod gen i lawer o egni | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn cael gofal | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n werthfawr | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n bryderus | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod un gallu delio â phroblemau | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n ddiflas | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn cael sylw | Positif | Nac ydy |
| Mae pobl yn gyfeillgar | Negyddol | Ydy |
| Rydw i'n teimlo bod llawer i edrych ymlaen ato | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n ddiogel | Negyddol | Ydy |
| Rydw i'n teimlo'n hyderus | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo bod llawer o bethau yn ymdrech go iawn | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn mwynhau pethau | Positif | Ydy |
| Rydw i'n teimlo'n unig | Positif | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n gyffrous am lawer o bethau | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo'n hapus | Negyddol | Nac ydy |
| Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn deg | Positif | Nac ydy |

N=218

Derbyniwyd hefyd 129 o ymatebion i'r holiadur cyn ac ar ôl yr ymyriad ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7-9. Fodd bynnag, ni ystyriwyd fod unrhyw newid mewn hunaneffeithiolrwydd yn arwyddocaol yn ystadegol.